Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 19eg Gorffennaf, 2022 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Aml Leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH a Zoom |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig Siencyn | Arweinydd y Cyngor |
| Nia Wyn Jeffreys | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Beca Brown | Aelod Cabinet Addysg |
| Berwyn Parry Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol a YGC |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Elin Walker Jones | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Menna Jones | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFODYDD A GYNHALIWYD AR Y 14 AC 28 MEHEFIN 2022 | | | 4 - 15 |
| 6 | PROSIECTAU GRANT CYFALAF ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG, LLYWODRAETH CYMRU | Cyng. Beca Brown | Gwern ap Rhisiart / Rhys Glyn | 16 - 91 |
| 7 | CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DG | Cyng. Dyfrig Siencyn | Sioned Williams | 92 - 97 |
| 8 | AIL WEDD Y RHAGLEN ARFOR | Cyng. Dyfrig Siencyn | Sioned Williams | 98 - 105 |
| 9 | Y GRONFA FFYNIANT BRO | Cyng. Dyfrig Siencyn | Sioned Williams | 106 - 113 |
| 10 | ACHOS DROS NEWID: DARPARU LLEOLIADAU NYSRIO FEL RHAN O BARTNERIAETH SECTOR GYHOEDDUS | Cyng. Dilwyn Morgan | Morwena Edwards | 114 - 122 |
| 11 | DYFODOL Y GWASANAETH CYNLLUNIO POLISI AR Y CYD (GWYNEDD A MÔN) | Cyng. Dafydd Meurig | Gareth Jones | 123 - 134 |
| 12 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS AMGYLCHEDD | Cyng. Dafydd Meurig | Dafydd Wyn Williams | 135 - 141 |
| 13 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL A | Cyng. Berwyn Parry Jones | Steffan Jones a Huw Williams | 142 - 156 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | YMGYNGHORIAETH GWYNEDD | | | |

# Eitem 5



**Y CABINET DYDD MAWRTH,**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L Siencyn, Nia Jeffreys, Craig ab Iago, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Menna Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 29 MAWRTH 2022**

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29ain o Fawrth 2022 fel rhai cywir.

**6. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2021/22**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2021/22 ac argymhellwyd i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod nesaf ar y 23 Mehefin 2022.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn adlewyrchu ar waith y Cyngor dros y flwyddyn aeth heibio. Eglurwyd ei fod yn adroddiad diddorol dros ben sydd yn dangos rhychwant gwaith sydd wedi ei wneud ynghyd â camau i gynnal perfformiad y Cyngor i'r dyfodol.

Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor fod yr adroddiad yn dangos cynnydd y Cyngor yn erbyn eu blaenoriaethau yn ystod 2021/22. Nodwyd fod yr adroddiad yn un cytbwys sydd yn rhoi sylw i waith sydd wedi gyflawni ynghyd â gwaith sydd heb ei wneud. Mynegwyd fod rhan gyntaf yr adroddiad yn adrodd ar gynnydd o ran y blaenoriaethau'r Cyngor tra fod yr ail ran yn mynd i'r afael a pherfformiad adrannau o ran eu gwaith o ddydd i ddydd.

Eglurwyd fod y gwaith hwn wedi ei baratoi gan yr adrannau ac wedi ei wirio gan yr Aelodau Cabinet cyfredol cyn yr etholiad. Nodwyd y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar y 23 Mehefin.

**7. CYFRIFON TERFYNOL 2021/22 – ALLDRO REFENIW**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

1.1 Nodwyd sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2021/22.

1.2 Cymeradwywyd y symiau i'w parhau (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn Atodiad 1), sef -

| ADRAN | £'000 |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | (69) |
| Plant a Theuluoedd | (97) |
| Addysg | (60) |
| Economi a Chymuned | (72) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 0 |
| Amgylchedd | (100) |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | (100) |
| Tai ac Eiddo | (100) |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (33) |
| Cyllid | (96) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (63) |

1.3 Cymeradwywyd yr argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn Atodiad 2) -

- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £746k i ddiddymu ei orwariant am y flwyddyn yn llwyr, o ystyried yr amgylchiadau

eithriadol yn ymwneud â'r argyfwng eleni. Bydd hyn yn galluogi'r adran symud ymlaen i wynebu her 2022/23.

- Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol, ni fydd yr adrannau canlynol yn cadw eu tanwariant uwchlaw (£100k):
    - Adran Amgylchedd (£91k)
    - Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (£9k)
    - Adran Tai ac Eiddo (£180k)

Ceisir penderfyniad y Cabinet i neilltuo'r cyfanswm o £280k i gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid ar gyfer cyllido'r heriau ariannol cysylltiedig fydd yn wynebu'r Cyngor.

- Ar gyllidebau Corfforaethol:
    - fod (£2,183k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf
    - gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol yn cael ei neilltuo fel a ganlyn:
    - (£395k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor
    - (£3,000k) i'r Gronfa Trawsffurfio i gyllido blaenoriaethau'r Cyngor a gwaith trawsffurfiol ei natur
    - (£1,377k) i'r Gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid ar gyfer cyllido'r heriau ariannol cysylltiedig fydd yn wynebu'r Cyngor.

1.4 Cymeradwywyd y trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel yr amlinellir yn Atodiad 4 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, gan gynaeafu (£851k) o gronfeydd gan ddefnyddio £746k ohono i gynorthwyo'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sydd wedi gorwario yn 2021/22 a throsglwyddo'r £105k sydd yn weddill i falansau cyffredinol y Cyngor.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn manylu ar wariant y Cyngor yn 2021/22. Eglurwyd fod talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau i'w gweld fel rhan o'r adroddiad ynghyd â'r symiau i'w cario ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Tynnwyd sylw at effaith ariannol Covid19 ar y Cyngor unwaith efo gyda £17.5miliwn wedi ei hawlio o'r gronfa caledi a Furlough erbyn diwedd y flwyddyn.

Amlygwyd y prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaeth sylweddol, yn benodol nifer o grantiau sylweddol ychwanegol yn hwyr yn y flwyddyn sydd wedi trawsnewid y sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn. Tynnwyd sylw at yr arian ychwanegol i Setliad Llywodraeth Leol o £2.5m, grant Pwysau Gofal Cymdeithasol o £1.9m, Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol o £1.5m ynghyd â Ôl Groniad Treth Cyngor o £0.9m i enwi dim ond rhai. Mynegwyd fod tanwariant i'w gweld ar draws yr holl adrannau oni bai am yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol sydd yn gorwario o £746mil. Eglurwyd mai'r maes Bwrdeistrefol sydd yn parhau i fod yn gorwario gyda problemau amlycaf i'w gweld yn maes casglu a gwaredu gwastraff.

Nodwyd fod gwelliant sylweddol wedi bod i sefyllfa'r Adran Oedolion yn dilyn derbyniad grantiau sylweddol ym misoedd olaf y flwyddyn, gan gynnwys grant o £1.9miliwn Pwysau Gofal Cymdeithasol ar Awdurdodau Lleol. Amlygwyd eto effaith covid ar yr

adran sydd werth dros £3.7miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Eglurwyd fod balansau'r ysgolion wedi cynyddu £6miliwn ar ddiwedd Mawrth 2021 i £16.7miliwn erbyn diwedd Mawrth 2022 yn sgil effaith Covid a derbyniad grantiau niferus amrywiol. Mynegwyd o ran cronfeydd y Cyngor fod adolygiad digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor wedi ei wneud wrth gau'r cyfrifol a fod £851mil o adnoddau wedi eu cynaeafu.

Ychwanegodd y Uwch Reolwr Cyllid fod y sefyllfa wedi ei thrawsnewid dros y misoedd olaf cyn cau cyfrifon o ganlyniad i swmp o grantiau yn cael eu derbyn yn hwyr yn y flwyddyn. Eglurwyd fod hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor baratoi at heriau 2022/23, a pwysleisiwyd fod hyn yn sefyllfa un tro yn unig.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Eglurwyd fod yr adroddiad hwn yn un technegol. Nodwyd fod setliad eleni wedi bod yn arbennig o dda, ond na fydd y ddwy flynedd nesaf cystal ac o ganlyniad fod cyfnod anodd y wynebu y Cyngor.
- Mynegwyd fod grantiau wedi helpu nifer o adrannau am eleni, ond holwyd i ba raddau rhaid poeni wrth edrych i'r dyfodol.

## 8. RHAGLEN GYFALAF 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2022) o'r rhaglen gyfalaf.

Nodwyd y gwariant o £37,054,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22, fydd yn cael ei ddefnyddio yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2021/22.

Cymeradwywyd ariannu'r addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £173,000 lleihad mewn defnydd o fenthyca
- £11,304,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £94,000 lleihad mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £426,000 lleihad mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- £1,003,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig a cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mynegwyd mai y prif gasgliadau yw fod y Cyngor wedi llwyddo i wario £37.1m yn 2021/22 ar gynlluniau cyfalaf, gyda 81% ohono wedi'i ariannu drwy grantiau penodol.

Eglurwyd fod effaith argyfwng Covid19 wedi parhau ar y rhaglen gyfalaf. Nodwyd yn ychwanegol i'r £31.2m adroddwyd arno yn adolygiadau blaenorol 2021/22, fod £26.8m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio i 2022/23 a tynnwyd sylw at prif gynlluniau a oedd yn cynnwys:

- £7.6 miliwn Cynlluniau Strategaeth Tai a Digartrefedd

- £7.2 miliwn Cynlluniau Atal Llifogydd a Traenio Tir
- £6.5 miliwn Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21 ac Eraill
- £4.0 miliwn Grantiau Newydd Llywodraeth Cymru yn y maes Tai (adnodd a ddisodlir yn llithro)
- £3.2 miliwn Grant Cyfalaf Cyffredinol Ychwanegol 21/22 (derbyniwyd yn chwarter olaf y flwyddyn gyda'r hawl i'w lithro i 22/23).

Tynnwyd sylw at grantiau ychwanegol a lwyddodd y Cyngor i'w denu ers yr adolygiad diwethaf, a oedd yn cynnwys:

- £3.2 miliwn - Grant Cyfalaf Cyffredinol Ychwanegol 21/22 – caniatâd llithro i 22/23.
- £3.1 miliwn – Grantiau o'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladu sy'n caniatáu disodli ariannu cyfredol i'w wario yn 22/23.
- £1.3 miliwn – Grant Cronfa Gofal Canolraddol – addasiadau sefydliadau oedolion a hwyluso gweithio ar y cyd ac asiantaethau eraill yn y maes gofal.
- £1.1 miliwn – Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim – caniatáu disodli ariannu cyfredol i'w wario yn 22/23 ar addasiadau i geginau ysgolion.

Ychwanegodd y Uwch Reolwr Cyllid fod effaith amlwg ar grantiau gyda nifer uchel o grantiau yn llithro, ac amlygwyd fod hyn yn rhoi effaith ar gronfeydd y Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Eglurwyd fod yr adroddiad hwn yn un technegol ac fod cynlluniau pendant ar gyfer y cynlluniau sydd wedi llithio. Mynegwyd y bydd Cynllun Asedau'r Cyngor yn cael ei gyflwyno yn fuan a fydd yn nodi faint o arian cyfalaf fydd ar gael i'w wario dros y blynyddoedd i ddod.
- Nodwyd anfodlonrwydd gyda grantiau yn dod yn hwyr yn flwyddyn, gan bwysleisio ei bod yn anodd cynllunio yn hir dymor ynghyd a sicrhau cyllideb gytbwys.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 1:30pm

**CADEIRYDD**

# Y CABINET DYDD MAWRTH, 28 MEHEFIN 2022

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L Siencyn, Nia Jeffreys, Craig ab Iago, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Menna Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 5: Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd)
Eitem 7 a 8: Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Alun Gwilym Williams (Uwch Reolwr Busnes).
Eitem 9: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Blant a Cefnogi Teuluoedd).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. CANLLAW CYNLLUN ATODOL: SAFLE TREFTADAETH Y BYD TIREDD LLECHI GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNIAD**

1. Cymeradwywyd y newidiadau sydd wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori

2. Mabwysiadwyd yn ffurfiol Canllaw Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru i'w ddefnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniad o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd.
3. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Cynorthwyol, Adran Amgylchedd wneud unrhyw addasiadau ansylweddol, y gall fod eu hangen i'r CCA drafft cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi yr angen i fabwysiadu'r Canllaw Cynllunio Atodol gan ei fod yn rhoi cig ar asgwrn polisïau cynllunio elfennol y Cyngor. Eglurwyd yr angen i'w fabwysiadu gan y Cabinet yn hytrach na Phwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn gan ei fod am ardaloedd penodol o fewn Gwynedd. Eglurwyd fod y ddogfen yn un hynod fanwl a fydd yn cael ei ddefnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd. Mynegwyd fod man gywiriadau angen eu gwneud i'r ddogfen a gofynnwyd i ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Cynorthwyol i wneud unrhyw addasiadau gramadegol sydd i'w gweld yn y ddogfen.

Ychwanegol y Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd fod y ddogfen yn cael ei chyflwyno i Barc Cenedlaethol Eryri y diwrnod canlynol i gael ei fabwysiadu ganddynt yn ogystal.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Tynnwyd sylw at sylwadau manwl iawn a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Ffestiniog a diolchwyd iddynt am gymryd eu hamser i gynnig sylwadau mor drylwyr.

## 6. STRWYTHUR UWCH REOLAETHOL Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i:

1. Ddirwyn i ben yr arbrawf o weithredu gydag un Cyfarwyddwr yn unig a symud ymlaen y drefn benodi arferol.
2. Diddymu swydd Pennaeth Ymgygnhoriaeth Gwynedd ar ymddeoliad y Pennaeth presennol a chyfuno'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd fel un adran newydd.
3. Trosglwyddo'r unedau Gwastraff ac Ailgylchu o'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol i'r Adran Amgylchedd a symud un swydd Pennaeth Cynorthwyol / Uwch Reolwr yn yr un modd.
4. Ail Danio rhaglen Cefnogi Pobl drwy leoli'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol yn rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth, am gyfnod o ddwy flynedd yn y lle cyntaf.
5. Cadarnhau ail leoli elfennau o'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnaf a'r

Gwasanaeth Ieuenctid o'r Adran Blant a Theuluoedd i'r Adran Addysg i'w weithredu gan y Prif Weithredwr.

6. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol addasu Cynllun Dirprwyo'r Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau wrth iddynt ddod yn weithredol.
7. Nodi y bydd y newidiadau uchod yn cyflawni arbediad refeniw blynyddol net o oddeutu £81,000 a fydd yn eistedd o fewn y Tîm Arweinyddiaeth am tro nes y bydd galw amdano.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cyngor bellach yn addasu yn ôl ar ôl cyfnod y pandemig ac ei bod yn amser da i ail edrych ac addasu trefniadau mewnol y Cyngor. Eglurwyd fod angen llenwi swyddi gwag o ran Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac i symud Ymgynghoriaeth Gwynedd i fewn i'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol. Nodwyd er mwyn i'r adran Briffyrdd allu ymdopi a'r pwysau ychwanegol y bydd yr adran Wastraff yn cael eu symud i'r Adran Amgylchedd.

Mynegwyd fod y addasiadau yma yn cael eu gwneud yn llefydd cywir ac yn sicrhau arbediad o £81,000 y flwyddyn i'r Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Dangoswyd cefnogaeth i gynlluniau'r Prif Weithredwr o ran addasu trefniadau mewnol y Cyngor gan amlygu fod rhestr hir o gynlluniau mae'r Cyngor eisiau ei cyflawni a y bydd yn gymorth i weithio tuag at weithredu'r cynlluniau.
- Mynegwyd ei bod yn gyfnod da i wneud newidiadau ac eu bod yn gwneud synnwyr. Nodwyd yr angen i wneud yr addasiadau yn llyfn er mwyn cael cyn lleied o effaith ar wasanaethau a sydd yn bosib ac i greu unedau cyn trosglwyddiad yn benodol yn y Gwasanaeth Gwastraff.
- Pwysleisiwyd yr angen i amlygu'r addasiadau i'r holl Gynghorwyr a'r cyhoedd fel eu bod yn ymwybodol gan fod dryswch yn aml am pa feysydd sydd yn yr Adran Amgylchedd ac yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol.
- Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol presennol am ei gwaith arbennig dros y blynyddoedd ac ei bod yn fodel rôl i ferched.
- Amlygwyd y cynlluniau cyffroes sydd i'w gweld yn rhestr blaenoriaethau'r Cyngor ac amlygwyd yr angen i weithio y draws adrannol i sicrhau fod yn y cynlluniau yn cael eu gweithredu.

**7. FFIOEDD PRESWYL A NYRSIO 2022-23**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i godi ffioedd safonol preswyl a nyrsio Gwynedd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23, yn unol a opsiwn isod a'u gweithredu yn unol ag amodau a thelerau'r Cyngor.

| | **£ yr wythnos** |
|---|---|
| Preswyl | £645 |
| Preswyl EMI | £780 |
| Nyrsio | £800* |
| Nyrsio EMI | £900* |

*ddim yn cynnwys cyfraniad y Bwrdd Iechyd at gostau nyrsio

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu fod angen codi ffioedd safonol preswyl a nyrsio Gwynedd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Nodwyd cywiriad i'r adroddiad gan nodi yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Mawrth eleni, bu i'r Cabinet gytuno ar ffioedd safonol ar gyfer cartrefi annibynnol preswyl a nyrsio ar gyfer 2022/23. Eglurwyd fod angen gosod y ffi cyn Ebrill er mwyn caniatáu ar gyfer gweithredu. Yn y Cabinet hwnnw gofynnwyd am adroddiad pellach er mwyn ystyried posibilrwydd o ffi uwch ar gyfer lefel saff, yn ogystal â chostau chwyddiant blynyddol. Nodwyd fod yr adroddiad hwn yn ffrwyth llafur y gwaith sydd wedi ei wneud gan yr adran i edrych ar y mater ymhellach.

Tynnwyd sylw at yr adroddiad Effaith Cydraddoldeb gan amlygu fod sicrhau'r ffioedd yn caniatáu i'r Cyngor fod yn hyfyw ac yn talu staff yn deg.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Busnes fod y Cabinet wedi gofyn i'r adran edrych ymhellach ar ffioedd ac fod dau opsiwn i'w weld yn yr adroddiad. Eglurwyd fod pwysau cynyddol i'w gweld yn benodol ar ofal preswyl nyrsio a dementia yn y sir ac fod angen mwy o sylw ar yr agweddau yma. Eglurwyd fod angen cynnydd uwch i'r pris yn y meysydd yma er mwy cryfhau'r ddarpariaeth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod prinder llefydd yn y maes nyrsio a dementia ar draws y sir ac fod angen talu mwy am hynny. Eglurwyd fod trafodaeth yn cael ei gynnal i gydweithio ar Bwrdd Iechyd a Cymdeithas Tai Clwyd Alyn i gynnal ystod o ofal yn y maes.
- Diolchwyd i staff gofal  yn breifat ac yn y Cyngor am eu gwaith yn ystod y cyfnod y pandemig a nodwyd yr angen i sicrhau cyflog byw i'n gofalwyr.
- Dangoswyd cefnogaeth i'r opsiwn b yn yr adroddiad er mwyn sicrhau fod y maes yn cael ei ariannu yn deg ac amlygwyd fod chwyddiant ar hyn o bryd yn ychwanegu at yr her.

**8. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi  mai hon oedd adroddiad cyntaf yr Aelod Cabinet yn y maes hwn, a mynegwyd ei fod yn adroddiad pwysig sydd yn feincnod o ble mae'r adran arni ac yn amlygu pa waith sydd angen ei wneud.

Eglurwyd nad oes cyfarfod herio perfformiad wedi ei gynnal eto ond fod nifer o'r materion wedi bod yn destun trafodaeth gyda'r adran dros yr wythnosau diwethaf. Amlygwyd fod yr ail ran yr adroddiad yn amlygu cynnydd sydd wedi ei wneud yn y cynlluniau sydd gan yr adran yng Nghynllun y Cyngor. Nodwyd fod llawer o waith wedi ei wneud ar y cynlluniau ac fod cyfeiriadau at ble mae angen ei wella. Mynegwyd fod y gwaith o ail ddylunio'r Gwasanaeth Gofal yn mynd rhagddi ac fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd o ran tendrau i ddatblygu gwasanaeth gofal newydd.

Pwysleisiwyd fod problem recriwtio a gweithlu i'w gweld yn amlwg drwy'r adroddiad a pwysleisiwyd nad yw'r broblem hon yn un unigryw ac ei bod yn cael ei gweld yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Nodwyd fod yr adran yn edrych ar ddatblygu ffyrdd arloesol  o ddenu gweithwyr i'r sector ac i ddeall y rhwystrau. Eglurwyd y bydd adroddiad pellach ar y mater yn dod o flaen y Cabinet maes o law.

O ran perfformiad yr adran, nodwyd yn dilyn trafodaeth a'r Pennaeth fod angen gwneud gwaith pellach i edrych yn benodol ar pwrpasau a mesuryddion gwasanaethau er mwyn blaenoriaethu'r gwaith er mwyn symud ymlaen. Diolchwyd i'r Cyng. Dafydd Meurig am y gefnogaeth ac ei waith fel yr Aelod Cabinet a oedd yn dal y portffolio ynghynt.

Bu i'r Pennaeth Adran ychwanegu o ran recriwtio fod rhaglen amrywiol o weithgareddau a sesiynau recriwtio wedi ei cynnal sydd wedi bod yn hynod llwyddiannus yn rhai ardaloedd a dim diddordeb mewn ardaloedd gwahanol. Eglurwyd y bydd adroddiad pellach ar gwaith yn cael ei rannu dros y misoedd nesaf. Nodwyd o ran cynlluniau Cynllun y Cyngor fod rhain yn raglenni gwaith penodol gyda nifer o ffrydiau gwaith i bob un ohonynt. Eglurwyd mai un o'r tasgau mwyaf sydd gan yr adran yw i newid y diwylliant ar draws y maes gofal nid yn unig yn fewnol ond yn allanol. Mynegwyd mai drwy newid y diwylliant bydd gwahaniaeth mwyaf i'w weld ar draws y gwasanaeth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd diffyg cynnydd yn y cynllun ar gyfer Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau sydd wedi bod ar y gweill dros bum mlynedd a mynegwyd y bydd yr arian sydd ar ei gyfer yn annigonol o bosib bellach.
- Eglurwyd yn ôl ym mis Awst 2021, fod yr adran yn rhagweld gorwariant o £1.4miliwn ond o ganlyniad i dderbyn £1.9miliwn o Grant Pwysau Gofal Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru bu i'r adran danwario o £68,000. Pwysleisiwyd fod y tanwariant yn gwbl ddibynnol ar grant un tro, ac amlygwyd fod arbedion yn mynd i fod yn gwbl heriol i'r adran yn wyneb y pwysau cynyddol sydd i'w weld.

**9. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Elin Walker Jones

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn ddiweddariad cynnydd ac yn feincnod ar gyfer dechrau ei thaith fel Aelod Cabinet. Diolchwyd i Cyng. Dilwyn Morgan am ei waith fel y deilydd portffolio blaenorol.

Mynegwyd fod adroddiad yn amlinellu beth sydd wedi digwydd yn yr adran ac amlygu nifer o gynlluniau cyffroes. Eglurwyd mai un o heriau mawr yr adran yr fod nifer o staff wedi eu dargyfeirio ar gyfer ymateb i argyfwng yn yr Wcrain. Nodwyd o ran prosiectau blaenoriaeth gyd y gwaith o gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn parhau.  Mynegwyd o ran y Cynllun Awtistiaeth fod cydlynydd wedi ei benodi dros dro a hyfforddiant i staff wedi ei gynnal.

Amlygwyd fod capasiti staff a recriwtio yn her fawr i'r adran ond er hyn ei bod yn hapus gyda'r perfformiad. Eglurwyd fod nifer y ceisiadau am gymorth gan yr adran yn parhau i godi. Nodwyd fod yr adran wedi tan wario £97,000 y flwyddyn ariannol diwethaf o ganlyniad i'r adran yn denu grantiau.

Ychwanegodd y Pennaeth Adran fod cynlluniau yn symud yn eu blaenau ond fod nifer uchel o staff Cefnogi Teuluoedd wedi cael ei dargyfeirio i weithio i gynorthwyo teuluoedd sydd yn cyrraedd o'r Wcrain.  Amlygwyd fod y Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i gilydd yn parhau i fod yn llwyddiannus gyda nifer uchel o blant yn parhau gyda'i teuluoedd. Nodwyd fod cynnydd yn y galw ynghyd â problem recriwtio a cadw staff, a nodwyd fod niferoedd sydd wedi gofyn yn Ebrill a Mai wedi bod yn uwch nac erioed. Er hyn mae goleuni ar y gorwel gyda'r adran yn llwyddo i benodi 7 gweithiwr cymdeithasol yn syth ar ôl graddio o'r cwrs Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor a Glyndŵr.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd fod y ddwy adran gofal wedi derbyn arian grant munud olaf gan y Llywodraeth a gofynnwyd i Gymdeithasol Llywodraeth Leol i bwyso ar  Lywodraeth Cymru i roi'r arian yn y setliad blynyddol fel bod modd i'r adrannau gynllunio ymlaen llaw.
- Nodwyd er fod yr adran wedi tanwario y llynedd, fod y Cabinet dros y ddwy flynedd diwethaf wedi dileu targedau arbedion o £1.1miliwn a £300,000 o fewn yr adran. Er hyn mynegwyd ei bod yn galonogol iawn fod yr adran wedi llwyddo i recriwtio er mwyn ymateb i'r cynnydd cyson yn y galw.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 2pm

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **19 Gorffennaf 2022** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Beca Brown** |
| **SWYDDOG** | **Gwern ap Rhisiart / Rhys Glyn** |
| **TEITL YR EITEM** | **Prosiectau Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir am gefnogaeth y Cabinet i symud ymlaen i gyflwyno achosion busnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r cyllid o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyflawni dibenion y prosiectau isod:

a) **Prosiect 1** – Buddsoddi dros £1.1m i gynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith Gwynedd - Yr ail wedd.
b) **Prosiect 2 –** Buddsoddi dros £1.5m cyfalaf a £0.3m refeniw i gynyddu capasiti 3 ysgol (Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog) er mwyn cefnogi cymunedau Cymraeg o arwyddocâd ieithyddol (h.y. cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg) i ffynnu.

1.2 Gofynnir am ganiatâd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan adrodd yn ôl i Gabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

## 2. CEFNDIR Y CAIS

Yn 2021 bu i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig yn gwahodd Awdurdodau Lleol i ymgeisio am gyllid o gynllun Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg. Prif nod Llywodraeth Cymru ar gyfer y grant oedd i gefnogi buddsoddiadau fyddai'n hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg gan anelu'n benodol at brosiectau a fyddai'n cyfrannu'n amlwg at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn sgil derbyn y gwahoddiad i ymgeisio, cyflwynodd yr Adran Addysg gais i gyllido 2 brosiect.

Ar 21 Chwefror 2022, derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru eu bod wedi cymeradwyo mewn egwyddor i ariannu 100% o'r cyllid cyfalaf a refeniw tuag at y 2 brosiect a gyflwynwyd yn y cais.

Golyga hyn £1,151,000 o arian cyfalaf tuag at ddatblygu'r Canolfannau Iaith a £1,533,500 o arian cyfalaf tuag at gynyddu capasiti 3 ysgol gynradd.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cymeradwyo mewn egwyddor grant refeniw o £341,874 tuag at gyflogi athro llawn amser ym mhob un o'r 3 ysgol gynradd am gyfnod o 2 flynedd. Yn dilyn y 2 flynedd, rhagwelir y bydd cynnydd yn niferoedd y dysgwyr yn yr ysgolion yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn eu cyllidebau i allu parhau i gyllido swyddi'r athrawon hyn ar sail barhaol wedi'r 2 flynedd gychwynnol.

Mae’r cyllidebau ar gyfer y 2 brosiect wedi ei nodi yn y tabl isod:

| Prosiect | Swm |
|---|---|
| **Prosiect 1:** Cynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith. | Cyfalaf: £1,151,000 |
| **Prosiect 2:** Cynyddu capasiti ysgolion er mwyn cefnogi cymunedau Cymraeg o arwyddocâd ieithyddol (h.y. cymunedau dros 70%) i ffynnu | Cyfalaf: £1,533,500<br>Refeniw: £341,874<br>**Cyfanswm: £1,875,374** |
| **Cyfanswm** | **£3,026,374** |

## 3. CEFNDIR PROSIECT 1: Buddsoddi dros £1.1 miliwn i gynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith Gwynedd- yr ail wedd.

Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd tuag at 2032 a thu hwnt. Fel rhan o’r weledigaeth yma, ac yn sgil derbyn £1.1m o’r wedd gyntaf o arian Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru, rydym yn y broses o sefydlu dau safle addysg drochi cwbl newydd yng Ngwynedd, wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o’r sir, ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, sef Tywyn a Bangor. Rydym hefyd yn y broses o wella’r adnoddau yn safle addysg drochi Porthmadog, sydd eto wedi ei leoli’n strategol ynghanol y sir. Bydd y dair safle yma yn darparu addysg drochi i ddysgwyr blynyddoedd 5-9 mewn amgylchedd dysgu o’r radd flaenaf.

Yn ogystal, mae gennym hefyd dri safle cynradd sy’n darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4. Nid yw’r safleoedd trochi hyn wedi derbyn unrhyw fuddsoddiad cyfalaf fel rhan o’r wedd gyntaf o arian Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru.

Gwelwyd cyfle felly i gyflwyno cais am ail wedd o’r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru er mwyn cysoni capasiti a gwella’r amgylchedd dysgu yn y tri safle addysg drochi na dderbyniodd fuddsoddiad yn y wedd gyntaf.

Drwy gyfrwng y cais hwn, mae’r Adran Addysg yn awyddus i ymgorffori gofynion Cwricwlwm i Gymru, a chynnig profiadau trawsgwricwlaidd i'r holl ddysgwyr. Bwriedir hefyd sicrhau lleoliad strategol i bob un o’r safleoedd addysg drochi fydd yn gyfrwng i ymestyn profiadau a chynyddu’r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio’u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth drwy fod wedi eu lleoli o fewn cyrraedd hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw’n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, bydd cyfle i ehangu profiadau’r dysgwyr wrth iddynt elwa o brofiadau sydd yn dod â’r Gymraeg yn fyw iddynt. At hyn, drwy gyfrwng y buddsoddiad cyfalaf o’r wedd gyntaf a’r ail wedd, bydd pob un o safleoedd y Gyfundrefn Addysg Drochi yn addas ar gyfer darparu gofynion Cwricwlwm i Gymru a chynnig profiadau trawsgwricwlaidd ar gyfer yr holl ddysgwyr. Ers ei sefydlu yn y 1980au, mae’r ddarpariaeth drochi yng Ngwynedd wedi arloesi yn y maes, a bydd y Gyfundrefn ar ei newydd wedd yn sgil y cyfoesi’r ddarpariaeth, gofynion Cwricwlwm i Gymru, yr holl fuddsoddiad cyfalaf a’r cyfleusterau gorau un yn parhau i arloesi nawr ac i'r dyfodol.

**Canolfan Iaith Maesincla**
Mae Canolfan Iaith Maesincla wedi ei lleoli o fewn adeilad Ysgol Maesincla yng Nghaernarfon. Mae'r gofod sydd gan Ganolfan Iaith Maesincla yn gyfyngedig (sef dau ddosbarth o wahanol faint, gydag un yn fychan iawn) gan amharu ar ansawdd y profiad i'r dysgwyr. Nid yw gofod y Ganolfan Iaith ychwaith yn hwylus ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru a phrofiadau trawsgwricwlaidd cyfoethog i'r dysgwyr.

Wrth ystyried y bydd Canolfan Iaith Maesincla yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yn bennaf, y mae angen ystyried gofynion y Cyfnod Sylfaen a chynllunio gofod pwrpasol ar gyfer ardaloedd chwarae, ac ardaloedd tawel yn ogystal. Nid oes gofod addas ychwaith ar gyfer cyfarfod rhieni neu asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Drwy gyfrwng Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, felly, bwriedir ymestyn ac addasu gofod presennol Canolfan Iaith Maesincla er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau gofod pwrpasol ar gyfer gofynion Cwricwlwm i Gymru fyddai'n cynnwys ardaloedd chwarae tu mewn a thu allan, ynghyd â gofod addas ar gyfer ymwelwyr.

**Canolfan Iaith Dolgellau**
Mae Canolfan Iaith Dolgellau ar hyn o bryd wedi ei lleoli mewn adeilad rhwng safle cynradd Ysgol Bro Idris, Dolgellau, a swyddfeydd y Cyngor ym Mhenarlâg, Dolgellau. Gofod ar gyfer un dosbarth yn unig sydd gan Ganolfan Iaith Dolgellau ar hyn o bryd a hynny ar gyfer cyfanswm o rhwng 8-12 o ddysgwyr, ac mae'r Ganolfan yn rhannu cyfleusterau amser chwarae ac amser cinio gyda safle cynradd Ysgol Bro Idris. Ar sail y galw sydd am addysg drochi yn yr ardal, mae galw i gynyddu capasiti Canolfan Iaith Dolgellau ac i gysoni'r niferoedd o ddysgwyr a dderbynnir i bob safle ar draws y Gyfundrefn Addysg Drochi. Nid yw'r gofod sydd yn y Ganolfan Iaith ychwaith yn hwylus ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru a phrofiadau trawsgwricwlaidd cyfoethog i'r dysgwyr.

Wrth ystyried y bydd Canolfan Iaith Dolgellau yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yn bennaf, y mae angen ystyried gofynion y Cyfnod Sylfaen a chynllunio gofod pwrpasol ar gyfer ardaloedd chwarae, ac ardaloedd tawel yn ogystal. Nid oes gofod addas ychwaith ar gyfer cyfarfod rhieni neu asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Drwy gyfrwng Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg felly, bwriedir ad-leoli safle presennol Canolfan Iaith Dolgellau i safle amgen yn Ysgol Bro Idris, Dolgellau er mwyn cynyddu capasiti'r Ganolfan a gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau gofod pwrpasol ar gyfer gofynion Cwricwlwm i Gymru fyddai'n cynnwys ardaloedd chwarae tu mewn a thu allan, ynghyd â gofod addas ar gyfer ymwelwyr.

**Canolfan Iaith Llangybi**
Mae Canolfan Iaith Llangybi ar hyn o bryd wedi ei lleoli fel rhan o adeilad Ysgol Llangybi. Nid yw'r Ganolfan Iaith yn Llangybi wedi ei lleoli mewn lleoliad strategol yn y sir, ac mae lleoliad presennol y Ganolfan yn cyfyngu ar y profiadau sydd ar gael i'r dysgwyr er mwyn cyfoethogi eu profiadau dysgu. Nid yw'r gofod sydd yn y Ganolfan Iaith yn hwylus ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru a phrofiadau trawsgwricwlaidd cyfoethog i'r dysgwyr. Wrth ystyried y bydd Canolfan Iaith Llangybi yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yn bennaf, y mae angen ystyried gofynion y Cyfnod Sylfaen a chynllunio gofod pwrpasol ar gyfer ardaloedd chwarae, ac ardaloedd tawel yn ogystal. Nid oes gofod addas ychwaith ar gyfer cyfarfod rhieni neu asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Drwy gyfrwng Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, felly, bwriedir ad-leoli safle presennol Canolfan Iaith Llangybi i leoliad strategol ar safle Ysgol Cymerau ym Mhwllheli. Bydd hyn yn gyfrwng i wella'r amgylchedd dysgu a sicrhau gofod pwrpasol ar gyfer gofynion Cwricwlwm i Gymru fyddai'n cynnwys ardaloedd chwarae tu mewn a thu allan, ynghyd â gofod addas ar gyfer ymwelwyr. Drwy ad-leoli i Bwllheli, bydd hefyd yn sicrhau cysondeb yn y profiadau y gellir eu darparu i'r dysgwyr ar draws yr holl

gyfundrefn, gan y bydd lleoli pob un o'r safleoedd addysg drochi mewn lleoliadau strategol yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, gan felly ddod â'r Gymraeg yn fyw i'r dysgwyr. Yn anochel bydd ail leoli'r Ganolfan Iaith ym Mhwllheli yn cael effaith ar Ysgol Llangybi o safbwynt niferoedd staff ac oedolion ar y safle. Mae'r Cyngor yn cydnabod y berthynas arbennig sydd wedi bod rhwng yr ysgol a'r Ganolfan Iaith dros y blynyddoedd ac yn ddiolchgar i'r ysgol am letya'r Ganolfan. Yn dilyn yr adleoliad bydd defnydd o ofod y Ganolfan ar gael at bwrpas yr ysgol.

Byddai'r buddsoddiad yma'n arwain at wella'r profiadau, yr adnoddau a'r amgylchedd dysgu ar gyfer trochi dwys ar gyfer dysgwyr blynyddoedd 2-4 yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, ynghyd â galluogi'r Awdurdod i ddarparu addysg drochi i fwy o ddysgwyr yn unol â'r galw cynyddol sydd ar y gwasanaeth.

Ar hyn o bryd cyfyngir ar nifer y capasiti dysgwyr yn y lleoliadau addysg drochi i 72 dysgwr bob tymor, fodd bynnag, golyga'r buddsoddiad cyfalaf *gwedd 1* ynghyd â'r buddsoddiad cyfalaf *gwedd 2;* y bydd nifer y dysgwyr a fyddai'n gallu cael eu trochi yn y Canolfannau Iaith yn cynyddu i oddeutu 96 o ddysgwyr bob tymor.

Bydd sicrhau buddsoddiad cyfalaf pellach yn ein cyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd felly yn fodd o sicrhau twf yn nifer y dysgwyr sydd yn elwa o addysg Gymraeg a dwyieithog yn y sir, ynghyd â sicrhau cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, gan gyfrannu at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

### 3.1 YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Er bod cyllid y prosiect wedi ei gymeradwyo mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, bydd angen cyflwyno achos busnes llawn ger eu bron er mwyn sicrhau'r cyllid cyfalaf o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer buddsoddi £1.1 miliwn yn ein Canolfannau Iaith ar gyfer dysgwyr blynyddoedd 2-4.

### 3.2 ASESIADAU EFFAITH Y NEWID

#### 3.2.1 Asesiad cydraddoldeb

Cwblhawyd asesiad cydraddoldeb ar ein cynlluniau i fuddsoddi £1.1 miliwn o arian cyfalaf *gwedd 2* Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y dair Canolfan Iaith oedran cynradd (blynyddoedd 2-4) sydd wedi eu lleoli ar hyn o bryd yng Nghaernarfon, Llangybi a Dolgellau. Fel rhan o'r cynnig bu i ni hefyd ystyried effaith ad-leoli a chysoni capasiti Canolfan Iaith Dolgellau i dderbyn 16 o ddysgwyr fel gweddill ein Canolfannau Iaith, a bu i ni ystyried effaith ad-leoli Canolfan Iaith Llangybi i Ysgol Cymerau, Pwllheli. Gweler yr asesiad yn llawn yn **Atodiad A.**

Deuir I'r casgliad na fyddai buddsoddi £1.1 miliwn o'r arian grant cyfalaf gan L Lywodraeth Cymru yn ychwanegol i'r buddsoddiad sydd eisoes wedi bod yn ein Cyfundrefn Drochi, er mwyn cysoni capasiti ac ad-leoli Canolfan Iaith Dolgellau a Llangybi yn effeithio'n negyddol ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd gyffredinol.

#### 3.2.2 Asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg

Cwblhawyd asesiad effaith y byddai'r cynnig i gynyddu capasiti a gwella'r amgylchedd dysgu yn ein Canolfannau Iaith Cynradd yng Ngwynedd yn ei gael ar yr Iaith Gymraeg yn benodol. Gweler yr asesiad llawn yn **Atodiad A.**

Nodir yn yr asesiad y byddai buddsoddi £1.1 miliwn o arian grant cyfalaf *gwedd 2* Llywodraeth Cymru yn ychwanegol yn ein Cyfundrefn Addysg Drochi yn fodd o sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, cynyddu capasiti'r Canolfannau, ynghyd â sicrhau lleoliadau strategol i bob un o'r

safleoedd addysg drochi, yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y dysgwyr rheiny sydd yn newydd-ddyfodiaid i Wynedd.

**3.2.3 Asesiad effaith economaidd-gymdeithasol**

Cwblhawyd asesiad effaith economaidd-gymdeithasol ar y cynnig i fuddsoddi £1.1 miliwn o arian cyfalaf, cynyddu capasiti ac ad-leoli Canolfan Iaith Dolgellau a Llangybi ynghyd â gwella'r amgylchedd dysgu yng Nghanolfan Iaith Maesincla. Gweler yr asesiad llawn yn **Atodiad A1**.

Deuir i'r casgliad y byddai'r hyn sy'n cael ei gynnig yn cael effaith economaidd-gymdeithasol bositif yn gyffredinol, oherwydd drwy gyfrwng y buddsoddiad o Gwedd 1 a 2 o arian cyfalaf Llywodraeth Cymru bydd pob canolfan wedi eu lleoli'n strategol ar draws y sir, a drwy agor dwy Ganolfan iaith newydd mewn rhannau allweddol o'r sir a chynyddu capasiti ar yr un pryd, bydd cyfle i ddysgwyr elwa o ddarpariaeth trochi sydd yn fwy lleol iddynt.

**3.2.4 Asesiad Llesiant**

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant ymysg disgyblion ysgolion y sir drwy ei weithgareddau a phrosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r dyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn 'Cynllun Gwynedd 2018-23'.

Cwblhawyd asesiad llesiant ar y cynnig i fuddsoddi £1.1 miliwn o arian *Gwedd 2* Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru yn ychwanegol yn ein Cyfundrefn Addysg Drochi, cynyddu capasiti ac ad-leoli Canolfan Iaith Dolgellau a Llangybi. Gweler yr asesiad llawn yn **Atodiad A2.**

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor, deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Bydd y cynnig os yn cael ei basio yn sicrhau fod dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid ac yn cael eu cyfeirio at ddarpariaeth yn un o'r tair Canolfan Iaith Gynradd dan sylw yn cael eu haddysgu mewn canolfannau a fyddai wedi derbyn yr un lefel o fuddsoddiad a gweddill y Canolfannau, ac mewn sefyllfa i allu cynnig profiadau dysgu cyson mewn amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf ar draws y Gyfundrefn. Mae'r asesiad yn manylu ar gryfder y cynnig sy'n amlygu y bydd mwy o ddysgwyr bob tymor yn Nolgellau ac ar draws y gyfundrefn o'r herwydd yn cael y cyfle i fyw a ffynnu mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill gan roi cyfle teg iddynt ddatblygu yn siaradwyr hyderus a chyfartal ymysg eu cyfoedion.

**4. CEFNDIR PROSIECT 2: Cynyddu capasiti ysgolion er mwyn cefnogi cymunedau Cymraeg o arwyddocâd ieithyddol (h.y. cymunedau dros 70%) i ffynnu**

Yn ystod Tymor yr Haf 2021 bu i gyrff llywodraethol 3 ysgol a'u haelodau lleol gysylltu efo'r Adran Addysg yn pryderu am ddiffyg capasiti'r ysgolion hynny i gyfarch y cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai o fewn eu dalgylchoedd naturiol, sef Ysgol Llanllechid, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Chwilog.

Gwelwyd cyfle i gyflwyno cais am Grant Cyfalaf y Gymraeg, Llywodraeth Cymru i geisio ymateb i sefyllfaoedd yr ysgolion hyn, gan becynnu'r cais o amgylch cymunedau o arwyddocâd ieithyddol (cymunedau dros 70% o siaradwyr Cymraeg).

Drwy gyfrwng y cais hwn, mae'r Adran Addysg yn awyddus i gefnogi datblygiadau economaidd, tai a mentrau cymdeithasol mewn rhai cymunedau o arwyddocâd ieithyddol yn y sir, drwy gynyddu capasiti'r ysgolion mewn ymateb i'r twf yn y boblogaeth yn sgil y datblygiadau hyn. O blethu'r holl

elfennau adfywio cymunedol hyn yn gelfydd ynghyd, gall greu seilwaith gadarn ar gyfer y cymunedau hyn, gan greu'r amodau gorau un i'r iaith Gymraeg a ffyniant y cymunedau.

Mae cyfle hefyd i gyfuno cyllid Grant Cyfalaf y Gymraeg gyda'r cyllid sydd ar gael i'r Adran Addysg drwy'r cytundebau Adran 106, sef cytundeb cyfreithiol rhwng y datblygwyr a'r awdurdod cynllunio lleol, sydd yn gysylltiedig â'r datblygiadau tai yn yr ardaloedd dan sylw. Mae'r cytundebau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr fodloni rhwymedigaethau cynllunio penodol, megis cyfraniad tuag at y ddarpariaeth addysg leol wrth wireddu'r datblygiad dan sylw.

### 4.1 Ysgol Llanllechid

#### 4.1.1 Datblygiadau tai newydd

Mae cwmni *Adra* wedi datblygu stad o 18 ty newydd yn nalgylch Ysgol Llanllechid yn ddiweddar, gydag nifer o ddysgwyr ychwanegol wedi dod i fyw yn nalgylch yr ysgol yn sgil y datblygiad yma a bellach yn yr ysgol. Mae *Adra* hefyd wedi cael caniatâd cynllunio i ddatblygu 30 o dai fforddiadwy rhent cymdeithasol mewn safle arall sydd eto wedi'i leoli o fewn dalgylch Ysgol Llanllechid, a bydd y datblygiad hwn eto yn arwain at ddysgwyr ychwanegol yn dod i fyw yn nalgylch yr ysgol. Ar sail fformiwla rhagamcanu plant mewn tai newydd rhagwelir y bydd 30 tŷ yn golygu oddeutu 12 o blant ychwanegol angen lle yn Ysgol Llanllechid.

#### 4.1.2 Cynnydd yn niferoedd disgyblion

Mae 243 o ddisgyblion (derbyn – blwyddyn 6) + 27 meithrin yn mynychu Ysgol Llanllechid (Cyfrifiad Medi 2021), sydd yn golygu ei bod dros ei chapasiti o 213 + meithrin. Ar sail rhagamcanion niferoedd, rhagwelir y bydd niferoedd dysgwyr yn parhau i fod yn uchel dros y 5 mlynedd nesaf.

Golyga hyn y bydd hi'n anodd iawn i'r ysgol ymdopi gyda'r niferoedd heb greu dosbarth ychwanegol ar eu cyfer.

#### 4.1.3 Cyllid

Yn ogystal I gyfran o'r £1,533,500 Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg, fydd ar gael tuag at ddatblygu dosbarth ychwanegol yn Ysgol Llanllechid, mae'r symiau isod hefyd wedi eu clustnodi ar gyfer datblygu'r ysgol.

Mae cyllideb Adran 106 o £121,152 wedi ei ymrwymo at ddefnydd yr Adran Addysg o ganlyniad i'r datblygiadau tai yn nalgylch Ysgol Llanllechid.

Mae Ysgol Llanllechid hefyd wedi ei chynnwys fel rhan o brosiect Cyflwr ac Addasrwydd Band B Ysgolion 21 Ganrif. Er nid yw'r addasiadau a wneir i'r adeilad a'i gyflwr drwy gyfrwng Band B yn fodd uniongyrchol o ymateb i'r cynnydd yn nifer y dysgwyr, gan fod y prosiect hwnnw yn diwallu anghenion cynnal a chadw'r adeilad, diogelu'r fynedfa a chyfnewid ystafell i greu gofod CPA addas, mi fydd yn gwella amgylchedd yr ysgol.

Byddai cyfuno'r cyllidebau hyn yn fodd o sicrhau y byddai Ysgol Llanllechid yn meddu ar adeilad addas i bwrpas gyda gofod digonol ar gyfer gwasanaethu plant y dalgylch a'i chymuned yn briodol i'r dyfodol.

Mae swm refeniw o £113,958 hefyd ar gael o Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg tuag at gyflogi athro ychwanegol am 2 flynedd yn Ysgol Llanllechid.

### 4.2 Ysgol Bro Lleu

#### 4.2.1 Datblygiadau tai newydd

Mae dwy stad o 12 a 24 o dai newydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd yn nalgylch Ysgol Bro Lleu. Ar sail fformiwla rhagamcanu plant mewn tai newydd, rhagwelir y bydd 36 tŷ yn golygu oddeutu 15 o blant oed cynradd.

**4.2.2 Cynnydd yn niferoedd disgyblion**

Mae 178 o ddisgyblion (derbyn – blwyddyn 6) + 21 meithrin yn mynychu Ysgol Bro Lleu (Cyfrifiad Medi 2021), sydd yn golygu ei bod dros ei chapasiti o 159 + meithrin. Ar sail rhagamcanion niferoedd, rhagwelir y bydd niferoedd dysgwyr yr ysgol yn cynyddu ymhellach dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae'r cynnydd tebygol yn niferoedd dysgwyr yn golygu y bydd hi'n anodd iawn i'r ysgol ymdopi gyda'r niferoedd heb greu dosbarth ychwanegol ar eu cyfer.

**4.2.3 Cyllid**

Yn ogystal I gyfran o'r £1,533,500 Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg, fydd ar gael tuag at ddatblygu dosbarth ychwanegol yn Ysgol Bro Lleu, mae'r symiau isod hefyd wedi eu clustnodi ar gyfer datblygu'r ysgol.

Mae cyllid Adran 106 o £64,000 wedi ei ymrwymo at ddefnydd yr Adran Addysg o ganlyniad i'r datblygiadau tai.

Byddai cyfuno'r cyllid yma yn fodd o sicrhau y byddai Ysgol Bro Lleu â gofod digonol ar gyfer gwasanaethu plant y dalgylch a'i chymuned yn briodol i'r dyfodol.

Mae swm refeniw o £113,958 hefyd ar gael o Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg tuag at gyflogi athro ychwanegol am 2 flynedd yn Ysgol Bro Lleu.

**4.3 Ysgol Chwilog**

**4.3.1 Datblygiadau tai newydd**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Chwilog wedi gweld dyfodiad stad o dai newydd marchnad agored yn y pentref sydd bellach wedi cartrefu nifer helaeth o deuluoedd ifanc Cymraeg eu hiaith, ac mae caniatâd cynllunio hefyd ar gyfer dwy stâd arall o dai yn y pentref, all arwain at gyfanswm o hyd at 39 o dai ychwanegol yn Chwilog dros y blynyddoedd nesaf. Ar sail fformiwla rhagamcanu plant mewn tai newydd rhagwelir y bydd 39 tŷ yn golygu oddeutu 16 o blant oed cynradd.

**4.3.2 Cynnydd yn niferoedd disgyblion**

Mae niferoedd dysgwyr Ysgol Chwilog wedi cynyddu bob blwyddyn ers 5 mlynedd, ac mae rhagamcanion yn awgrymu y bydd wedi cyrraedd ei chapasiti llawn o 65 o ddysgwyr yn Medi 2022 gyda 70 o ddisgyblion (derbyn – blwyddyn 6) + 15 meithrin. Rhagwelir y bydd cynnydd yn niferoedd y dysgwyr yn parhau dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae'r cynnydd tebygol yn niferoedd dysgwyr yn golygu y bydd hi'n anodd, os nad amhosib, i'r ysgol ymdopi gyda'r niferoedd heb greu dosbarth ychwanegol brys ar eu cyfer.

**4.3.3 Cyllid**

Yn ogystal I gyfran o'r £1,533,500 Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg, fydd ar gael tuag at ddatblygu dosbarth ychwanegol yn Ysgol Chwilog, mae'r symiau isod hefyd wedi eu clustnodi ar gyfer datblygu'r ysgol.

Mae cyllid Adran 106 o £6,240 wedi ei ymrwymo i ddefnydd yr Adran Addysg o ganlyniad i'r datblygiadau tai.

Byddai cyfuno'r cyllid yma yn fodd o sicrhau y byddai Ysgol Chwilog â gofod digonol ar gyfer gwasanaethu plant ei dalgylch a'i chymuned yn briodol i'r dyfodol.

Mae swm refeniw o £113,958 ar gael o Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg tuag at gyflogi athro ychwanegol am 2 flynedd yn Ysgol Chwilog.

**4.4 YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

**4.4.1 Proses statudol**

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid cynnal proses statudol os yn '*ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar*

*gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig.'*

Bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu'r capasiti i 95, sydd yn gynnydd o dros 25% o'r 65 presennol, sef capasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol yn yr achos yma. Golyga hyn y bydd angen cynnal proses statudol cyn gallu gwneud unrhyw addasiadau fydd yn arwain at gynyddu capasiti'r ysgol. Cam cyntaf y broses statudol fydd cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.

**4.4.2 Achos Busnes Llywodraeth Cymru**

Er bod y prosiect wedi ei gymeradwyo mewn egwyddor, bydd angen cyflwyno achos busnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r cyllid o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Mi fydd defnyddio unrhyw gyllid dderbynnir ar gyfer addasu Ysgol Chwilog yn ddarostyngedig i ganlyniad y proses statudol.

**4.5 ASESIADAU EFFAITH Y NEWID**

**4.5.1 Asesiad cydraddoldeb**

Cwblhawyd asesiad cydraddoldeb ar gynyddu capasiti Ysgolion Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog. Gweler yr asesiad llawn yn **Atodiad B1**. Deuir i gasgliad na fyddai cynyddu capasiti y 3 ysgol yn effeithio ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd gyffredinol.

**4.5.2 Asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg**

Cwblhawyd asesiad effaith y byddai cynyddu capasiti Ysgolion Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog yn ei gael ar yr Iaith Gymraeg. Gweler yr asesiad llawn yn **Atodiad B1**. Deuir i gasgliad na fyddai cynyddu capasiti'r ysgolion hyn yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn y dalgylchoedd. Yn wir, rhagwelir bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau fydd yn cefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r cymunedau dan sylw.

**4.5.3 Asesiad effaith economaidd-gymdeithasol**

Cwblhawyd asesiad effaith y byddai cynyddu capasiti Ysgolion Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog yn ei gael ar elfennau economaidd-gymdeithasol. Gweler yr asesiad llawn yn **Atodiad B1**. Deuir i'r casgliad na fyddai cynyddu capasiti yr ysgolion hyn yn cael effaith economaidd-gymdeithasol negyddol ar yr ardaloedd unigol. Rhagwelir bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn creu seilwaith gadarn ar gyfer y cymunedau gan greu'r amodau gorau ar gyfer ffyniant y cymunedau dan sylw.

**4.5.4 Asesiad Llesiant**

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant ymysg disgyblion ysgolion y sir drwy ei weithgareddau a phrosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r dyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn 'Cynllun Gwynedd 2018-23'.

Cwblhawyd asesiad llesiant ar gynyddu capasiti Ysgolion Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog. Gweler yr asesiad llawn yn **Atodiad B2**. Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yn y tair dalgylch yn cael eu haddysgu mewn ysgolion addas eu maint ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

Mi fydda addasu yr ysgolion er mwyn sicrhau digon o le i holl blant cynradd yn eu dalgylchoedd yn golygu y bydda'r disgyblion yn gallu cael mynediad i addysg yn eu cymunedau.

Rhagwelir bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau fydd yn cefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r cymunedau.

**4.5.5 Asesiad effaith ar y gymuned**

Cwblhawyd asesiad effaith ar y gymuned o ganlyniad i gynyddu capasiti Ysgolion Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog. Gweler yr asesiad llawn yn **Atodiad B3**. Yn dilyn ystyried effaith y cynnig ar y dair cymuned ni ragwelir y bydd cynyddu capasiti yr ysgolion drwy ychwanegu dosbarth yn cael unrhyw effaith negyddol ar y cymunedau.

I'r gwrthwyneb, bydd cynyddu'r capasiti yn yr ysgolion yn sicrhau digon o lefydd ar gyfer holl blant y dalgylch ac felly'n sicrhau addysg iddynt yn eu cymunedau. Rhagwelir y bydd cynyddu y capasiti yn yr ysgolion yn creu seilwaith gadarn ar gyfer y cymunedau a chreu'r amodau gorau i'r iaith Gymraeg a ffyniant y cymunedau.

**4.5.6 Asesiad ar ansawdd a safonau addysg**

Cwblhawyd asesiad effaith ar ansawdd a safonau addysg o ganlyniad i gynyddu capasiti Ysgolion Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog. Gweler yr asesiad llawn yn **Atodiad B3**. Yn dilyn cynnal yr asesiad, rydym o'r farn y byddai cynyddu capasiti yr ysgolion drwy ychwanegu dosbarth yn debygol o fod yn cael effaith gadarnhaol gan y bydd yn sicrhau bod digon o le ar gyfer addysgu plant mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir i'r dyfodol.

**4.5.7 Asesiad effaith ar drefniadau teithio**

Cynhaliwyd asesiad effaith cynyddu capasiti Ysgolion Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog ar drefniadau teithio. Gweler yr asesiad llawn yn **Atodiad B3**.

Gan ein bod yn edrych ar gynyddu capasiti y dair ysgol er mwyn ymateb i ragamcanion cynnydd o fewn eu dalgylchoedd, ac yn rhagweld y bydd cartrefi mwyafrif y plant o fewn dwy filltir i'r ysgol, gan ystyried y niferoedd presennol sy'n derbyn cludiant am ddim, ni ragwelir y bydd unrhyw effaith arwyddocaol ar drefniadau teithio o ganlyniad i gynyddu capasiti yr ysgolion dan sylw.

**5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, bydd cyfnod o ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori o 42 diwrnod, byddwn yn paratoi adroddiad yn nodi unrhyw sylwadau a dderbynnir ac ymatebion iddynt, gan adrodd yn ôl i'r Cabinet.

Byddwn hefyd yn paratoi achosion busnes i'w cyflwyno I'r paneli asesu ceisiadau Llywodraeth Cymru am arian cyfalaf a refeniw Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau eu cyfraniad cyllidol i'r 2 brosiect.

Mi fydd defnyddio unrhyw gyllid dderbynnir ar gyfer addasu Ysgol Chwilog yn ddarostyngedig i ganlyniad y proses statudol.

Mae'r tabl isod yn nodi'r camau nesaf ynghyd â'r amserlen amlinellol ar gyfer eu gweithredu.

| Dyddiad | Gwaith |
|---|---|
| **Medi 2022** | Cynnal trafodaethau gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Chwilog i egluro'r drefn statudol sydd angen ei gynnal er mwyn cydymffurfio â gofynion adran 48 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. |
| **Hydref – Tachwedd 2022** | Cynnal ymgynghoriad statudol ar gynyddu capasiti Ysgol Chwilog. |
| **Hydref – Rhagfyr 2022** | Cyflwyno achosion busnes i Llywodraeth Cymru ar gyfer **Prosiect 1 a 2.** |
| **Ionawr – Chwefror 2023** | Adrodd yn ôl i Gabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad statudol ar gynyddu capasiti Ysgol Chwilog a derbyn penderfyniad Llywodraeth Cymru ar y cyllid. |

**6. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

"Gan fod y cynnig arfaethedig mewn perthynas ag Ysgol Chwilog yn newid a reoleiddir o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, bydd y drefn yr argymhellir ei chychwyn mewn perthynas a'r ysgol honno yn un statudol ac yn dilyn gofynion y Ddeddf a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion."

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir. Gallaf gadarnhau fod y grant sy'n destun yr adroddiad hwn yn ariannu 100% o gostau cyfalaf a refeniw y cynlluniau hyn, fel nodir yn Rhan 2 yr adroddiad.
Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi trafod agweddau ariannol y cynllun yn fanwl gyda swyddogion yr Adran Addysg, ac wedi herio rhai o'r rhagdybiaethau yn yr adroddiad er mwyn profi cadernid y cynlluniau ariannol. Credaf ei bod yn rhesymol i ddisgwyl bydd y cynlluniau yn cael eu cyflawni o fewn y grant sydd ar gael, ac rwyf yn hyderus fod trefniadau yn eu lle er mwyn cadw golwg ofalus ar gostau'r prosiectau, o ystyried y gyfradd chwyddiant bresennol mae'r diwydiant adeiladu yn ei brofi."

**Barn yr Aelodau Lleol:**

**Cyngh. Paul Rowlinson (Aelod Lleol dalgylch Ysgol Llanllechid)**

"Hoffwn gefnogi yn frwd y cais am arian i'w fuddsoddi yn Ysgol Llanllechid. Mae'r ysgol eisoes ymhell dros ei chapasiti; nid oes gofod sbâr i athrawon weithio ar waith CPA, dim ystafell gerdd benodol, dim ystafell athrawon sy'n ddigon mawr i gartrefu'r staff, diffyg llefydd addas ar gyfer cynnal grwpiau ymyrraeth a chynnal trafodaethau proffesiynol ac yn aml mae sawl gweithgaredd gwahanol yn cael ei gynnal yn y neuadd ar yr un pryd. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn bryderus oherwydd y bydd y datblygiadau tai yn yr ardal yn sicr yn cynyddu'r pwysau ar yr adeilad. Mae safon y Gymraeg yn Ysgol Llanllechid yn rhagorol ac mae'r ysgol yn llwyddo i gyflwyno'r iaith i'r disgyblion; nodwyd yn adroddiad y pennaeth i'r corff llywodraethu ym mis Mawrth eleni fod pob un o ddisgyblion CA2 yn siarad Cymraeg yn rhugl er mai dim ond 62% sy'n ei siarad gartref. Byddai'r buddsoddiad hwn yn galluogi'r ysgol i ddarparu addysg Gymraeg i'r disgyblion ychwanegol ac yn cyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050."

**Cynghorydd Rhys Tudur (Aelod Lleol dalgylch Ysgol Chwilog)**

"Cymeradwyaf a chefnogaf y bwriad i fuddsoddi'n Ysgol Chwilog. Mae hi'n ysgol wych ac yn Gymreigaidd tu hwnt. Mae'r ysgol mewn gwir angen buddsoddiad i fedru cynnal y cynydd sylweddol sydd wedi bod yn ei chapasiti ag y cynydd a ragwelir hefyd. Mae'r adnoddau cyfredol yn gwbwl annigonol. Rwy'n falch bod rhagolygon o dwf poblogaeth pentref Chwilog wedi ei lawn ystyried yn yr adroddiadau.

Credaf hefyd nad yw'r adroddiadau yn cynnwys ystyriaeth ddigonol o'r effaith ar ysgolion cyfagos. Er hynny, rwy'n derbyn os nad yw hynny'n gorfod cael ei ystyried yn yr adroddiadau."

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

**Buddsoddi £1.1 miliwn i gynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith cynradd y Sir.**

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

**Penderfyniad hanesyddol sy'n gyflwyniad rhag blaen i'r hyn rydym yn ei geisio heddiw:** Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd tuag at 2032 a thu hwnt. Fel rhan o'r weledigaeth yma, ac yn sgil derbyn £1.1m o'r wedd gyntaf o arian Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru, rydym yn y broses o sefydlu dau safle addysg drochi cwbl newydd yng Ngwynedd, wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir, ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, sef Tywyn a

Bangor. Rydym hefyd yn y broses o wella'r adnoddau yn safle addysg drochi Porthmadog, sydd eto wedi ei leoli'n strategol ynghanol y sir. Bydd y dair safle yma yn darparu addysg drochi i ddysgwyr blynyddoedd 5-9 mewn amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf.

Yn ogystal, mae gennym hefyd dri safle cynradd sy'n darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4. Nid yw'r safleoedd trochi hyn wedi derbyn unrhyw fuddsoddiad cyfalaf fel rhan o'r wedd gyntaf o arian Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru.

Gwelwyd cyfle felly i gyflwyno cais am ail wedd o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru er mwyn cysoni capasiti a gwella'r amgylchedd dysgu yn y tri safle addysg drochi na dderbyniodd fuddsoddiad yn y wedd gyntaf.

Drwy gyfrwng y cynnig, mae'r Adran Addysg yn awyddus i ymgorffori gofynion Cwricwlwm i Gymru, a chynnig profiadau trawsgwricwlaidd i'r holl ddysgwyr. Bwriedir hefyd sicrhau lleoliad strategol i bob un o'r safleoedd addysg drochi fydd yn gyfrwng i ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth drwy fod wedi eu lleoli o fewn cyrraedd hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, bydd cyfle i ehangu profiadau'r dysgwyr wrth iddynt elwa o brofiadau sydd yn dod â'r Gymraeg yn fyw iddynt.

Ers ei sefydlu yn y 1980au, mae'r ddarpariaeth drochi yng Ngwynedd wedi arloesi yn y maes, a bydd y Gyfundrefn ar ei newydd wedd yn sgil y cyfoesi'r ddarpariaeth, gofynion Cwricwlwm i Gymru, yr holl fuddsoddiad cyfalaf a'r cyfleusterau gorau un yn parhau i arloesi nawr ac i'r dyfodol.

**Canolfan Iaith Maesincla**

Mae Canolfan Iaith Maesincla wedi ei lleoli o fewn adeilad Ysgol Maesincla yng Nghaernarfon. Mae'r gofod sydd gan Ganolfan Iaith Maesincla yn gyfyngedig (sef dau ddosbarth o wahanol faint, gydag un yn fychan iawn) gan amharu ar ansawdd y profiad i'r dysgwyr. Nid yw gofod y Ganolfan Iaith ychwaith yn hwylus ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru a phrofiadau trawsgwricwlaidd cyfoethog i'r dysgwyr.

Wrth ystyried y bydd Canolfan Iaith Maesincla yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yn bennaf, y mae angen ystyried gofynion y Cyfnod Sylfaen a chynllunio gofod pwrpasol ar gyfer ardaloedd chwarae, ac ardaloedd tawel yn ogystal. Nid oes gofod addas ychwaith ar gyfer cyfarfod rhieni neu asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Drwy gyfrwng Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, felly, bwriedir ymestyn ac addasu gofod presennol Canolfan Iaith Maesincla er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau gofod pwrpasol ar gyfer gofynion Cwricwlwm i Gymru fyddai'n cynnwys ardaloedd chwarae tu mewn a thu allan, ynghyd â gofod addas ar gyfer ymwelwyr.

**Canolfan Iaith Dolgellau**

Mae Canolfan Iaith Dolgellau ar hyn o bryd wedi ei lleoli mewn adeilad rhwng safle cynradd Ysgol Bro Idris, Dolgellau, a swyddfeydd y Cyngor ym Mhenarlâg, Dolgellau. Gofod ar gyfer un dosbarth yn unig sydd gan Ganolfan Iaith Dolgellau ar hyn o bryd a hynny ar gyfer cyfanswm o

rhwng 8-12 o ddysgwyr, ac mae'r Ganolfan yn rhannu cyfleusterau amser chwarae ac amser cinio gyda safle cynradd Ysgol Bro Idris. Ar sail y galw sydd am addysg drochi yn yr ardal, mae galw i gynyddu capasiti Canolfan Iaith Dolgellau ac i gysoni'r niferoedd o ddysgwyr a dderbynnir i bob safle ar draws y Gyfundrefn Addysg Drochi. Nid yw'r gofod sydd yn y Ganolfan Iaith ychwaith yn hwylus ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru a phrofiadau trawsgwricwlaidd cyfoethog i'r dysgwyr.
Wrth ystyried y bydd Canolfan Iaith Dolgellau yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yn bennaf, y mae angen ystyried gofynion y Cyfnod Sylfaen a chynllunio gofod pwrpasol ar gyfer ardaloedd chwarae, ac ardaloedd tawel yn ogystal. Nid oes gofod addas ychwaith ar gyfer cyfarfod rhieni neu asiantaethau allanol yn ôl yr angen.
Drwy gyfrwng Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg felly, bwriedir ad-leoli safle presennol Canolfan Iaith Dolgellau i safle amgen yn Ysgol Bro Idris, Dolgellau er mwyn cynyddu capasiti'r Ganolfan a gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau gofod pwrpasol ar gyfer gofynion Cwricwlwm i Gymru fyddai'n cynnwys ardaloedd chwarae tu mewn a thu allan, ynghyd â gofod addas ar gyfer ymwelwyr.

**Canolfan Iaith Llangybi**
Mae Canolfan Iaith Llangybi ar hyn o bryd wedi ei lleoli fel rhan o adeilad Ysgol Llangybi. Nid yw'r Ganolfan Iaith yn Llangybi wedi ei lleoli mewn lleoliad strategol yn y sir, ac mae lleoliad presennol y Ganolfan yn cyfyngu ar y profiadau sydd ar gael i'r dysgwyr er mwyn cyfoethogi eu profiadau dysgu. Nid yw'r gofod sydd yn y Ganolfan Iaith yn hwylus ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru a phrofiadau trawsgwricwlaidd cyfoethog i'r dysgwyr. Wrth ystyried y bydd Canolfan Iaith Llangybi yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yn bennaf, y mae angen ystyried gofynion y Cyfnod Sylfaen a chynllunio gofod pwrpasol ar gyfer ardaloedd chwarae, ac ardaloedd tawel yn ogystal. Nid oes gofod addas ychwaith ar gyfer cyfarfod rhieni neu asiantaethau allanol yn ôl yr angen.
Drwy gyfrwng Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, felly, bwriedir ad-leoli safle presennol Canolfan Iaith Llangybi i leoliad strategol ar safle Ysgol Cymerau ym Mhwllheli. Bydd hyn yn gyfrwng i wella'r amgylchedd dysgu a sicrhau gofod pwrpasol ar gyfer gofynion Cwricwlwm i Gymru fyddai'n cynnwys ardaloedd chwarae tu mewn a thu allan, ynghyd â gofod addas ar gyfer ymwelwyr. Drwy ad-leoli i Bwllheli, bydd hefyd yn sicrhau cysondeb yn y profiadau y gellir eu darparu i'r dysgwyr ar draws yr holl gyfundrefn, gan y bydd lleoli pob un o'r safleoedd addysg drochi mewn lleoliadau strategol yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, gan felly ddod â'r Gymraeg yn fyw i'r dysgwyr.

Yn anochel bydd ail leoli'r Ganolfan Iaith ym Mhwllheli yn cael effaith ar Ysgol Llangybi o safbwynt bwrlwm cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y berthynas arbennig sydd wedi bod rhwng yr ysgol a'r Ganolfan Iaith dros y blynyddoedd ac yn ddiolchgar i'r ysgol am letya'r Ganolfan. Yn dilyn yr adleoliad bydd defnydd o ofod y Ganolfan ar gael at bwrpas yr ysgol.

Byddai'r buddsoddiad yma'n arwain at wella'r profiadau, yr adnoddau a'r amgylchedd dysgu ar gyfer trochi dwys ar gyfer dysgwyr blynyddoedd 2-4 yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, ynghyd â

galluogi'r Awdurdod i ddarparu addysg drochi i fwy o ddysgwyr yn unol â'r galw cynyddol sydd ar y gwasanaeth.
Ar hyn o bryd cyfyngir ar nifer y capasiti dysgwyr yn y lleoliadau addysg drochi i 72 dysgwr bob tymor, fodd bynnag, golyga'r buddsoddiad cyfalaf *gwedd 1* ynghyd â'r buddsoddiad cyfalaf *gwedd 2;* y bydd nifer y dysgwyr a fyddai'n gallu cael eu trochi yn y Canolfannau Iaith yn cynyddu i oddeutu 96 o ddysgwyr bob tymor.

Bydd sicrhau buddsoddiad cyfalaf pellach yn ein cyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd felly yn fodd o sicrhau twf yn nifer y dysgwyr sydd yn elwa o addysg Gymraeg a dwyieithog yn y sir, ynghyd â sicrhau cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, gan gyfrannu at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Debbie Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mehefin 2022 (fersiwn 1)

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Ym mis Mai 2021 bu i ni ymgynghori gyda rhan-ddeiliaid er mwyn casglu eu barn ar ein gweledigaeth newydd ar gyfer y Gyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd.
Ein bwriad bryd hynny oedd gofyn am farn yr holl ran-ddeiliaid ar y weledigaeth a'r cynnig i fuddsoddi arian grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn ein Cyfundrefn Addysg Drochi.
Bu i'r Cabinet gymeradwyo'r weledigaeth newydd ar 6 Gorffennaf 2021.

Gweler isod restr o'r ymgynghorai y bu i ni ymgynghori â hwy yng nghyd-destun ein gweledigaeth newydd ar gyfer y Gyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd:

- Staff Canolfannau Iaith Gwynedd
- Cynrychiolwyr Undebau Athrawon a Chymorthyddion
- Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwynedd

- Fforwm Cyllideb Ysgolion
- Fforwm Undebau
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Pwyllgor Iaith
- Dysgwyr

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Rydym wedi cyfathrebu gyda phenaethiaid yr ysgolion sydd â Chanolfan Iaith wedi eu lleoli ar eu safleoedd ar hyn o bryd i adael iddynt wybod ein bwriadau.
Rydym hefyd wedi cysylltu gyda phenaethiaid y safleoedd arfaethedig sy'n rhan o'n cynlluniau i'r dyfodol i'w hysbysu o'n bwriadau.

Yn ddibynnol ar benderfyniad y Cabinet, y cam nesaf fydd ymgysylltu'n ehangach gyda'r rhan-ddeiliad allweddol ynglŷn a'r bwriad a chyd-gynllunio.

**Ymgynghoriadau hanesyddol (Mai 2021):**
Bu i'r Adran Addysg gynnal cyfnod o ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid allweddol ar y weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt nôl ym mis Mai 2021.
Fel rhan o'r ymgysylltu hwn, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno'r weledigaeth newydd gyda'r Undebau Athrawon a Chymorthyddion ynghyd â chyfarfod arbennig gyda staff y Canolfannau Iaith ar 27 Mai 2021, gyda chyfle i'r staff ystyried y weledigaeth a chyflwyno sylwadau erbyn 21 Mehefin 2021.
Fel rhan o'r ymgysylltu hefyd, cyflwynwyd y weledigaeth newydd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 10 Mehefin 2021, ynghyd â'r Pwyllgor Iaith ar 22 Mehefin 2021 er mwyn derbyn barn yr aelodau etholedig ar y weledigaeth, ynghyd â chyfle i graffu arno. Bu i'r weledigaeth a'r cynllun i fuddsoddi £1.1 miliwn bryd hynny dderbyn cefnogaeth unfrydol i'r cynnig.

Fel rhan o'r ymgysylltu, cyflwynwyd y weledigaeth newydd gerbron penaethiaid holl ysgolion uwchradd Gwynedd ar 16 Mehefin 2021, ynghyd â holl benaethiaid ysgolion cynradd Gwynedd ar 17 Mehefin 2021 er mwyn derbyn eu sylwadau.
Fel rhan o'r ymgysylltu, cynhaliwyd 2 grŵp ffocws gyda dysgwyr y gyfundrefn addysg drochi yn ein Canolfannau Iaith ar 22 Mehefin 2021 er mwyn canfod eu barn hwy fel defnyddwyr y gwasanaeth ar y weledigaeth newydd.

Fel rhan o'r ymgysylltu, cyflwynwyd y weledigaeth newydd gerbron y Fforwm Cyllideb Ysgolion i bwrpas ymgynghori â hwy ar y drefn newydd o ariannu'r weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Gellir gweld crynodeb o’r holl sylwadau y bu i ni dderbyn fel rhan o’r ymgysylltu nôl yn Haf 2021 yma. Ond yn gryno dyma grynhoi rhai penawdau o’r ymgysylltu â fu:

**Sylwadau Staff Canolfannau Iaith Gwynedd**
Rhoddwyd cyflwyniad ar y weledigaeth newydd gerbron staff Canolfannau Iaith Gwynedd ar 27 Mai 2021, gyda chyfle iddynt gyflwyno sylwadau erbyn 21 Mehefin 2021.
Mewn ymateb i’r weledigaeth newydd, bu i’r staff gyflwyno’r sylwadau canlynol

- Croesawyd y buddsoddiad cyfalaf o £1.1m er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o’r radd flaenaf, ynghyd â chynnydd yn nifer y safleoedd addysg drochi.
- Croesawyd y bwriad o benodi pennaeth a dirprwy ar gyfer y gwasanaeth, fyddai’n fodd o arwain at wasanaeth llawer mwy effeithiol ac effeithlon, yn ogystal â sicrhau cysondeb y gwasanaeth. Bydd hefyd yn gyfrwng i sicrhau partneriaeth glos rhwng y gyfundrefn â’r ysgolion, gan allu ymateb yn bositif ac effeithlon i anghenion yr ysgolion. Serch hynny, nodwyd y byddai staffio pob safle gydag athro a chymhorthydd yn peri pryder.
- Nodwyd pryderon am ostwng hyd y cwrs trochi cynradd o 12 wythnos i rhwng 8-10 wythnos, ynghyd â gostwng nifer y dyddiau o 5 diwrnod i 4 diwrnod yr wythnos, o safbwynt effaith hynny ar gynnydd ieithyddol y dysgwyr.
- Nodwyd pryder am yr her o sicrhau cynhaliaeth briodol i’r dysgwyr wrth fynychu’r ysgol am 1 diwrnod bob wythnos, er bod y staff yn cytuno gyda phwrpas yr 1 diwrnod yma o alluogi dysgwyr i gadw mewn cysylltiad gyda’u hysgol leol, eu cyfoedion a sicrhau eu lles.
- Er bod dysgu cyfunol yn cynnig nifer o bosibiliadau, nodwyd bod dysgu cyfunol yn dod â nifer o heriau yn ei sgil hefyd o safbwynt y dechnoleg ei hun, gofod pwrpasol ac addas yn yr ysgolion, gosod amserlen, ynghyd ac anghysondeb mewn sefyllfa dysgwyr. Nid yw dysgu cyfunol cyfwerth â’r profiad o ddysgu wyneb yn wyneb, yn enwedig wrth ymarfer iaith lafar ac ystum.
- Nodwyd pryder am yr amrediad oedran o uno dysgwyr cynradd ac uwchradd o flynyddoedd 5-9.
- Nodwyd hefyd yr angen am ragor o fanylder ar rai elfennau o’r weledigaeth, ac y byddai’n fuddiol i’r staff dderbyn eglurder buan ar rai o’r materion hyn.

**Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwynedd**
Rhoddwyd cyflwyniad ar y weledigaeth newydd gerbron penaethiaid uwchradd Gwynedd ar 16 Mehefin 2021, a gerbron penaethiaid cynradd ar 17 Mehefin 2021. Mewn ymateb i’r weledigaeth newydd, bu i’r penaethiaid gyflwyno’r sylwadau canlynol:

- Cydnabuwyd yr her o daro’r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau trochi dwys er mwyn galluogi’r dysgwyr i gaffael y Gymraeg cyn gynted â phosibl, ynghyd â galluogi newydd-ddyfodiaid i setlo a pharhau yn eu hysgol newydd a chreu cyfoedion.
- Nodwyd bod cyfle i Gydlynwyr Iaith a Phenaethiaid Adrannau Cymraeg yr ysgolion uwchradd gyfrannu eu harbenigedd wrth ddatblygu’r manylder ar gyfer gwireddu’r weledigaeth ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.

- Croesawyd y bwriad o uno dysgwyr cynradd ac uwchradd o flynyddoedd 5-9 ar 3 o'r safleoedd trochi.
- Croesawyd y weledigaeth a'r buddsoddiad gan y penaethiaid cynradd, ac yn arbennig y bwriad o sefydlu safleoedd addysg drochi newydd yn Nhywyn a Bangor.
- Cefnogwyd y bwriad i gyd-ariannu'r gyfundrefn newydd, gan bwysleisio na ddylai hynny ddigwydd ar draul adnoddau yn yr ysgolion.

**Dysgwyr**
Cynhaliwyd 2 grŵp ffocws gyda dysgwyr presennol y Canolfannau Iaith ar 22 Mehefin 2021. Bu i gynrychiolaeth o flynyddoedd 5 a 6 Canolfan Iaith Cefn Coch a chriw o ddysgwyr y Ganolfan Iaith Uwchradd gyfrannu yn wych mewn sesiwn oedd yn trafod cyfres o gwestiynau mewn ymateb iddynt dderbyn cyflwyniad ar y weledigaeth newydd ar gyfer y Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt.

Bu i'r dysgwyr i gyd (15 ohonynt) wneud cyfraniad gwerthfawr i'r sgwrs, ac mae'n bwysig nodi bod eu gallu ieithyddol yn destun clod i'r Canolfannau Iaith presennol.

**Cytuno gyda'r weledigaeth ai peidio**
- O'r holl ddysgwyr (cynradd ac uwchradd), bu i 8 o'r dysgwyr nodi eu bod yn cytuno gyda'r weledigaeth. Bu i 5 o'r uwchradd nodi barn niwtral, gyda dim ond 1 yn anghytuno gyda'r weledigaeth newydd.
- Nododd un dysgwr yn benodol bod elfennau da i'r syniad o fynychu'r safle trochi am 4 diwrnod yr wythnos, ac yna 1 diwrnod bob wythnos yn yr ysgol leol, ond roedd y syniad o deimlo yn '**overwhelmed**' gyda gwaith dieithr ar yr un diwrnod ysgol yn peri pryder iddi.
- Bu i ddysgwr arall nodi bod technoleg yn gymorth i ddysgu iaith, ond bod buddsoddi mewn adnoddau caled megis llyfrau a gemau yn parhau i fod yn syniad da.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Rydym yn gallu crynhoi'r prif achos dros newid a'r angen y bu am weledigaeth newydd ar gyfer y Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd i'r meysydd canlynol, ac ymhelaethir ar sut mae'r cynnig yn cael effaith arnynt isod:

1. Rhoi anghenion y dysgwr yn ganolog
2. Cyfoesi a moderneiddio'r ddarpariaeth
3. Gweithio mewn partneriaeth
4. Cyfle i greu amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf
5. Cyfleoedd newydd yn deillio o COVID-19
6. Gwersi a ddysgwyd yn sgil y Cynllun Peilot a weithredwyd ar gais y Cabinet.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, y pwrpas, y nod a'r amcanion, ein bwriad yn sgil derbyn yr arian grant (gwedd 1 a 2) yw buddsoddi cyfanswm o £2.2m yn ein Cyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd, er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, a chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif.

Ein bwriad yn barhaus yw sicrhau bod lles, profiad ac anghenion y dysgwyr yn ganolog i'n cynlluniau. Mae'r weledigaeth newydd a'n bwriad i fuddsoddi yn ein Cyfundrefn Addysg Drochi unwaith yn rhagor yn enghraifft o'r ymrwymiad yma.

Gweler o'r weledigaeth newydd ein bod yn anelu i gyfoesi a moderneiddio'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion y dysgwyr a'r cwricwlwm newydd. Ond nodwyd hefyd yr angen i fuddsoddi yn yr is-adeiledd ar gyfer y gyfundrefn gan gynnwys adnoddau digidol.

Ar hyn o bryd cyfyngir ar nifer y capasiti dysgwyr yn y lleoliadau addysg drochi i 72 dysgwr bob tymor, fodd bynnag, golyga'r buddsoddiad cyfalaf *gwedd 1* ynghyd â'r buddsoddiad cyfalaf *gwedd 2;* y bydd nifer y dysgwyr a fyddai'n gallu cael eu trochi yn y Canolfannau Iaith yn cynyddu i oddeutu 96 o ddysgwyr bob tymor. Bydd sicrhau buddsoddiad cyfalaf pellach yn ein cyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd felly yn fodd o sicrhau twf yn nifer y dysgwyr sydd yn elwa o addysg Gymraeg a dwyieithog yn y sir, ynghyd â sicrhau cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, gan gyfrannu at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn ddiweddar fel rhan o'n gweledigaeth newydd rydym wedi penodi Pennaeth i'r gyfundrefn sydd â chyfrifoldeb am gyfeiriad strategol y gwasanaeth, ac rydym yn y broses o benodi dirprwy i'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae'r haenau rheolaethol yma yn fuddsoddiad diweddar yn strwythur staffio'r Gyfundrefn Addysg Drochi i gyd-fynd gyda'r weledigaeth.

At hyn, bu i ni ddysgu llawer yn ystod y pandemig ar sut i gynnal cysylltiad a mynediad dysgwyr at addysg, ac mae hyn yn wir o safbwynt ein darpariaeth addysg drochi hefyd gan i'r staff arloesi wrth iddynt symud i ddysgu byw drwy gyfrwng *Microsoft TEAMS* ar gychwyn y cyfnodau clo. Er bod llwyddiannau amlwg wedi bod o orfod symud y profiad o ddysgu iaith o'r canolfannau i gyfrwng rhithiol rydym hefyd yn argyhoeddiedig bod y ganolfan fel prif leoliad y ddarpariaeth trochi yn allweddol os am roi gofod saff i ddysgwyr fagu hyder a sgiliau iaith. Ac felly mae ein gweledigaeth yn fwriadol yn cynnig bod y ganolfan ei hun fel adeilad yn parhau yn ganolog i'r profiad. Er hynny mae'r weledigaeth newydd yn gosod amserlen wythnosol newydd sy'n cynnig bod dysgwyr yn dychwelyd i'w mam ysgol unwaith yr wythnos er mwyn sicrhau eu lles a chyswllt gyda chyfoedion.

Bydd y 3 safle sy'n rhan o fuddsoddiad gwedd 2 yn parhau i ddarparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yr ysgolion cynradd, a bydd ad-leoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle mwy yn ein galluogi i gynnig y ddarpariaeth i ragor o blant ardal Meirionnydd.

Er mwyn gweld mwy o wybodaeth am y weledigaeth a strwythur y gyfundrefn newydd, gellir darllen y ddogfen yn ei chyfanrwydd yma.

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Ddim ar hyn o bryd. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | O safbwynt hil, bydd y buddsoddiad cyfalaf a fwriedir yn gwella amgylchedd dysgu Canolfan Iaith Maesincla, ac ad-leoli Canolfan Iaith Dolgellau a Llangybi i leoliadau strategol yn cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd yma, gan y bydd yn gyfrwng i wella'r gwasanaeth a'r amgylchedd dysgu i ddysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i Wynedd, gyda'r dysgwyr rheiny o du allan i ffiniau Gwynedd, Cymru, a'r DU yn aml. Rhagwelir bydd y cynnig felly yn creu'r amodau fydd yn cefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y y dysgwyr hyn a'r ysgolion y mae'r Canolfannau Iaith yn eu gwasanaethu. |
| **Anabledd** | Positif | Yn sgil y buddsoddiad cyfalaf o'r wedd gyntaf a'r ail wedd, bydd pob un o safleoedd Addysg Drochi Gwynedd yn gwbl hygyrch ac yn meddu ar amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf. Bydd hyn o fantais i'r holl ddysgwyr gan gynnwys dysgwyr anabl. |
| **Rhyw** | Dim | Ni rhagwelir y bydd y newid yn cael effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth gyda'r nodwedd yma. |
| **Oedran** | Dim | Yn sgil y buddsoddiad cyfalaf o'r ail wedd, bydd mwy o ddysgwyr oedran cynradd yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth bob tymor. Cydnabyddir serch hynny o adleoli Canolfan Iaith Dolgellau a Llangybi i leoliadau strategol yn y sir, bydd hyn yn arwain at ychydig rhagor o deithio i rhai dysgwyr oedran cynradd, ac ychydig llai o deithio i ddysgwyr eraill yn sgil y ffaith fod y lleoliad newydd yn fwy hwylus iddynt. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Ni ragwelir y bydd y newid yn cael effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth gyda'r nodwedd yma. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd y gwasanaeth yn parhau i ddilyn polisïau gwrth-fwlio, polisïau cydraddoldeb, cyfle cyfartal ac unrhyw bolisïau perthnasol eraill. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Ni ragwelir y bydd y newid yn cael effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth gyda'r nodwedd yma.<br>Bydd y gwasanaeth yn parhau i ddilyn polisïau gwrth-fwlio, polisïau cydraddoldeb, cyfle cyfartal ac unrhyw bolisïau perthnasol eraill. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Ni ragwelir y bydd y newid yn cael effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth gyda'r nodwedd yma.<br>Bydd y gwasanaeth yn parhau i ddilyn polisïau gwrth-fwlio, polisïau cydraddoldeb, cyfle cyfartal ac unrhyw bolisïau perthnasol eraill. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Ni ragwelir y bydd y newid yn cael effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth gyda'r nodwedd yma.<br>Bydd y gwasanaeth yn parhau i ddilyn polisïau gwrth-fwlio, polisïau cydraddoldeb, cyfle cyfartal ac unrhyw bolisïau perthnasol eraill. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Ni ragwelir y bydd y newid yn cael effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth gyda'r nodwedd yma.<br>Bydd y gwasanaeth yn parhau i ddilyn polisïau gwrth-fwlio, polisïau cydraddoldeb, cyfle cyfartal ac unrhyw bolisïau perthnasol eraill. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Bydd creu amgylchedd dysgu o’r radd flaenaf a chynyddu capasiti’r Canolfannau Iaith yn creu’r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y dysgwyr rheiny sydd yn newydd-ddyfodiaid i Wynedd.<br><br>Prif nod y Gyfundrefn Addysg Drochi yw cefnogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg a chreu siaradwyr Cymraeg o’r newydd. Mae’r cynnig felly yn cyfrannu at *Cynllun Hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23* drwy sicrhau bod *“Ysgolion a sefydliadau addysgol yn rhoi bob cefnogaeth ac anogaeth i ddatblygu siaradwyr Cymraeg hyderus.”* Mae’r cynnig hefyd yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.<br><br>Bydd ad-leoli Canolfan Iaith Llangybi i Bwllheli yn sicrhau cysondeb yn y profiadau y gellir eu darparu i'r dysgwyr ar draws yr holl gyfundrefn, gan y bydd lleoli pob un o’r safleoedd addysg drochi mewn lleoliadau strategol yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu’r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio’u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw’n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, gan felly ddod â’r Gymraeg yn fyw i'r dysgwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Drwy fuddsoddi £1.1 miliwn o arian grant cyfalaf y Llywodraeth byddai pob Canolfan Iaith yn cael buddsoddiad cyfartal. Mae hyn yn fantais economaidd ac yn cadw swyddi safonol proffesiynol yn lleol.<br><br>Mae ein cynlluniau buddsoddi gwedd 1 a 2 yn sicrhau fod pob Canolfan wedi eu lleoli'n strategol ar draws y sir, a drwy agor dwy ganolfan iaith newydd mewn rhannau allweddol o'r sir a chynyddu capasiti ar yr un pryd, bydd cyfle i ddysgwyr elwa o ddarpariaeth trochi fwy lleol iddynt.<br><br>Yn anochel bydd ad-leoli Canolfan Iaith Llangybi ym Mhwllheli yn cael effaith ar Ysgol Llangybi o safbwynt niferoedd dysgwyr ar safle'r ysgol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y berthynas arbennig sydd wedi bod rhwng yr ysgol a'r Ganolfan Iaith dros y blynyddoedd ac yn ddiolchgar i'r ysgol am letya'r Ganolfan. Yn dilyn yr adleoliad bydd defnydd o ofod y Ganolfan ar gael at bwrpas yr ysgol. Bydd ad-leoli'r ddarpariaeth drochi i Ysgol Cymerau yn sicrhau bod yr un nifer neu fwy o newydd-ddyfodiaid yn parhau i gael mynediad i'r gwasanaeth. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Un o egwyddorion y weledigaeth newydd ydy sicrhau nad yw'n cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i newydd-ddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth). Drwy gyfrwng y buddsoddiad cyfalaf bydd rhagor o ddysgwyr yn cael mynediad i'r gwasanaeth, ac yn cael y cyfle i gaffael y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gymhathu i'r gymdeithas ddwyieithog yng Ngwynedd, a manteisio'n llawn ar ddarpariaeth a phrofiadau addysgol yn unol â'r Polisi Iaith Addysg. |

| | | |
|---|---|---|
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Drwy gyfrwng y buddsoddiad cyfalaf bydd rhagor o ddysgwyr yn cael mynediad i'r gwasanaeth, ac yn cael y cyfle i gaffael y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gymhathu i'r gymdeithas ddwyieithog yng Ngwynedd, a manteisio'n llawn ar ddarpariaeth a phrofiadau addysgol yn unol â'r Polisi Iaith Addysg.<br><br>Nodwyd yn yr ymgynghoriad blaenorol ar ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith yng Ngwynedd y bydd colli swydd arbenigol sy'n talu'n dda i ferched (yn y cyd-destun blaenorol), gan roi swyddi sy'n talu llai yn eu lle yn cael effaith negyddol ar ferched. Nid ydy'r weledigaeth newydd yn manylu ar drefn staffio'r gyfundrefn newydd ar y pwynt yma.<br>Ond gellir rhagdybio bod agor dau safle newydd yn Nhywyn a Bangor yn galluogi cyfle i greu swyddi newydd arbenigol. Yn ychwanegol i hyn, byddai'r weledigaeth newydd yn fuddsoddiad mewn rhannau strategol ac ieithyddol heriol o'r sir.<br><br>Mae buddsoddi ymhob un o'r safleoedd addysg drochi yn fodd o sicrhau cysondeb yn y profiad, adnoddau a'r amgylchedd dysgu ar draws y gyfundrefn. Ein nod drwy ymgeisio am arian cyfalaf gwedd 2 oedd sicrhau bod pob safle yn cynnig yr un cyfleoedd cyfartal wrth gaffael y Gymraeg o fewn ein cyfundrefn drochi yma yng Ngwynedd. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Un o egwyddorion y weledigaeth newydd yw sicrhau nad yw'n cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i newydd-ddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth). Ni fyddai'r newid felly yn cael effaith andwyol, gan y byddai cyfle cyfartal o hyd i bob dysgwr sydd yn newydd-ddyfodiaid.<br><br>Byddai ad-leoli Dolgellau i fod yn rhan o safle Ysgol Bro Idris yn fodd o sicrhau bod rhagor o ddysgwyr yn cael mynediad i'r gwasanaeth ac yn cael y cyfle i gaffael y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gymhathu i'r gymdeithas ddwyieithog yng Ngwynedd, a manteisio'n llawn ar ddarpariaeth a phrofiadau addysgol yn unol â'r Polisi Iaith Addysg. Byddai galluogi'r hwyrddyfodiaid i gaffael y Gymraeg yn sicrhau eu bod yn gallu meithrin perthnasau da gyda chyfoedion a'r gymuned ddwyieithog yng Ngwynedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd ad-leoli i safle Ysgol Bro Idris hefyd yn gyfrwng i feithrin perthnasau da gyda dysgwyr prif lif ar safle'r ysgol, a bydd symud i fodel bod y newydd-ddyfodiaid yn treulio 4 diwrnod yr wythnos yn y safle addysg drochi, ac yna 1 diwrnod yn eu hysgol leol yn cael effaith bositif iawn ar les y dysgwyr wrth iddynt barhau i gael cyswllt efo'u cyfoedion gan feithrin perthnasau da.<br><br>Bydd ad-leoli Canolfan Iaith Llangybi i Bwllheli yn sicrhau cysondeb yn y profiadau y gellir eu darparu i'r dysgwyr ar draws yr holl gyfundrefn, gan y bydd lleoli pob un o'r safleoedd addysg drochi mewn lleoliadau strategol yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, gan felly ddod â'r Gymraeg yn fyw i'r dysgwyr. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Mae'r cynnig yn dangos ymrwymiad hirdymor yr Adran Addysg a'r Cyngor i ddarparu addysg drochi gyfoes, ac arloesol o ansawdd uchel mewn amgylchedd dysgu G21 i ddysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid yng Ngwynedd.<br><br>Bydd creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf a chynyddu capasiti'r Canolfannau Iaith yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y dysgwyr rheiny sydd yn newydd-ddyfodiaid i Wynedd. Mae'r cynnig felly yn cyfrannu at *Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23* drwy sicrhau bod *"Ysgolion a sefydliadau addysgol yn rhoi bob cefnogaeth ac anogaeth i ddatblygu siaradwyr Cymraeg hyderus."* Mae'r cynnig hefyd yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.<br><br>Bydd ad-leoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle Ysgol Bro Idris yn gyfrwng i feithrin perthnasau da gyda dysgwyr prif lif ar safle'r ysgol, a bydd symud i fodel bod y newydd-ddyfodiaid yn treulio 4 diwrnod yr wythnos yn y safle addysg drochi, ac yna 1 diwrnod yn eu hysgol leol yn cael effaith bositif iawn ar les y dysgwyr wrth iddynt barhau i gael cyswllt efo'u cyfoedion, meithrin perthnasau da, a manteisio ar gyfleoedd a phrofiadau amrywiol i ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Bydd ad-leoli Canolfan Iaith Llangybi i Bwllheli yn sicrhau cysondeb yn y profiadau y gellir eu darparu i'r dysgwyr ar draws yr holl gyfundrefn, gan y bydd lleoli pob un o'r safleoedd addysg |

drochi mewn lleoliadau strategol yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, gan felly ddod â'r Gymraeg yn fyw i'r dysgwyr.

Mae'r cynnig felly yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Bydd creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf a chynyddu capasiti'r Canolfannau Iaith yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y dysgwyr rheiny sydd yn newydd-ddyfodiaid i Wynedd.

Prif nod y Gyfundrefn Addysg Drochi yw cefnogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg a chreu siaradwyr Cymraeg o'r newydd. Mae'r cynnig felly yn cyfrannu at *Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23* drwy sicrhau bod *"Ysgolion a sefydliadau addysgol yn rhoi bob cefnogaeth ac anogaeth i ddatblygu siaradwyr Cymraeg hyderus."* Mae'r cynnig hefyd yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

Bydd ad-leoli Canolfan Iaith Llangybi i Bwllheli yn sicrhau cysondeb yn y profiadau y gellir eu darparu i'r dysgwyr ar draws yr holl gyfundrefn, gan y bydd lleoli pob un o'r safleoedd addysg drochi mewn lleoliadau strategol yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, gan felly ddod â'r Gymraeg yn fyw i'r dysgwyr.

Mae'r amserlen wythnosol newydd yn mynd ati 'n fwriadol i gynnig gwell cyfleoedd pontio a chadw cyswllt gyda chyfoedion yn yr ysgol, wrth i'r dysgwyr ddychwelyd i'r ysgol am 1 diwnrod bob wythnos, fydd yn gyfrwng i sicrhau parhad eu cefnogaeth i gaffael y Gymraeg yn yr ysgol.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae'r cynnig yn dangos ymrwymiad hirdymor yr Adran Addysg a'r Cyngor i ddarparu addysg drochi gyfoes, ac arloesol o ansawdd uchel mewn amgylchedd dysgu G21 i ddysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid yng Ngwynedd.

Bydd creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf a chynyddu capasiti'r Canolfannau Iaith yn creu cysondeb ar draws y Gyfundrefn, ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bob dysgwyr elwa o'r amodau gorau un i gaffael y Gymraeg.

Bydd ad-leoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle Ysgol Bro Idris yn gyfrwng i feithrin perthnasau da gyda dysgwyr prif lif ar safle'r ysgol, a bydd symud i fodel bod y newydd-ddyfodiaid yn treulio 4 diwrnod yr wythnos yn y safle addysg drochi, ac yna 1 diwrnod yn eu hysgol leol yn cael effaith bositif iawn ar les y dysgwyr wrth iddynt barhau i gael cyswllt efo'u cyfoedion, meithrin perthnasau da, a manteisio ar gyfleoedd a phrofiadau amrywiol i ddefnyddio'r Gymraeg.

Bydd ad-leoli Canolfan Iaith Llangybi i Bwllheli yn sicrhau cysondeb yn y profiadau y gellir eu darparu i'r dysgwyr ar draws yr holl gyfundrefn, gan y bydd lleoli pob un o'r safleoedd addysg drochi mewn lleoliadau strategol yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, gan felly ddod â'r Gymraeg yn fyw i'r dysgwyr.

### 3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Credir y bydd cynyddu capasiti a buddsoddi ymhob un o safleoedd addysg drochi Gwynedd er sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yn sicrhau yr un cyfleoedd i bob dysgwyr yn ddiwahân i gaffael y Gymraeg.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Credwn bod y buddsoddiad ychwanegol o £1.1 miliwn a'r weledigaeth newydd yn ehangach yn debygol o gael effaith bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol, yn sgil y ffaith fod argaeledd y ddarpariaeth i'r dysgwyr o bosib yn gwella neu yn aros yr un fath.

Ein bwriad yw cysoni'r gwahaniaethau amlwg a fyddai yn sgil cyflawniad buddsoddiad ariannol cyfalaf gwedd 1 y grant Gymraeg mewn Addysg. O ymrwymo i wario arian cyfalaf gwedd 2 y

grant ar weddill y Canolfannau hynny sydd heb dderbyn buddsoddiad hyd yma, bydd dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i Wynedd yn elwa o amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf a phrofiadau dysgu cyson ar draws y gyfundrefn.

Ein egwyddor pwysicaf yw sicrhau bod lles y dysgwyr yn ganolog i bopeth. Ac felly mae buddsoddi a sicrhau gwell adnoddau sy'n gwella profiad pob dysgwr, agor safleoedd newydd a newid amserlen wythnosol y dysgu yn ymdrech i wella'r amgylchedd dysgu a'r profiad dysgu Cymraeg i'r hwyrddyfodiad yma i Wynedd, beth bynnag fo eu cefndir, oedran, gallu, rhyw, hil a chenedligrwydd.

## 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid yw buddsoddi £1.1 miliwn yn rhagor yn y Gyfundrefn Addysg Drochi a'r weledigaeth newydd y bu i'r Cabinet gymeradwyo y llynedd yn debygol o gael effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol, yn sgil y ffaith fod argaeledd y ddarpariaeth i'r dysgwyr yn gwella.

Bydd ad-leoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle Ysgol Bro Idris yn gyfrwng i feithrin perthnasau da gyda dysgwyr prif lif ar safle'r ysgol, a bydd symud i fodel bod y newydd-ddyfodiaid yn treulio 4 diwrnod yr wythnos yn y safle addysg drochi, ac yna 1 diwrnod yn eu hysgol leol yn cael effaith bositif iawn ar les y dysgwyr wrth iddynt barhau i gael cyswllt efo'u cyfoedion, meithrin perthnasau da, a manteisio ar gyfleoedd a phrofiadau amrywiol i ddefnyddio'r Gymraeg.

Bydd ad-leoli Canolfan Iaith Llangybi i Bwllheli yn sicrhau cysondeb yn y profiadau y gellir eu darparu i'r dysgwyr ar draws yr holl gyfundrefn, gan y bydd lleoli pob un o'r safleoedd addysg drochi mewn lleoliadau strategol yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, gan felly ddod â'r Gymraeg yn fyw i'r dysgwyr.

Yn anochel bydd ad-leoli Canolfan Iaith Llangybi ym Mhwllheli yn cael effaith ar Ysgol Llangybi o safbwynt niferoedd dysgwyr ar safle'r ysgol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y berthynas arbennig sydd wedi bod rhwng yr ysgol a'r Ganolfan Iaith dros y blynyddoedd ac yn ddiolchgar i'r ysgol am letya'r Ganolfan. Yn dilyn yr adleoliad bydd defnydd o ofod y Ganolfan ar gael at bwrpas yr ysgol. Bydd ad-leoli'r ddarpariaeth drochi i Ysgol Cymerau yn sicrhau bod yr un nifer neu fwy o newydd-ddyfodiaid yn parhau i gael mynediad i'r gwasanaeth.

Ein bwriad yw gweld dysgwyr yn setlo, gwreiddio a chaffael y Gymraeg yma yng Ngwynedd. Mae buddsoddi ymhellach yn y Gyfundrefn Drochi yn gwneud yr amgylchedd a'r lleoliadau yn addas i bwrpas, gyda'r Pennaeth a'r staff yn perchnogi lles ac addysg y dysgwyr mewn partneriaeth gyda'r Gyfundrefn Addysg yn ehangach. Mae hi'n allweddol bod y Gyfundrefn Drochi yn parhau i fod ar flaen y gâd yn genedlaethol ac yn arloesi wrth roi y cychwyn gorau i newydd-ddyfodiaid gaffael y Gymareg a fynnu yn ein cyfundrefn addysg ddwyieithiog.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bu cyfnod helaeth o ymgysylltu ar y weledigaeth newydd a'r bwriad i fuddsoddi £1.1 miliwn o arian cyfalaf gwedd 1 grant y Gymraeg mewn Addysg yn ôl yn 2021. Canlyniad amlwg o'r ymgysylltu gyda'r staff a'r undebau, ynghyd ag ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid ehangach oedd bod yna ganmoliaeth hanesyddol tuag at lwyddiant y Canolfannau Iaith dros y degawdau diwethaf i sicrhau bod dysgwyr yn caffael y Gymraeg.

Cefnogwyd y weledigaeth newydd gyda phleidlais unfrydol o'i phlaid gan y Cabinet a chyn hynny mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Addysg ag Economi a'r Pwyllgor Iaith. Rhan greiddiol o'r weledigaeth yw gwneud defnydd pwrpasol o arian cyfalaf 100% Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn yn gyfartal, addas i bwrpas ac yn adnodd sy'n gymorth i newydd-ddyfodiaid gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus drwy'r ddarpariaeth drochi.

Drwy fuddsoddi £1.1 miliwn yn ychwanegol o arian cyfalaf i wella amgylchedd dysgu'r safleoedd addysg drochi cynradd, ynghyd â'u lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, rydym yn gobeithio gweld gwell cyd-weithio drwy gydol y tymor ysgol rhwng y gyfundrefn newydd a'r ysgolion sydd gyda'i gilydd yn allweddol i gefnogi newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus ac yn hyderus.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Does dim effeithiau negyddol wedi eu adnabod. |

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Byddwn yn monitro effaith unrhyw newid er mwyn sicrhau bod y deilliannau'n bositif ac nad ydynt yn cael unrhyw effaith negyddol. |

# Adroddiad Asesiad Llesiant

Buddsoddi £1.1 miliwn i gysoni capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith cynradd y Sir.

- Mehefin 2022

## CYNNWYS


1. **CYFLWYNIAD**

2. **SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?**

3. **A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?**

4. **EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY**

5. **CASGLIAD**

## 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.
Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| **Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:** | **Llewyrchus** | **Cydnerth** | **Iachach** | **Cyfartal** | **Cymunedau Cydlynus** | **Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu** | **Yn gyfrifol ar lefel byd-eang** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | ■ | | ■ | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | ■ | ■ | | ■ | | ■ |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | ■ | | | ■ | ■ | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | ■ | ■ | | ■ | | ■ | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | ■ | ■ | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir. | ■ | ■ | | | | | ■ |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn " Cynllun Gwynedd 2018-2023".

## 1.1 CYD-DESTUN Y GYFUNDREFN ADDYSG DROCHI

Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo weledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd tuag at 2032 a thu hwnt. Fel rhan o'r weledigaeth yma, ac yn sgil derbyn £1.1m o'r wedd gyntaf o arian Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru, rydym yn y broses o sefydlu dau safle addysg drochi cwbl newydd yng Ngwynedd, wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir, ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, sef Tywyn a Bangor. Rydym hefyd yn y broses o wella'r adnoddau yn safle addysg drochi Porthmadog, sydd eto wedi ei leoli'n strategol ynghanol y sir. Bydd y dair safle yma yn darparu addysg drochi i ddysgwyr blynyddoedd 5-9 mewn amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf.

Yn ogystal, mae gennym hefyd dri safle cynradd sy'n darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4. Nid yw'r safleoedd trochi hyn wedi derbyn unrhyw fuddsoddiad cyfalaf fel rhan o'r wedd gyntaf o arian Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru.

Gwelwyd cyfle felly i gyflwyno cais am ail wedd o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru er mwyn cysoni capasiti a gwella'r amgylchedd dysgu yn y tri safle addysg drochi na dderbyniodd fuddsoddiad yn y wedd gyntaf.

Drwy gyfrwng y cynnig, mae'r Adran Addysg yn awyddus i ymgorffori gofynion Cwricwlwm i Gymru, a chynnig profiadau trawsgwricwlaidd i'r holl ddysgwyr. Bwriedir hefyd sicrhau lleoliad strategol i bob un o'r safleoedd addysg drochi fydd yn gyfrwng i ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth drwy fod wedi eu lleoli o fewn cyrraedd hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, bydd cyfle i ehangu profiadau'r dysgwyr wrth iddynt elwa o brofiadau sydd yn dod â'r Gymraeg yn fyw iddynt.

Ers ei sefydlu yn y 1980au, mae'r ddarpariaeth drochi yng Ngwynedd wedi arloesi yn y maes, a bydd y Gyfundrefn ar ei newydd wedd yn sgil y cyfoesi'r ddarpariaeth, gofynion Cwricwlwm i Gymru, yr holl fuddsoddiad cyfalaf a'r cyfleusterau gorau un yn parhau i arloesi nawr ac i'r dyfodol.

**Canolfan Iaith Maesincla**

Mae Canolfan Iaith Maesincla wedi ei lleoli o fewn adeilad Ysgol Maesincla yng Nghaernarfon. Mae'r gofod sydd gan Ganolfan Iaith Maesincla yn gyfyngedig (sef dau ddosbarth o wahanol faint, gydag un yn fychan iawn) gan amharu ar ansawdd y profiad i'r dysgwyr. Nid yw gofod y Ganolfan Iaith ychwaith yn hwylus ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru a phrofiadau trawsgwricwlaidd cyfoethog i'r dysgwyr.

Wrth ystyried y bydd Canolfan Iaith Maesincla yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yn bennaf, y mae angen ystyried gofynion y Cyfnod Sylfaen a chynllunio gofod pwrpasol ar gyfer

ardaloedd chwarae, ac ardaloedd tawel yn ogystal. Nid oes gofod addas ychwaith ar gyfer cyfarfod rhieni neu asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Drwy gyfrwng Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, felly, bwriedir ymestyn ac addasu gofod presennol Canolfan Iaith Maesincla er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau gofod pwrpasol ar gyfer gofynion Cwricwlwm i Gymru fyddai'n cynnwys ardaloedd chwarae tu mewn a thu allan, ynghyd â gofod addas ar gyfer ymwelwyr.

**Canolfan Iaith Dolgellau**

Mae Canolfan Iaith Dolgellau ar hyn o bryd wedi ei lleoli mewn adeilad rhwng safle cynradd Ysgol Bro Idris, Dolgellau, a swyddfeydd y Cyngor ym Mhenarlâg, Dolgellau. Gofod ar gyfer un dosbarth yn unig sydd gan Ganolfan Iaith Dolgellau ar hyn o bryd a hynny ar gyfer cyfanswm o rhwng 8-12 o ddysgwyr, ac mae'r Ganolfan yn rhannu cyfleusterau amser chwarae ac amser cinio gyda safle cynradd Ysgol Bro Idris. Ar sail y galw sydd am addysg drochi yn yr ardal, mae galw i gynyddu capasiti Canolfan Iaith Dolgellau ac i gysoni'r niferoedd o ddysgwyr a dderbynnir i bob safle ar draws y Gyfundrefn Addysg Drochi.  Nid yw'r gofod  sydd yn y Ganolfan Iaith ychwaith yn hwylus ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru a phrofiadau trawsgwricwlaidd cyfoethog i'r dysgwyr.

Wrth ystyried y bydd Canolfan Iaith Dolgellau yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yn bennaf, y mae angen ystyried gofynion y Cyfnod Sylfaen a chynllunio gofod pwrpasol ar gyfer ardaloedd chwarae, ac ardaloedd tawel yn ogystal. Nid oes gofod addas ychwaith ar gyfer cyfarfod rhieni neu asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Drwy gyfrwng Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg felly, bwriedir ad-leoli safle presennol Canolfan Iaith Dolgellau i safle amgen yn Ysgol Bro Idris, Dolgellau er mwyn cynyddu capasiti'r Ganolfan a gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau gofod pwrpasol ar gyfer gofynion Cwricwlwm i Gymru fyddai'n cynnwys  ardaloedd chwarae tu mewn a thu allan, ynghyd â gofod addas ar gyfer ymwelwyr.

**Canolfan Iaith Llangybi**

Mae Canolfan Iaith Llangybi ar hyn o bryd wedi ei lleoli fel rhan o adeilad Ysgol Llangybi. Nid yw'r Ganolfan Iaith yn Llangybi wedi ei lleoli mewn lleoliad strategol yn y sir, ac mae lleoliad presennol y Ganolfan yn cyfyngu ar y profiadau sydd ar gael i'r dysgwyr er mwyn cyfoethogi eu profiadau dysgu. Nid yw'r gofod sydd yn y Ganolfan Iaith yn hwylus ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru a phrofiadau trawsgwricwlaidd cyfoethog i'r dysgwyr. Wrth ystyried y bydd Canolfan Iaith Llangybi yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yn bennaf, y mae angen ystyried gofynion y Cyfnod Sylfaen a chynllunio gofod pwrpasol ar gyfer ardaloedd chwarae, ac ardaloedd tawel yn ogystal. Nid oes gofod addas ychwaith ar gyfer cyfarfod rhieni neu asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Drwy gyfrwng Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, felly, bwriedir ad-leoli safle presennol Canolfan Iaith Llangybi i leoliad strategol ar safle Ysgol Cymerau ym Mhwllheli. Bydd hyn yn gyfrwng i wella'r amgylchedd dysgu a sicrhau gofod pwrpasol ar gyfer gofynion Cwricwlwm i Gymru fyddai'n cynnwys ardaloedd chwarae tu mewn a thu allan, ynghyd â gofod addas ar gyfer ymwelwyr. Drwy ad-leoli i Bwllheli, bydd hefyd yn sicrhau cysondeb yn y profiadau y gellir eu darparu i'r dysgwyr ar draws yr holl gyfundrefn, gan y bydd lleoli pob un o'r safleoedd addysg drochi mewn lleoliadau strategol yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, gan felly ddod â'r Gymraeg yn fyw i'r dysgwyr.

Yn anochel bydd ail leoli'r Ganolfan Iaith ym Mhwllheli yn cael effaith ar Ysgol Llangybi o safbwynt bwrlwm cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y berthynas arbennig sydd wedi bod rhwng yr ysgol a'r Ganolfan Iaith dros y blynyddoedd ac yn ddiolchgar i'r ysgol am letya'r Ganolfan. Yn dilyn yr adleoliad bydd defnydd o ofod y Ganolfan ar gael at bwrpas yr ysgol.

Byddai'r buddsoddiad yma'n arwain at wella'r profiadau, yr adnoddau a'r amgylchedd dysgu ar gyfer trochi dwys ar gyfer dysgwyr blynyddoedd 2-4 yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, ynghyd â galluogi'r Awdurdod i ddarparu addysg drochi i fwy o ddysgwyr yn unol â'r galw cynyddol sydd ar y gwasanaeth.
Ar hyn o bryd cyfyngir ar nifer y capasiti dysgwyr yn y lleoliadau addysg drochi i 72 dysgwr bob tymor, fodd bynnag, golyga'r buddsoddiad cyfalaf *gwedd 1* ynghyd â'r buddsoddiad cyfalaf *gwedd 2;* y bydd nifer y dysgwyr a fyddai'n gallu cael eu trochi yn y Canolfannau Iaith yn cynyddu i oddeutu 96 o ddysgwyr bob tymor.

Bydd sicrhau buddsoddiad cyfalaf pellach yn ein cyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd felly yn fodd o sicrhau twf yn nifer y dysgwyr sydd yn elwa o addysg Gymraeg a dwyieithog yn y sir, ynghyd â sicrhau cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, gan gyfrannu at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Ystyriwyd amcanion llesiant Cyngor Gwynedd wrth werthuso'r unig opsiwn.

| **Buddsoddi £1.1 miliwn i gysoni capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith cynradd y Sir.** | |
|---|---|
| **Amcanion** | Manylion: |
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Bydd mwy o ofod yn y safleoedd addysg drochi, a bydd dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf. Bydd dysgwyr hefyd yn elwa o gadw cyswllt gyda'u hysgol leol a gyda chyfoedion er sicrhau eu lles. |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Bydd newydd-ddyfodiaid i Wynedd yn elwa o amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf ymhob un o safleoedd y Gyfundrefn Addysg Drochi ar draws y sir. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Bydd creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf a chynyddu capasiti'r Canolfannau Iaith yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y dysgwyr rheiny sydd yn newydd-ddyfodiaid i Wynedd. |

| | |
|---|---|
| | Prif nod y Gyfundrefn Addysg Drochi yw cefnogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg a chreu siaradwyr Cymraeg o'r newydd. Mae'r cynnig felly yn cyfrannu at *Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23* drwy sicrhau bod *"Ysgolion a sefydliadau addysgol yn rhoi bob cefnogaeth ac anogaeth i ddatblygu siaradwyr Cymraeg hyderus."* Mae'r cynnig hefyd yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.<br><br>Bydd ad-leoli Canolfan Iaith Llangybi i Bwllheli yn sicrhau cysondeb yn y profiadau y gellir eu darparu i'r dysgwyr ar draws yr holl gyfundrefn, gan y bydd lleoli pob un o'r safleoedd addysg drochi mewn lleoliadau strategol yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, gan felly ddod â'r Gymraeg yn fyw i'r dysgwyr.<br><br>Drwy gyfrwng y Gyfundrefn Addysg Drochi sicrheir fod dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i Wynedd yn llwyddo i gaffael y Gymraeg ac yn cael eu cymhathu i fywyd naturiol Gymraeg a dwyieithog ein cymunedau ledled y sir. |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Nod y prosiect yw buddsoddi yn adnoddau'r Gyfundrefn Drochi sy'n gwasanaethu dysgwyr blynyddoedd 2-4 ein hysgolion yn ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.<br>Mae'r newydd-ddyfodiaid sy'n cyrraedd a hanu o ardaloedd tu hwnt i ffiniau'r Sir yn aml yn dod o ardaloedd dinesig neu ardaloedd sy'n dra gwahanol i Wynedd.<br>Byddai'r holl gyfundrefn o fod wedi derbyn buddsoddiad cyfartal yn llunio eu gweithgareddau tymhorol ar y cyd drwy sicrhau bod yr amgylchedd naturiol unigryw sy'n berthnasol i bob lleoliad, boed hynny wrth y môr neu'r mynyddoedd yn cael ei gynnwys ym mywydau ac addysg yr holl ddysgwyr.<br>Mae'r Cwricwlwm i Gymru newydd yn gofyn bod lleoliadau addysg yn sicrhau bod yr amgylchedd naturiol unigryw sydd i bob ardal yn cael ei gynnwys fel rhan annatod o'r gwersi a bywyd yr ysgol/ganolfan iaith. |

## 3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith. | Byddai'r cynnig yn golygu fod newydd-ddyfodiaid i Wynedd yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf.<br><br>O leoli pob un o'r safleoedd mewn lleoliad strategol ar draws y sir, yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, gan felly ddod â'r Gymraeg yn fyw i'r dysgwyr.<br><br>Rhagwelir felly y byddai'n cyfoethogi profiadau dysgu a phrofiadau cymdeithasol y dysgwyr. | Dim effaith |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd. | Fel rhan o'r weledigaeth newydd ar Gyfer y Gyfundrefn Addysg Drochi a fabwysiadwyd gan Cabinet, Cyngor Gwynedd ar 6 Gorffennaf 2021, mae sicrhau llesiant corfforol a meddyliol y dysgwyr yn ganolog i'r ddarpariaeth. | Dim effaith |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Bydd y cynnig yn gwella'r amgylchedd dysgu ac yn galluogi'r Gyfundrefn Addysg Drochi i gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i newydd-ddyfodiaid y sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn. | Dim effaith |
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Drwy gyfrwng y buddsoddiad cyfalaf bydd holl safleoedd y Gyfundrefn Addysg Drochi wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir, gan barhau a chyswllt gyda'u hysgol leol a chyfoedion fyddai'n fodd o hyrwyddo parhad cysylltiadau da. | Dim effaith. |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Byddai'r cynnig yn golygu fod newydd-ddyfodiaid i Wynedd yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf.<br><br>O leoli pob un o'r safleoedd mewn lleoliad strategol ar draws y sir, yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, a digwyddiadau cymunedol a diwylliannol gan felly ddod â'r Gymraeg a'r diwylliant yn fyw i'r dysgwyr.<br><br>Rhagwelir felly y byddai'n cyfoethogi profiadau dysgu a phrofiadau cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr. | Dim effaith. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith. |

## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor? |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. | Drwy gyfrwng y buddsoddiad cyfalaf bydd amgylchedd dysgu holl safleoedd y Gyfundrefn Addysg Drochi yn addas ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Bydd y ffaith fod y Gyfundrefn yn gallu derbyn mwy o ddysgwyr bob tymor yn galluogi'r gwasanaeth i ymateb i unrhyw dwf yn y galw am addysg drochi ar draws y sir yn y dyfodol. |
| **Atal**<br>**Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion?** | Bydd gweithredu'r cynnig yn helpu'r Cyngor i ymateb i'r twf tebygol yn nifer y newydd-ddyfodiaid i Wynedd. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | Bu i'r Awdurdod lunio gweledigaeth newydd ar gyfer addysg drochi yng Ngwynedd, ac ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo'r weledigaeth ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd tuag at 2032 a thu hwnt. Fel rhan o'r weledigaeth yma, gwneir buddsoddiad o £2.2m er mwyn gwella amgylchedd dysgu pob safle, ynghyd â chynyddu capasiti, a sicrhau bod y ddarpariaeth wedi ei leoli mewn ardaloedd strategol o'r sir. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. | Bu i'r Adran Addysg gynnal trafodaethau gyda Phenaethiaid perthnasol a swyddogion yr Adran Eiddo er mwyn canfod eu barn ar ein cynlluniau. Ein bwriad yw sicrhau bod pob Canolfan yn gallu cynnig yr un profiad a chyfleusterau arbenigol i bob dysgwr ym mha bynnag ganolfan sydd agosaf iddynt. |
| **Cynnwys** | Rydym wedi cyfathrebu gyda phenaethiaid yr ysgolion sydd â Chanolfan Iaith wedi eu lleoli ar eu safleoedd ar hyn o bryd i adael iddynt wybod ein bwriadau. Rydym hefyd wedi cysylltu gyda |

| | |
|---|---|
| Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu. | phenaethiaid y safleoedd arfaethedig sy’n rhan o’n cynlluniau i’r dyfodol i'w hysbysu o’n bwriadau. Yn ddibynnol ar benderfyniad y Cabinet, y cam nesaf fydd ymgysylltu’n ehangach gyda’r rhan-ddeiliad allweddol ynglŷn a’r bwriad a chyd-gynllunio.<br><br>**Ymgynghoriadau hanesyddol (Mai 2021):**<br>Bu i’r Adran Addysg gynnal cyfnod o ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid allweddol ar y weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt nôl ym mis Mai 2021.<br>Fel rhan o’r ymgysylltu hwn, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno’r weledigaeth newydd gyda’r Undebau Athrawon a Chymorthyddion ynghyd â chyfarfod arbennig gyda staff y Canolfannau Iaith ar 27 Mai 2021, gyda chyfle i’r staff ystyried y weledigaeth a chyflwyno sylwadau erbyn 21 Mehefin 2021.<br>Fel rhan o’r ymgysylltu hefyd, cyflwynwyd y weledigaeth newydd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 10 Mehefin 2021, ynghyd â’r Pwyllgor Iaith ar 22 Mehefin 2021 er mwyn derbyn barn yr aelodau etholedig ar y weledigaeth, ynghyd â chyfle i graffu arno. Bu i’r weledigaeth a’r cynllun i fuddsoddi £1.1 miliwn bryd hynny dderbyn cefnogaeth unfrydol i’r cynnig. |

## 5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Bydd y cynnig arfaethedig yn caniatáu fod dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i Wynedd yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir, fydd yn fodd o ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth h.y. drwy gael mynediad hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, a digwyddiadau cymunedol a diwylliannol gan felly ddod â'r Gymraeg a'r diwylliant yn fyw i'r dysgwyr, gan eu cynorthwyo i gymathu a ffynnu yn ein cyfundrefn addysg ddwyieithog ac fel aelodau cyflawn o'n cymunedau ni yma yng Ngwynedd.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynyddu capasiti yn Ysgolion Bro Lleu, Chwilog a Llanllechid

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Cynyddu lleoedd yn y 3 ysgol er mwyn sicrhau digon o le i'r dysgwyr presennol ac ymateb i ragamcanion twf ym mhoblogaeth plant yn nalgylch yr ysgolion i'r dyfodol

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Gareth Jones (Swyddog Moderneiddio Addysg)

**1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

| |
|---|
| Mehefin 2022 (fersiwn 1) |

## 2) Gweithredu

**2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Adran Addysg Cyngor Gwynedd<br><br>Staff, llywodraethwyr, rhieni a phlant fydd yn rhan o'r ymgynghoriad |

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Rydym wedi cyfathrebu'r bwriad gyda'r 3 ysgol dan sylw.

Rydym wedi trafod yr angen am gynnal trefn statudol gyda phennaeth Ysgol Chwilog a chyfathrebu'r angen gyda'r Corff Llywodraethol (does dim angen cynnal trefn statudol yn y 2 ysgol arall).

Yn ddibynnol ar benderfyniad y Cabinet, y cam nesaf fydd i drafod y cynnig gyda buddiolwyr Ysgol Chwilog er mwyn derbyn eu mewnbwn. Byddwn yn gwneud hyn oherwydd fod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid cynnal proses statudol os yn '*ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig.*'

Gan y bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu'r capasiti i 95, sydd yn gynnydd o dros 25% o'r 65 sef capasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol yn yr achos yma, bydd angen cynnal trefn statudol cyn gallu gwneud unrhyw addasiadau fydd yn arwain at gynyddu capasiti'r ysgol.

Byddwn yn gwneud hyn drwy ymgynghori gyda staff, rhieni, plant a'r gymuned ehangach yn Chwilog ac ysgolion cyfagos i dderbyn eu sylwadau ar gynyddu capasiti Ysgol Chwilog gan gynnwys eu sylwadau ar unrhyw effaith ar gydraddoldeb, y gymuned neu'r iaith Gymraeg.

| |
|---|
| Gan na fydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Llanllechid nac Ysgol Bro Lleu yn cynyddu capasiti dros 25% ni fydd angen cynnal ymgynghoriad statudol yn achos y 2 ysgol yma. Serch hynny, rydym eisoes wedi bod mewn cyswllt gyda'r 2 ysgol ynglŷn â chefnogaeth mewn egwyddor i'r y cais grant, a byddwn yn parhau i ddiweddaru Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Llanllechid wrth gynllunio i ychwanegu dosbarth gan eto geisio adnabod unrhyw effaith fedr hyn ei gael ar gydraddoldeb, y gymuned neu'r iaith Gymraeg. |

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

| |
|---|
| Bydd canlyniad yr ymgysylltu gyda'r holl fuddeiliaid ar gael yn dilyn y broses ymgynghori statudol yn Chwilog a thrafodaethau pellach yn Bro Lleu a Llanllechid. |

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

| |
|---|
| Yn ystod Tymor yr Haf 2021 bu i'r 3 ysgol, aelodau lleol, a'u cyrff llywodraethol gysylltu efo'r Adran Addysg yn pryderu am ddiffyg capasiti'r ysgolion rheiny i gyfarch y cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai o fewn eu dalgylchoedd.<br><br>Cyflwynwyd cais llwyddiannus am *Grant Cyfalaf y Gymraeg* Llywodraeth Cymru i greu dosbarth ychwanegol yn y 3 ysgol er mwyn ymateb i sefyllfaoedd yr ysgolion hyn, gan becynnu'r cais o amgylch cymunedau o arwyddocâd ieithyddol. |

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

| |
|---|
| Byddwn yn casglu mwy o wybodaeth yn ystod yr ymgynghori statudol. |

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | dim | O safbwynt hil, nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. Rhagwelir bydd y cynnig yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | creu'r amodau fydd yn cefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r cymunedau. |
| **Anabledd** | dim | Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. |
| **Rhyw** | dim | Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. |
| **Oedran** | Positif | Bydd y newid yn golygu mwy o lefydd yn yr ysgolion ar gyfer holl blant y dalgylch i'r dyfodol. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | dim | Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | dim | Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. |
| **Ailbennu rhywedd** | dim | Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r cymunedau. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Drwy gynyddu capasiti y 3 ysgol byddwn yn sicrhau llefydd i holl blant oed cynradd yn eu hysgol leol beth bynnag yw eu cefndir economaidd – gymdeithasol. Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn creu'r amodau gorau ar gyfer ffyniant y cymunedau. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a**

**pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Ni fydd y cynnig yn newid dyletswydd statudol yr ysgolion i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Ni ragwelir y bydd y newid yn effeithio ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgolion yn barod. Mae gwersi ABCh yn cael eu cynnal yn yr ysgolion fydd yn addysgu plant ar hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Bydd cynyddu capasiti yr ysgolion yn hyrwyddo cyfle cyfartal drwy sicrhau llefydd i holl blant y dalgylch yn eu hysgol leol. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Ni ragwelir y bydd y newid yn effeithio ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgolion yn barod. Mae gwersi ABCh yn cael eu cynnal yn yr ysgolion fydd yn addysgu plant ar sut i feithrin perthynas dda. Bydd cynyddu capasiti yr ysgolion yn fodd o feithrin perthnasau da drwy sicrhau llefydd i holl blant y dalgylch gael mynediad i'w hysgol leol. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Ni rhagwelir y bydd ychwanegu dosbarth a chynyddu capasiti y 3 ysgol yn newid y ffordd mae'r ysgolion yn ymdrin a'r iaith Gymraeg ar hyn o bryd, a bydd yr ysgolion yn parhau i fanteisio ar pob cyfle i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol a'r gymuned. |

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i**

**ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

| |
|---|
| Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol yn Ysgol Chwilog byddwn yn rhoi'r cyfle i fuddiolwyr gynnig sylwadau ar unrhyw effaith y gallai'r argymhelliad ei gael ar yr iaith Gymraeg gan ymateb i unrhyw bryderon fydd yn cael eu datgan.<br><br>Byddwn yn parhau i ddiweddaru Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Llanllechid wrth gynllunio i ychwanegu dosbarth ar safleoedd yr ysgolion rheiny gan eto geisio adnabod unrhyw effaith y gallai ei gael ar yr iaith Gymraeg. |

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

| |
|---|
| Drwy gynyddu capasiti y 3 ysgol byddwn yn sicrhau llefydd i holl blant oed cynradd yn eu hysgol leol beth bynnag yw eu cefndir economaidd – gymdeithasol. Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn creu'r amodau gorau ar gyfer ffyniant y cymunedau. |

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Gan na fydd y cynnig yn cael effaith ar y modd y mae'r ysgolion yn gweithredu ni ragwelir unrhyw angen am newidiadau. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Rhagwelir y bydd cynyddu capasiti yr ysgolion yn cael effaith bositif ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac economaidd-gymdeithasol oherwydd rhagwelir y bydd yn creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch gan greu seilwaith gadarn ar gyfer y cymunedau a chreu'r amodau gorau i'r iaith Gymraeg a ffyniant y cymunedau. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Ni ragwelir y bydd cynyddu capasiti yr ysgolion yn cael effaith sylweddol negyddol ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg nac economaidd-gymdeithasol gan y bydd y 3 ysgol yn parhau i wasanaethu eu dalgylch yn union fel ac y maent ar hyn o bryd. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | Parhau |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Er nad ydym yn rhagweld unrhyw effaith negyddol byddwn yn parhau i fonitro ac yn gweithredu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol yn ôl y galw. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Does dim effaith negyddol wedi ei adnabod ar y cam yma. |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Byddwn yn monitro effaith unrhyw newid er mwyn sicrhau bod y deilliannau'n bositif ac nad ydynt yn cael unrhyw effaith negyddol. |

# Adroddiad asesiad effaith cynyddu capasiti Ysgol Chwilog, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Llanllechid ar lesiant

## CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD

2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

5. CASGLIAD

## 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| **Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel byd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | ■ | | ■ | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | ■ | ■ | | ■ | | ■ |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | ■ | | | ■ | ■ | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | ■ | ■ | | ■ | | ■ | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | ■ | ■ | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir. | ■ | ■ | | | | | ■ |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

### 1.1 Cyd-destun

Yn ystod Tymor yr Haf 2021 bu i gyrff llywodraethol 3 ysgol a'u aelodau lleol gysylltu efo'r Adran Addysg yn pryderu am ddiffyg capasiti'r ysgolion hynny i gyfarch y cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai o fewn eu dalgylchoedd naturiol, sef Ysgol Llanllechid, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Chwilog.

Gwelwyd cyfle i gyflwyno cais am Grant Cyfalaf y Gymraeg i geisio ymateb i sefyllfaoedd yr ysgolion hyn, gan becynnu'r cais o amgylch cymunedau o arwyddocâd ieithyddol (cymunedau dros 70% o siaradwyr Cymraeg).

Drwy gyfrwng y cais hwn, mae'r Adran Addysg yn awyddus i gefnogi datblygiadau economaidd, tai a mentrau cymdeithasol mewn rhai cymunedau o arwyddocâd ieithyddol yn y sir, drwy gynyddu capasiti'r ysgolion mewn ymateb i'r twf yn y boblogaeth yn sgil y datblygiadau hyn. O blethu'r holl elfennau adfywio cymunedol hyn yn gelfydd ynghyd, gall greu seilwaith gadarn ar gyfer y cymunedau hyn, gan greu'r amodau gorau un i'r iaith Gymraeg a ffyniant y cymunedau.

Yn Chwefror 2022 derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru fod cais Adran Addysg, Cyngor Gwynedd wedi derbyn cymeradwyaeth mewn egwyddor.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid cynnal proses statudol os yn '*ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig.'*

Gan y bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu y capasiti i 95, sydd yn gynnydd o dros 25% o'r 65, sef capasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol yn yr achos yma, bydd angen cynnal trefn statudol cyn gallu gwneud unrhyw addasiadau fydd yn arwain at gynyddu capasiti yr ysgol.

Gan na fydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Llanllechid na Ysgol Bro Lleu yn cynyddu capasiti dros 25% ni fydd angen cynnal ymgynghoriad statudol yn achos y 2 ysgol yma.

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

**Cynyddu capasiti y 3 ysgol**

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Bydd mwy o le yn yr ysgolion. Bydd y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sydd yn cynnig gofod addas. |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Bydd lle digonol yn yr ysgolion ar gyfer holl blant presennol y dalgylchoedd ac i'r dyfodol pan fydd mwy o alw o ganlyniad i ddatblygiadau tai. Bydd y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sydd yn cynnig gofod addas. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau fydd yn cefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r cymunedau. |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## 3. A YW’R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | Yw’r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy’n defnyddio adnoddau’n ddarbodus, pobl addysgedig, sy’n creu cyfoeth a gwaith. | Byddai’r cynnig yn golygu fod digon o le yn yr ysgolion ar gyfer dysgu holl blant eu dalgylch mewn dosbarthiadau addas ar gyfer y niferoedd. Rhagwelir felly y byddai’n cyfoethogi profiadau dysgu a chymdeithasol y disgyblion. | Dim effaith. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy’n cefnogi gwydnwch a gyda’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Ni ragwelir y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy’n effeithio ar eu hiechyd. | Ni ragwelir y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru sy’n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Bydd y cynnig yn gwella gallu yr ysgol i *“gynnig addysg o’r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi’r profiadau, y sgiliau a’r hyder i blant y Sir a’u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn”* yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. | Dim effaith |
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Byddai addasu yr ysgolion er mwyn sicrhau digon o le i holl blant cynradd yn eu dalgylchoedd yn golygu y byddai’r disgyblion yn gallu cael addysg yn eu cymunedau. | Dim effaith |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu’r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a’r cymunedau. | Dim effaith |
| **Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang.**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Ni ragwelir y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |

# 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor? |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. | Mae niferoedd presennol a rhagamcanion niferoedd disgyblion yn ogystal a datblygiadau tai lleol yn dangos yr angen am gynyddu capasiti yn yr ysgolion a bydd y cynnig yn sicrhau digon o lefydd ar gyfer tymor byr a hir. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion? | Bydd gweithredu'r argymhelliad yn helpu'r Cyngor i osgoi problemau diffyg gofod yn y 3 ysgol. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | Bu i'r awdurdod gychwyn y broses o adolygu sefyllfa'r ysgolion yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgolion. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. | Bydd cydweithio gydag adrannau perthnasol eraill a'r ysgolion unigol yn rhan bwysig o gyflawni'r amcanion er lles yr ysgolion a phlant y dalgylch |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu. | Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig, bydd yr awdurdod yn cynnal ymgynghoriad statudol gyda'r rhan-ddeiliaid perthnasol megis rhieni, staff a'r gymuned ehangach yn Chwilog. Bydd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys ymgynghoriad penodol gyda plant a phobl ifanc. Bydd yr awdurdod yn cydymffurfio â'r gofynion ymgynghori a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. |

## 5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â’r gofynion.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yn y 3 dalgylch yn cael eu haddysgu mewn ysgolion addas eu maint ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

Byddai addasu’r ysgolion er mwyn sicrhau digon o le i holl blant cynradd yn eu dalgylchoedd yn golygu y byddai’r disgyblion yn gallu cael addysg yn eu cymunedau.

Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu’r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a’r cymunedau.

# Adroddiad Asesu Effaith ar y Gymuned, Ansawdd a Safonau Addysg, Trefniadau Teithio,

# Ysgol Chwilog, Ysgol Bro Lleu, Ysgol Llanllechid

- Gorffennaf 2022

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD ASESU EFFAITH AR Y GYMUNED** | |
| 1. | CYFLWYNIAD |
| 2. | YSGOL CHWILOG |
| 3. | YSGOL BRO LLEU |
| 4. | YSGOL LLANLLECHID |
| 5. | CRYNODEB |
| **ADRODDIAD ASESU ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG** | |
| 1. | YSGOL CHWILOG |
| 2. | YSGOL BRO LLEU |
| 3. | YSGOL LLANLLECHID |
| 4. | CASGLIAD |
| **ASESIAD EFFAITH AR DREFNIADAU TEITHIO** | |
| 1. | POLISI CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD |
| 2. | Y SEFYLLFA BRESENNOL |
| 3. | CASGLIAD |

# Adroddiad Asesu Effaith Ar Y Gymuned Ysgol Chwilog, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Llanllechid

## 1. CYFLWYNIAD

Yn ystod Tymor yr Haf 2021 bu i gyrff llywodraethol 3 ysgol a'u aelodau lleol gysylltu efo'r Adran Addysg yn pryderu am ddiffyg capasiti yr ysgolion hynny i gyfarch y cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai o fewn eu dalgylchoedd naturiol, sef Ysgol Llanllechid, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Chwilog.

Gwelwyd cyfle i gyflwyno cais am Grant Cyfalaf y Gymraeg i geisio ymateb i sefyllfaoedd yr ysgolion hyn, gan becynnu'r cais o amgylch cymunedau o arwyddocâd ieithyddol (cymunedau dros 70% o siaradwyr Cymraeg).

Drwy gyfrwng y cais hwn, mae'r Adran Addysg yn awyddus i gefnogi datblygiadau economaidd, tai a mentrau cymdeithasol mewn rhai cymunedau o arwyddocâd ieithyddol yn y sir, drwy gynyddu capasiti'r ysgolion mewn ymateb i'r twf yn y boblogaeth yn sgil y datblygiadau hyn. O blethu'r holl elfennau adfywio cymunedol hyn yn gelfydd ynghyd, gall greu seilwaith gadarn ar gyfer y cymunedau hyn, gan greu'r amodau gorau un i'r iaith Gymraeg a ffyniant y cymunedau.

## 2. YSGOL CHWILOG

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid cynnal proses statudol os yn '*ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig*.'

Gan fydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu y capasiti i 95, sydd yn gynnydd o dros 25% o'r 65, sef capasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol yn yr achos yma, mi fydd angen cynnal trefn statudol cyn gallu gwneud unrhyw addasiadau fydd yn arwain at gynyddu capasiti yr ysgol.

### 2.1 Yr Ysgol

Mae Ysgol Chwilog wedi ei lleoli yng nghanol pentref Chwilog sydd rhwng Y Ffôr a Chricieth. Mae gan yr Ysgol gapasiti meithrin i blwyddyn 6 o 74, gyda 76 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd (Cyfrifiad Medi 2021).

Mae 3 dosbarth yn yr ysgol. Dosbarth blwyddyn meithrin, dosbarth sydd yn addysgu blynyddoedd derbyn-blwyddyn 2, a dosbarth arall sydd yn addysgu blynyddoedd 3-6.

Oherwydd datblygiadau tai newydd a’r effaith ar rhagamcanion niferoedd, rhagwelir bydd niferoedd yn yr ysgol yn cynyddu ymhellach dros y 5 mlynedd nesaf a bydd felly angen dosbarth ychwanegol.

## 2.2 Y Dalgylch

Mae Ysgol Chwilog wedi ei lleoli yng nghanol Pentref Chwilog, sydd rhwng Y Ffôr a Chricieth yng Ngwynedd. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys y pentref ac ardal gyfagos, sydd wedi ei leoli rhwng dalgylchoedd Ysgolion Bro Plenydd (Y Ffor), Ysgol Abererch, Ysgol Llanystumdwy ac Ysgol Llangybi.

Mae Ysgol Chwilog wedi ei lleoli yn Nwyfor ac yn ward Llanystumdwy. Dengys data diweddaraf (cyfrifiad 2011) fod poblogaeth ward Llanystumdwy yn 2,080.

## 2.3 Yr Economi

Mae 1,460 o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed yn byw o fewn ward Llanystumdwy. Mae 1,020 yn weithgar yn economaidd. Mae 440 o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 65 o’r rhain yn sâl neu’n anabl am gyfnod hir.

Mae’r math o ddiwydiant y mae’r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda’r gyfradd uchaf (13.7%) yn gweithio yn y maes Addysg.

Mae nifer o fusnesau yn weithredol yn y pentref, gan gynnwys tafarndy, swyddfa bost, a pharc carafanau.

## 2.4 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Chwilog, gan gynnwys;

- Cylch Meithrin
- Ysgol Sul
- Merched y Wawr
- Cymraeg i Oedolion yn Y Madryn
- Y Gymdeithas
- Clwb Snwcer
- Eisteddfod Flynyddol
- Gweithgareddau Ffitrwydd
- A gweithgareddau amrywiol eraill yn y Ganolfan

Yn ogystal, mae nifer o gyfleusterau yn y pentref, gan gynnwys Capel Siloh a Chapel Uchaf, Neuadd Bentref, Swyddfa Bôst, Cigydd, Tafarn a Pharc Chwarae Plant.

## 2.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol

| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | |
|---|---|
| **Aelwyd yr Urdd** | ✓ |
| **Dramâu** | |
| **Grwpiau Gwirfoddol** | |
| **Bore/Noson Goffi** | ✓ |

| | |
|---|---|
| Arwerthiant Cymunedol | ✓ |
| Llyfrgell Gymunedol | |
| Ymarfer Côr | |
| Cymraeg i Oedolion | ✓ |
| Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned | |
| Cylch/Ysgol Feithrin | ✓ |
| Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon | |
| Clwb Brecwast | ✓ |
| Clwb ar ôl Ysgol | |
| Clwb Diddordeb Lleol | |

***Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022***

## 2.6 Crynodeb O'r Amrywiol Gyfleusterau Sydd Yn Y Cymunedau

Mae'r wybodaeth isod wedi ei gasglu am ardal yr ysgolion sydd o dan sylw:

| | |
|---|---|
| Canolfan Gymuned Neuadd Bentref | ✓ |
| Capel/Eglwys | ✓ |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | ✓ |
| Siop | ✓ |
| Caffi/Tafarn | ✓ |
| Swyddfa Bost | ✓ |
| Meddygfa/Fferyllfa | X |
| Llyfrgell | X |
| Cae Chwarae Plant | ✓ |
| Banc | X |
| Cartref Henoed | X |
| Canolfan Hamdden | X |
| Garej | X |
| Atyniad Twristaidd | X |
| Cylch Ti a Fi + Meithrin | ✓ |

***Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022***

## 2.7 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

| | |
|---|---|
| Cylchoedd Meithrin/Ti a Fi | ✓ |
| Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol) | ✓ |
| Adrannau'r Urdd | ✓ |
| Ymweliadau a Glan Llyn / Llangrannog / Caerdydd | ✓ |
| Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau) | ✓ |

***Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022***

## 2.8 Amddifadedd

Mae Ward Llanystumdwy (sydd yn ardal ehangach nac arwynebedd daearyddol dalgylch ysgol Chwilog) yn y 50% o wardiau lleiaf difreintiedig yng Nghymru (rheng 1,102 allan o 1,909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai (gweler y tabl isod).

Nodir fod ward Llanystumdwy o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Yn ogystal, mae ward Llanystumdwy o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Mae crynodeb isod o sut mae ward Llanystumdwy wedi ei leoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

| **Maes** | **Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd.<br>1 = mwyaf difreintiedig<br>1909 = lleiaf difreintiedig** | **Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru** |
|---|---|---|
| Incwm | 1,475 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Cyflogaeth | 1,589 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Iechyd | 1,485 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Addysg | 1,460 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Mynediad i wasanaethau | 152 | ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 1.339 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 1,273 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Tai | 54 | ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig |

## 2.9 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn (Ionawr 2013)

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Chwilog gan arolygwyr Estyn.

*"Lleolir yr ysgol ynghanol pentref Chwilog, ger Pwllheli. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o gwmpas.*

*Mae 62 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol yn cynnwys plant oed meithrin. Mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf. Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Mae 89% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref. Nid oes unrhyw ddisgybl o gefndir ethnig lleiafrifol yn yr ysgol ar hyn o bryd."*

## 2.10 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

| Ysgol | **Capasiti Llawn** (D – Bl6) | **Nifer ar y gofrestr** Medi 2021 (D – Bl6) | **Nifer o Lefydd Gwag** 2021 (M – Bl6) | Categori Cyfreithiol |
|---|---|---|---|---|
| **Chwilog** | 65 | 70 | 5 | **Ysgol gymunedol** |

***Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2021***

Dengys y tabl uchod niferoedd ysgol Chwilog, o Flwyddyn derbyn i flwyddyn 6. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgol, a llefydd gweigion. Mae Ysgol Chwilog yn ysgol gymunedol, ac yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 2.11 Asesiad O Effaith Debygol Ar Y Gymuned

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd greu meini prawf yn unol â argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

| **Positif** | **Niwtral** | **Negyddol** |
|---|---|---|

| **Meini Prawf Effaith** | **Disgrifiad** | **Statws o'r effaith a'r gwaith** |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Dim newid | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Dim newid | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Mi fydd cynyddu y capasiti yn sicrhau digon o lefydd yn yr ysgolion ar gyfer holl blant y dalgylch a felly yn sicrhau addysg iddynt yn eu cymunedau | Positif |

| | | |
|---|---|---|
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Mi fydd cynyddu y capasiti yn sicrhau digon o lefydd yn yr ysgolion ar gyfer holl blant y dalgylch a felly yn sicrhau addysg iddynt yn eu cymunedau | Positif |

# 3. YSGOL BRO LLEU

## 3.1 Yr Ysgol

Mae ysgol Bro Lleu wedi ei lleoli yng nghanol pentref Penygroes sydd rhwng Porthmadog a Chaernarfon.

Mae gan yr ysgol gapasiti Meithrin i Flwyddyn 6 o 180, gyda 199 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol. Mae hyn yn golygu fod yr ysgol dros gapasiti o 19 o ddisgyblion yn barod (Cyfrifiad Medi 2021).

Ar hyn o bryd mae 7 dosbarth yn yr ysgol. Un dosbarth sydd yn addysgu blwyddyn beithrin (bore a prynhawn) a derbyn, dosbarth sydd yn addysgu blwyddyn derbyn a 1. Mae blynyddoedd 2, 3 a 4 yn cael dosbarthiadau yr un. Mae blynyddoedd 5 a 6 yn cael eu addysgu gyda'u gilydd mewn 2 dosbarth.

Oherwydd datblygiadau tai newydd a'r effaith ar rhagamcanion niferoedd, rhagwelir bydd niferoedd yn yr ysgol yn cynyddu ymhellach dros y 5 mlynedd nesaf a bydd felly angen dosbarth ychwanegol.

## 3.2 Y Dalgylch

Mae dalgylch yr ysgol wedi ei lleoli yn Nalgylch Uwchradd Dyffryn Nantlle ac o fewn tafliad carreg i'r Ysgol Uwchradd (dros y ffordd). Mae hefyd yn cynnwys y pentref ac ardal gyfagos, ac wedi ei leoli rhwng dalgylchoedd Ysgol Bro Llifon, Ysgol Talysarn, Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Brynaerau.

Mae Ysgol Bro Lleu wedi ei lleoli yn Arfon ac oddi fewn ward Penygroes. Mae data diweddaraf (Cyfrifiad 2011) yn dangos fod poblogaeth ward Penygroes yn 1,793.

## 3.3 Yr Economi

Mae 1,297 o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Penygroes. Mae 867 yn weithgar yn economaidd. Mae 430 o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 72 o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (16.2%) yn gweithio yn y maes masnach manwerthu a chyfanwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur

## 3.4 Crynodeb O'r Amrywiol Gyfleusterau Sydd Yn Y Cymunedau

Mae'r wybodaeth isod wedi ei gasglu am ardal yr ysgolion sydd o dan sylw:

| | |
|---|---|
| **Canolfan Gymuned Neuadd Bentref** | ✓ |
| **Capel/Eglwys** | ✓ |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | ✓ |
| **Siop** | ✓ |
| **Caffi/Tafarn** | ✓ |
| **Swyddfa Bost** | ✓ |
| **Meddygfa/Fferyllfa** | ✓ |
| **Llyfrgell** | ✓ |
| **Cae Chwarae Plant** | ✓ |
| **Banc** | X |
| **Cartref Henoed** | ✓ |
| **Canolfan Hamdden** | ✓ |
| **Garej** | ✓ |
| **Atyniad Twristaidd** | ✓ |
| **Cylch Ti a Fi + Meithrin** | ✓ |

***Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022***

## 3.5 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

| | |
|---|---|
| **Cylchoedd Meithrin/Ti a Fi** | ✓ |
| **Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)** | ✓ |
| **Adrannau'r Urdd** | ✓ |
| **Ymweliadau a Glan Llyn / Llangrannog / Caerdydd** | ✓ |
| **Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)** | ✓ |

***Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022***

## 3.6 Amddifadedd

Mae Ward Penygroes yn y 50% o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (rheng 1,090 allan o 1,909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai (gweler y tabl isod).

Nodir fod ward Penygroes ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig mewn 5 allan o'r 8 maes.

Mae crynodeb isod o sut mae ward Penygroes wedi ei leoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

| **Maes** | **Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd.**<br>**1 = mwyaf difreintiedig**<br>**1909 = lleiaf difreintiedig** | **Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru** |
|---|---|---|
| Incwm | 697 | ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig |
| Cyflogaeth | 796 | ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig |
| Iechyd | 867 | ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig |
| Addysg | 1,409 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Mynediad i wasanaethau | 1,656 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 794 | ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 1,886 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Tai | 860 | ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig |

### 3.7 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn (Ionawr 2014)

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Bro Lleu gan arolygwyr Estyn:

*"Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref Penygroes, sydd oddeutu wyth milltir o dref Caernarfon yng Ngwynedd.*

*Mae 176 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 22 o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi'u trefnu yn ddau ddosbarth yn ôl eu hoedran ac yn bedwar dosbarth oed cymysg. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed."*

### 3.8 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Bro Lleu, o flwyddyn derbyn i flwyddyn 6. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgol, a llefydd gweigion. Mae Ysgol Bro Lleu yn ysgol gymunedol, ac yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

| **Ysgol** | **Capasiti Llawn**<br>(D – Bl6) | **Nifer ar y gofrestr**<br>Medi 2021<br>(D – Bl6) | **Nifer o Lefydd Gwag**<br>2021 (M – Bl6) | **Categori Cyfreithiol** |
|---|---|---|---|---|
| **Bro Lleu** | 159 | 178 | -19 | **Ysgol Gymunedol** |

***Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2021***

## 3.9 Asesiad O Effaith Debygol Ar Y Gymuned

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd greu meini prawf yn unol â argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Dim newid | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Dim newid | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Mi fydd cynyddu y capasiti yn sicrhau digon o lefydd yn yr ysgolion ar gyfer holl blant y dalgylch a felly yn sicrhau addysg iddynt yn eu cymunedau | Positif |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Mi fydd cynyddu y capasiti yn sicrhau digon o lefydd yn yr ysgolion ar gyfer holl blant y dalgylch a felly yn sicrhau addysg iddynt yn eu cymunedau | Positif |

## 4. YSGOL LLANLLECHID

### 4.1 Yr Ysgol

Mae ysgol Llanllechid wedi ei lleoli uwchben Pentref Bethesda, sydd oddeutu 5 milltir o Ddinas Bangor.

Mae gan yr ysgol gapasiti meithrin i blwyddyn 6 o 249, gyda 270 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol. Mae hyn yn golygu fod yr ysgol dros gapasiti o 21 o blant (Cyfrifiad Medi 2021).

Ar hyn o bryd mae 10 dosbarth yn yr ysgol, dosbarth meithrin, 2 ddosbarth yn dysgu blwyddyn derbyn, dosbarth Blwyddyn 1, a dosbarth Blwyddyn 2. Mae 3 dosbarth yn addysgu blynyddoedd 3 a 4 gyda'u gilydd, un dosbarth i flwyddyn 5 a dosbarth arall i flwyddyn 6. Mae'r dosbarth mwyaf yn 32 o ddisgyblion, a'r dosbarth lleiaf yn 17 o ddisgyblion.

Oherwydd datblygiadau tai newydd a'r effaith ar rhagamcanion niferoedd, rhagwelir bydd niferoedd yn yr ysgol yn parhau i fod yn uchel dros y 5 mlynedd nesaf a bod felly angen dosbarth ychwanegol.

### 4.2 Y Dalgylch

Mae dalgylch yr ysgol wedi ei lleoli yn Nalgylch Uwchradd Dyffryn Ogwen ac hefyd o fewn tafliad carreg i'r Ysgol Uwchradd. Y dalgylchoedd gyfagos yw dalgylchoedd Ysgol Abercaseg/Penybryn ac Ysgol Tregarth.

Mae Ysgol Llanllechid wedi ei lleoli yn Arfon ac oddi fewn ward Rachub, ond wedi ei nodi fel ward Arllechwedd yng Nghyfrifiad 2011. Mae data diweddaraf (Cyfrifiad 2011) yn dangos fod poblogaeth ward Arllechwedd yn 1,398.

### 4.3 Yr Economi

Mae 1,015 o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Arllechwedd. Mae 722 yn weithgar yn economaidd. Mae 293 o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 33 o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (16.1%) yn gweithio yn y maes iechyd a gwaith cymdeithasol.

### 4.4 Crynodeb O'r Amrywiol Gyfleusterau Sydd Yn Y Cymunedau

Mae'r wybodaeth isod wedi ei gasglu am ardal yr ysgolion sydd o dan sylw:

| | |
|---|---|
| **Canolfan Gymuned Neuadd Bentref** | ✓ |
| **Capel/Eglwys** | ✓ |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | ✓ |
| **Siop** | ✓ |
| **Caffi/Tafarn** | ✓ |
| **Swyddfa Bost** | ✓ |
| **Meddygfa/Fferyllfa** | ✓ |
| **Llyfrgell** | ✓ |
| **Cae Chwarae Plant** | ✓ |
| **Banc** | X |
| **Cartref Henoed** | ✓ |

| | |
|---|---|
| **Canolfan Hamdden** | ✓ |
| **Garej** | ✓ |
| **Atyniad Twristaidd** | ✓ |
| **Cylch Ti a Fi + Meithrin** | ✓ |

***Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022***

## 4.5 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

| | |
|---|---|
| **Cylchoedd Meithrin/Ti a Fi** | ✓ |
| **Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)** | ✓ |
| **Adrannau'r Urdd** | ✓ |
| **Ymweliadau a Glan Llyn / Llangrannog / Caerdydd** | ✓ |
| **Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)** | ✓ |

***Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022***

## 4.6 Amddifadedd

Mae Ward Arllechwedd ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (rheng 855 allan o 1,909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai (gweler y tabl isod).

Nodir fod ward Arllechwedd ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig mewn 4 allan o'r 8 maes ac ymhlith y 10-20% mwyaf difreintiedig mewn 2 faes.

Mae crynodeb isod o sut mae ward Arllechwedd wedi ei leoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

| **Maes** | **Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd.<br>1 = mwyaf difreintiedig<br>1909 = lleiaf difreintiedig** | **Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru** |
|---|---|---|
| Incwm | 927 | ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig |

| | | |
|---|---|---|
| Cyflogaeth | 845 | ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig |
| Iechyd | 1,428 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Addysg | 1,499 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Mynediad i wasanaethau | 205 | ymhlith y 10-20% mwyaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 707 | ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 897 | ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig |
| Tai | 197 | ymhlith y 10-20% mwyaf difreintiedig |

## 4.7 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn (Mawrth 2016)

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Llanllechid gan arolygwyr Estyn:

*"Lleolir Ysgol Gynradd Llanllechid ar gyrion pentref Rachub ger tref Bethesda. Daw o dan ofal awdurdod lleol Gwynedd. Mae 261 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 31 o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng naw dosbarth. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol."*

## 4.8 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

| **Ysgol** | **Capasiti Llawn** (D – Bl6) | **Nifer ar y gofrestr** Medi 2021 (D – Bl6) | **Nifer o Lefydd Gwag** 2021 (D – Bl6) | **Categori Cyfreithiol** |
|---|---|---|---|---|
| **Llanllechid** | 213 | 243 | -20 | **Ysgol Gymunedol** |

### 4.9 Asesiad O Effaith Debygol Ar Y Gymuned

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd greu meini prawf yn unol â argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

| Positif | Niwtral | Negyddol |
| --- | --- | --- |

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
| --- | --- | --- |
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Dim newid | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Dim newid | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Mi fydd cynyddu y capasiti yn sicrhau digon o lefydd yn yr ysgolion ar gyfer holl blant y dalgylch a felly yn sicrhau addysg iddynt yn eu cymunedau | Positif |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Mi fydd cynyddu y capasiti yn sicrhau digon o lefydd yn yr ysgolion ar gyfer holl blant y dalgylch a felly yn sicrhau addysg iddynt yn eu cymunedau | Positif |

## 5. CRYNODEB

Yn dilyn ystyried effaith y cynnig ar y 3 cymuned ni ragwelir fydd cynyddu capasiti yr ysgolion drwy ychwanegu dosbarth yn cael unrhyw effaith negyddol ar y cymunedau.

Rhagwelir y bydd cynyddu y capasiti yn creu digon o le i holl blant cynradd y 3 ddalgylch gan greu seilwaith gadarn ar gyfer y cymunedau a chreu'r amodau gorau i'r iaith Gymraeg a ffyniant y cymunedau.

# Adroddiad Asesu Ansawdd a Safonau Addysg
# Ysgol Chwilog, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Llanllechid

## 1. YSGOL CHWILOG

Bu i Ysgol Chwilog gael ei harolygu gan Estyn yn Ionawr 2013 ble daethpwyd i'r casgliad mai digonol oedd perfformiad presennol yr ysgol ynghyd a'r rhagolygon gwella. Cydnabyddir fod yr ysgol wedi bod ar daith cymharol hir o ansefydlogrwydd yn arweinyddiaeth yr ysgol ac fod Pennaeth newydd yn ei swydd ers ychydig wythnosau.

Mae yr ysgol wedi cael arolygiad ym Mai 2022, ond nid yw'r adroddiad yn gyhoeddus hyd yma.

Mae crynodeb isod o arolygiad Ionawr 2013 yr ysgol.

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Pa mor dda yw'r deilliannau? | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Lefel y Dilyniant (os yn briodol) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Chwilog** | Ionawr 2013 | Digonol | Digonol | Anfoddhaol | Ebrill 2014 | Cynnydd Da |

### 1.1 Asesiad o Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Dim newid | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Dim newid | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Mi fydd ychwanegu dosbarth yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | Dim newid | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dim newid | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Dim newid | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Mi fydd ychwanegu dosbarth yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir. | Positif |

## 2. YSGOL BRO LLEU

Bu i Ysgol Bro Lleu gael ei harolygu gan Estyn yn Ionawr 2014 ble daethpwyd i'r casgliad mai da oedd perfformiad presennol yr ysgol gyda rhagolygon gwella yr ysgol yn ragorol. Cydnabyddir fod gan yr uwch reolwyr adnabyddiaeth drylwyr o anghenion yr ysgol a gweledigaeth glir ynghylch ei datblygiad; ac fod gan yr ysgol hanes llwyddiannus o arloesi gyda blaengaredd newydd gyda dulliau gwahanol o weithio.

Mae crynodeb isod o arolygiad Ionawr 2014 yr ysgol.

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Pa mor dda yw'r deilliannau? | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? |
|---|---|---|---|---|
| **Bro Lleu** | Ionawr 2014 | Da | Rhagorol | Rhagorol |

### 2.1 Asesiad o Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Dim newid | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Dim newid | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Mi fydd ychwanegu dosbarth yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | Dim newid | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dim newid | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Dim newid | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Mi fydd ychwanegu dosbarth yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir. | Positif |

## 3. YSGOL LLANLLECHID

Bu i Ysgol Llanllechid gael ei harolygu gan Estyn yn Mawrth 2016 ble daethpwyd i'r casgliad mai da oedd perfformiad presennol yr ysgol ynghyd a'r rhagolygon gwella. Nodir fod gan yr arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion ac fod gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella.

Mae crynodeb isod o arolygiad Mawrth 2016 yr ysgol.

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Pa mor dda yw'r deilliannau? | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? |
|---|---|---|---|---|
| **Llanllechid** | Da | Da | Da | Da |

## 3.1 Asesiad o Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Dim newid | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Dim newid | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Mi fydd ychwanegu dosbarth yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | Dim newid | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dim newid | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Dim newid | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Mi fydd ychwanegu dosbarth yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir. | Positif |

## 4. CASGLIAD

Yn dilyn cynnal asesiad effaith y cynnig ar ansawdd a safonau addysg, rydym o'r farn y byddai cynyddu capasiti yn y 3 ysgol drwy ychwanegu dosbarth yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir.

# Asesiad Effaith ar Drefniadau Teithio Ysgol Chwilog, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Llanllechid

## 1. POLISI CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, mae cludiant am ddim ar gael:

- ar gyfer dysgwyr sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin).
- pan fo dysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd yn byw llai na 2 filltir i ffwrdd o ysgol (neu safle ysgol) y dalgylch ac nad oes ganddynt felly hawl i gludiant di-dâl, ond yn teithio i ysgol ar hyd ffordd mae'r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn.

Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni:
(https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Talu-eich-ysgol/Gwybodaeth-i-Rieni-2019-20-2.pdf)

## 2. Y SEFYLLFA BRESENNOL

Ar hyn o bryd does 'run disgybl yn derbyn cludiant am ddim i Ysgol Bro Lleu, mae 4 yn derbyn cludiant am ddim i Ysgol Chwilog a 2 i Ysgol Llanllechid.

## 3. CASGLIAD

Gan ein bod yn edrych ar gynyddu capasiti y 3 ysgol er mwyn ymateb i rhagamcanion cynnydd o fewn eu dalgylchoedd, a'n rhagweld fydd cartrefi mwyafrif y plant o fewn 2 filltir I'r ysgol, gan gymryd y niferoedd presennol sy'n derbyn cludiant am ddim fel meincnod, ni ragwelir fydd unrhyw effaith o nod ar drefniadau teithio o ganlyniad i gynyddu capasiti yr ysgolion dan sylw.

CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod y Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 19 Gorffennaf 2022 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd y Cyngor |
| **Swyddog cyswllt:** | Sioned Williams<br>Pennaeth Economi a Chymuned |
| **Manylion cyswllt:** | sionedewilliams@gwynedd.llyw.cymru<br>01286 679547 \| MSTeams |
| **Teitl yr Eitem:** | CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DG |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Caniatáu Cyngor Gwynedd i ymgymryd â'r rôl 'awdurdod arweiniol' ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG i berwyl cyflwyno'r 'Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol' sy'n ofynnol gan Lywodraeth y DG ar ran chwe sir Gogledd Cymru.

1.2. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr – gytuno gyda siroedd eraill y Gogledd ar drefniadau gweinyddu a gweithredu priodol fydd yn gwarchod buddiannau'r Cyngor.

1.3. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned – mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr – gytuno ar gynnwys y 'Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol'.

1.4. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr – sefydlu trefniadau priodol ar gyfer cyflawni'r rhaglen yng Ngwynedd.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (UK Shared Prosperity Fund / UKSPF) yw un o'r cronfeydd amgen mae Llywodraeth y DG wedi'i sefydlu yn dilyn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

2.2. Mae dyraniad ariannol i Wynedd wedi'i gyhoeddi fel rhan o ddyraniad i Ogledd Cymru. I sicrhau mynediad i'r cyllid bydd angen cyflwyno 'Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol' cyn 01 Awst 2022 yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer defnydd y cyllid a'r bwriad ar gyfer ei weinyddu.

## 3. CYFLWYNIAD

### Cefndir

3.1. Pan adawodd y DG'r Undeb Ewropeaidd roedd ymrwymiad gan Lywodraeth San Steffan i ddarparu cyllid i ddigolledu cymunedau na fyddai'n derbyn arian Ewrop mwyach.

3.2. Mae Llywodraeth y DG yn bwriadu gweinyddu'r cyllid yn uniongyrchol drwy ddefnyddio'r grymoedd sefydlwyd drwy law Deddf Farchnad Mewnol y DU 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu bwriad Llywodraeth y DG a chadarnhawyd safiad Llywodraeth Cymru gan Weinidog yr Economi mewn datganiad ysgrifenedig ar 07 Mehefin 2022.

3.3. Mae'r cyllid yn rhan o agenda ffyniant bro ehangach Llywodraeth y DG fel yr amlinellir yn eu Papur Gwyn Ffyniant Bro ac, yn fwyaf diweddar, yn y Bil Ffyniant Bro sydd wedi ei gyflwyno i Senedd San Steffan.

3.4. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth y DG wedi cyhoeddi pedair rhaglen buddsoddi:

- y Gronfa Ffyniant Bro (Levelling Up Fund / LUF);
- y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol (Community Ownership Fund);
- Y Gronfa Adfywio Cymunedol (Community Renewal Fund / CRF - *bellach wedi cau*); a,
- **Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU** (UK Shared Prosperity Fund / UKSPF).

3.5. Ceir amlinelliad o'r holl gronfeydd ar wefan y Cyngor a gwybodaeth bellach ar wefan Llywodraeth y DG.

### Gorolwg o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG

3.6. Cyhoeddwyd prosbectws Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (UKSPF) ar 13 Ebrill 2022. Bydd y Gronfa yn dosbarthu £2.6 biliwn o gyllid ar draws y DG erbyn Mawrth 2025.

3.7. Bydd pob rhan o'r DG yn derbyn rhan o'r arian gyda'r cyllid wedi ei ddethol i ardaloedd unigol ar sail fformiwla.

3.8. Dyraniad Gwynedd ar gyfer y cyfnod hyd at Mawrth 2025 yw £24.4 miliwn. Mae £4.2 miliwn o'r cyfanswm wedi ei warchod i gefnogi oedolion wella eu sgiliau rhifedd.

3.9. Mae'r dyraniad wedi'i broffilio i gynyddu drwy gydol y cyfnod gydag isafswm o arian cyfalaf wedi ei bennu yn flynyddol (gellir cynyddu'r swm cyfalaf pe ddymunir).

3.10. Prif nod datganiedig y Gronfa yw *meithrin balchder mewn lle a chynyddu cyfleoedd bywyd ledled y DG*. Mae tri 'Blaenoriaeth Buddsoddi' ar gyfer y Gronfa sydd i gyd gydag amcanion unigol:

a) Cymunedau a lle

b) Cynorthwyo Busnesau Lleol

c) Pobl a Sgiliau

3.11. Rhestrir 53 o ymyriadau unigol wedi eu dethol ymhlith y Blaenoriaethau Buddsoddi ynghyd â detholiad o allbynnau a dangosyddion o fewn dogfennau atodol ar wefan Llywodraeth y DG.

3.12. Mae'r Prosbectws yn awgrymu gellid gweithredu'r Gronfa drwy un, neu gyfuniad o, grantiau cystadleuol (y dull ffafredig), caffael / comisiynu neu gyflawni uniongyrchol drwy law timau o fewn sefydliadau cyhoeddus.

3.13. Ellid hefyd dewis gwireddu cynlluniau ar draws mwy nac un ardal leol ac anogir gweithgaredd rhanbarthol, ble'n briodol, yng Nghymru (wele isod).

## Cydweithio Rhanbarthol

3.14. Yn Lloegr, bydd y cyllid yn mynd yn uniongyrchol i siroedd unigol i'w ddefnyddio neu ddosbarthu ar sail 'Cynllun Buddsoddi Lleol' wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth y DU.

3.15. Yng Nghymru (a'r Alban), mae'n ofynnol i ardaloedd lleol gydweithio gydag eraill o fewn eu rhanbarth (Gogledd Cymru yn achos Gwynedd).

3.16. Mae'r dyraniad o £24.42 miliwm i Wynedd yn rhan o £126.46 miliwn sydd wedi ei ddyrannu i siroedd Gogledd Cymru.

3.17. I sicrhau mynediad i'r dyraniad, mae'n angenrheidiol llunio a chyflwyno 'Cynllun Buddsoddi *Rhanbarthol*' i'w gymeradwyo gan Lywodraeth y DU. Mae'n ofynnol cyflwyno'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol cyn 01 Awst 2022.

3.18. Mae'r Cynllun ar ffurf ffurflen safonol fydd yn dwyn ynghyd dymuniadau'r siroedd unigol a'r rhanbarth yn ei gyfanrwydd. O fewn y ffurflen bydd angen amlinellu:

- heriau / cyfleoedd yn gysylltiedig â phob blaenoriaeth buddsoddi
- dewis / meintioli allbynnau a chanlyniadau
- dewis ymyriadau
- daprau tystiolaeth o ymgysylltu
- cadarnhau trefn lywodraethu / gweinyddu
- cynnig dull dewis prosiectau / cyflawni
- dethol / proffilio'r gwariant

3.19. Un 'Awdurdod Arweiniol' fydd yn atebol am yr arian ar ran rhanbarth gan ddethol y cyllid i'r siroedd eraill neu yn uniongyrchol i gynlluniau petai cytundeb i'w gwireddu ar draws y rhanbarth (caniateir defnydd cyfran o'r dyraniad ariannol i sicrhau adnoddau priodol i gyflawni'r gwaith).

3.20. Mae Prif Weithredwyr y Gogledd wedi gofyn i Gyngor Gwynedd - gyda chefnogaeth Swyddfa Rheoli Rhaglen, Uchelgais Gogledd Cymru - gyflawni'r rôl 'Awdurdod Arweiniol' yn ystod cyfnod datblygu a chyflwyno'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol.

### Cyflawni'n lleol

3.21. Er fod rôl a phwyslais ar gydweithio rhanbarthol yng nghyd-destun y UKSPF, gwneud gwahaniaeth i fywydau trigolion lleol yw'r perwyl ac mae pob sir yng Ngogledd Cymru yn gytûn:

- fod angen i ardaloedd elwa yn unol â gwerth eu dyraniad unigol;
- mai mater i ardaloedd lleol yw penderfynu ar ddefnydd eu cyllid; ac,
- dewis ardaloedd lleol yw cefnogi cynlluniau yn gweithredu ar draws siroedd.

3.22. Mae prosbectws y Gronfa hefyd yn nodi rôl bwysig i bartneriaid yng nghefnogi'r awdurdod lleol i sicrhau llwyddiant yr UKSPF o fewn ardal, yn cynnwys cynghori ar gynlluniau unigol fydd yn ymgeisio am arian.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1. Cyngor Gwynedd yw corff lletya Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r Cyngor, felly, eisoes yn cyflawni rôl 'awdurdod arweiniol' i'r rhanbarth o fewn y maes datblygu'r economi.

4.2. Mae ymestyn y rôl ar gyfer cam cychwynnol yr UKSFP - sef llunio a chyflwyno Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol - yn esblygiad naturiol o'r swyddogaeth bresennol ac yn caniatáu amser digonol i chwe sir y Gogledd gytuno ar eu dymuniadau i'r dyfodol.

4.3. Yng ngoleuni'r amserlen ar gyfer llunio'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol a chytuno'r trefniadau ar gyfer gweinyddu a gweithredu'r Gronfa a'r angen i gyfarch dymuniadau holl siroedd y Gogledd; bydd y gwaith yn parhau hyd at ddiwedd Gorffennaf.

4.4. Mae strwythurau a threfniadau clir yn eu lle ar gyfer cyflawni'r gwaith, yn cynnwys gweithgor o Uwch Swyddogion yn arwain a grŵp cydlynu i gyflawni'r tasgau caib a rhaw.

4.5. Bydd gwaith i fanylu ar y trefniadau cyflawni a chreu strwythurau / gweithdrefnau priodol yn lleol ac y rhanbarthol yn parhau dros gyfnod yr haf ar ôl cyflwyno'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. Mae'n ofynnol cyflwyno Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol rhanbarth Gogledd Cymru i Lywodraeth y DG cyn 01 Awst 2022.

5.2. Yn amodol ar dderbyn ymateb Llywodraeth y DG, rhagwelir y bydd Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yn cychwyn gweithredu yn ystod tymor yr Hydref.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1. Mae cyrchu barn ac adborth rhaddeiliaid a thrigolion yn rhan bwysig o'r drefn i sefydlu Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol a gwireddu'r UKSPF yn lleol.

6.2. Yng Ngwynedd mae proses sylweddol ar waith i gyrchu barn ynglŷn â'r meysydd angen sylw, y cydbwysedd rhwng meysydd a'r dulliau gorau o gyflawni. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- sefydlu tudalen benodol ar wefan y Cyngor
- cyfres o weithdai cyhoeddus i sefydliadau a thrigolion lleol
- sesiynau briffio i Aelodau ac Adrannau'r Cyngor
- ymgynghori unigol gyda phrif rhanddeiliaid lleol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector
- ymgysylltu gydag Aelodau Senedd Cymru a San Steffan

6.3. Mae'r ymgynghori lleol gan bob sir unigol yn cael ei ategu'n rhanbarthol, yn arbennig o fewn y meysydd Pobl a Sgiliau a Chefnogi Busnesau Lleol.

6.4. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

*'Bydd yn allweddol sicrhau fod y trefniadau gyda'r cynghorau yn creu cyfundrefn sydd yn hwyluso cyflawni y gwriant. Fodd bynnag, mae angen cydnabod hefyd fod gweithredu fel corff arweiniol ar brosiect o'r math yma yn creu cyfrifoldebau ac atebolrwydd sydd angen ei gyfarch yn briodol drwy drefniadau cytundebol a'u pasio mlaen i'r sawl sydd yn derbyn yr arian.'*

6.5. Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:

*'Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Bydd gweithredu'r penderfyniadau a geisir yn caniatáu i'r Cyngor symud ymlaen i roi trefniadau priodol yn eu lle i weithredu fel awdurdod arweiniol, trwy gydweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru, yn ogystal â galluogi Cyngor Gwynedd i gael mynediad i'w ddyraniad o'r gronfa.*

*Mae gwaith arwyddocaol yn parhau o'n blaenau wrth ddatblygu'r cynlluniau addas, ac i ddod i gytundeb cynnar gyda'n partneriaid yn yr awdurdodau lleol eraill ar fecanwaith priodol fydd yn amddiffyn buddiannau Cyngor Gwynedd tra'n gweithredu fel awdurdod arweiniol.'*

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod y Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 19 Gorffennaf 2022 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd y Cyngor |
| **Swyddog cyswllt:** | Sioned Williams<br>Pennaeth Economi a Chymuned |
| **Manylion cyswllt:** | sionedewilliams@gwynedd.llyw.cymru<br>01286 679547 \| MSTeams |
| **Teitl yr Eitem:** | AIL WEDD Y RHAGLEN ARFOR |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyo ail wedd y Rhaglen fel a'i hamlinellir yn yr adroddiad gan awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr - gytuno ar gynnwys y rhaglen yn derfynol.

1.2. Cytuno i Gyngor Gwynedd i arwain ar ail wedd y Rhaglen ARFOR ar ran Cynghorau Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr o ran rheoli cytundeb ariannol Llywodraeth Cymru, gwireddu'r cynlluniau ar y cyd o fewn y Rhaglen a chydlynu/gweinyddu'r Rhaglen yn ei gyfanrwydd.

1.3. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned - gyda'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol - adolygu a diweddaru'r trefniadau llywodraethu rhwng y pedair sir gan gyflwyno adroddiad pellach petai angen.

1.4. Ar sail derbyn cytundeb mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru i ail wedd y Rhaglen, caniatáu symud ymlaen i benodi Rheolwr Rhanbarthol ARFOR.

1.5. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned sefydlu trefniadau priodol ar gyfer cyflawni'r rhaglen yng Ngwynedd.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Yn dilyn llwyddiant y Rhaglen ARFOR, mae £11 miliwn wedi ei ymrwymo gan Lywodraeth Cymru i wedd bellach o'r Rhaglen hyd at Fawrth 2025.

2.2. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno derbyn cynnig gan Gynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr ynglŷn â defnydd y gyllideb a rheolaeth y Rhaglen.

## 3. CYFLWYNIAD

### Gwedd gyntaf y Rhaglen ARFOR

3.1. Yn 2019, yn dilyn cytundeb cyllidebol rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, darparwyd £2 miliwn i Gynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr i dreialu dulliau arloesol o gefnogi'r economi yng nghadarnleoedd y Gymraeg (y Rhaglen ARFOR).

3.2. Roedd y Rhaglen yn weithredol hyd at ddiwedd 2020/21 a Chyngor Gwynedd oedd yn arwain / cydlynu'r Rhaglen ar gais y siroedd eraill.

3.3. Yng Ngwynedd, gwireddwyd y cynlluniau canlynol drwy law'r Rhaglen ARFOR:

- *Cymorth i Fentro* – pecyn o gyngor a chymorth ariannol i fusnesau oedd am fentro a chreu swyddi newydd
- *Gofod Gwneud* – sefydlu canolfan Ffiws ym Mhorthmadog i roi cyfle i fusnesau lleol a'r gymuned ddefnyddio offer a thechnoleg newydd
- *Her Cymunedau Mentrus* - darparwyd cefnogaeth i Bartneriaeth Ogwen, Bethesda; Canolfan Henblas, Y Bala a Menter y Plu, Llanystumdwy i ddatblygu mentrau cymdeithasol sy'n cylchdroi arian o fewn eu cymunedau a chreu swyddi
- *Llwyddo'n Lleol 2050* – i gefnogi pobl ifanc lleol i fentro o fewn eu cymunedau ac ysbrydoli eraill i ddilyn eu hesiampl
- *Bwrlwm ARFOR* - cynllun ledled y pedair sir i hyrwyddo enghreifftiau o lwyddiant lleol ac annog defnydd o'r Gymraeg

3.4. Amharwyd yn sylweddol ar gyfnod gweithredu'r Rhaglen gan y pandemig coronfeirws. Er gwaetha COVID-19, a'r gyllideb gymedrol, adroddodd Gwerthusiad y Rhaglen ei fod wedi gwneud gwahaniaeth yn cynnwys cefnogi creu 65 o swyddi newydd yng Ngwynedd.

3.5. Yn fwyaf arwyddocaol, amlygodd gwedd gyntaf y Rhaglen y diffyg data ynglŷn â'r rhyngberthynas rhwng ffyniant economaidd a chyflwr y Gymraeg; amlygwyd yr angen am fuddsoddiad pellach a sefydlwyd yr arfer o gydweithio ymhlith Aelodau a swyddogion y pedair sir.

## Ail wedd y Rhaglen ARFOR

3.6. Ar sail canlyniadau gwedd gyntaf y Rhaglen, drwy law'r Cytundeb Cydweithio rhwng y Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae £11 miliwm pellach wedi ei sicrhau i gynnal ail wedd i'r Rhaglen (ARFOR II) hyd at Fawrth 2025.

3.7. Yn Ebrill 2022, cyflynodd Bwrdd ARFOR (sef Arweinyddion y pedair Sir) 'Cynnig Amlinellol' ar gyfer ail wedd y Rhaglen i Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn gosod allan rhesymeg, pwrpas, amcanion strategol ac egwyddorion y Siroedd ar gyfer ARFOR II. Amgeir y Cynnig Amlinellol yn Atodiad 1.

3.8. Cadarnhawyd dymuniad i barhau i gydweithio ar sail y pedair sir, i'r pwrpas canlynol:

*Cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyraethau economaidd fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.*

3.9. Mewn ymgynghoriad gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (yr Adran Economi a'r Uned Iaith Gymraeg) mae swyddogion y pedair sir wedi datblygu cynigion ar gyfer trosi'r amcanion strategol yn brosiectau i'w cyflawni.

## Prosiectau arfaethedig ARFOR II

3.10. **Llwyddo'n Lleol 2050**

Esblygiad o'r prosiect i gefnogi pobl ifanc i fentro o fewn eu cymunedau cynhenid oedd yn weithredol yng Ngwynedd a Môn yn unig yn ystod gwedd gyntaf y Rhaglen ARFOR ar draws y pedair sir.

Bydd y cynllun parhau i gefnogi pobl ifanc i fentro drwy gyfuniad o gefnogaeth a chymorth ariannol ond hefyd yn ymestyn i gefnogi teuluoedd ifanc i aros neu ddychwelyd i'r ardal ynghyd â cheisio newid canfyddiadau'r grwpiau targed ynglŷn â'u gallu i gyflawni eu dyheadau yn lleol.

Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ac yn cael ei wireddu'n rhanbarthol drwy law comisiwn wedi ei reoli gan yr awdurdod arweiniol.

3.11. **Cymunedau Mentrus**

Adeiladu ar y cronfeydd cefnogi busnes llwyddiannus oedd ar gael gan y pedair sir yn ystod gwedd gyntaf y Rhaglen ARFOR drwy ddarparu cefnogaeth ariannol ac ymarferol i fentrau masnachol, cymdeithasol a chymunedol i sefydlu a datblygu.

Bydd y gweithgaredd yn canolbwyntio ar fentrau sydd yn manteisio ar rinweddau unigryw eu cymunedau (yn cynnwys y Gymraeg) ac/neu sydd yn cylchdroi arian o fewn eu hardal er mwyn cynyddu faint o gyfoeth sydd yn cael ei gadw'n lleol.

Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ond yn cael ei wireddu'n lleol gan y siroedd unigol (er gyda phwyslais ar gydlynu a chysoni'r ddarpariaeth).

### 3.12. Cronfa Her ARFOR

Sefydlu cronfa strategol i ganiatáu sefydliadau (yn cynnwys y Cynghorau) i sicrhau adnoddau i ddatblygu a threialu gweithgareddau o fewn ardal ARFOR fydd yn cyflawni amcanion strategol y Rhaglen.

Bydd y Gronfa yn ymateb i'r casgliadau yng ngwerthusiad gwedd gyntaf y Rhaglen ARFOR fod angen cynnig cyfle i ystod ehangach o sefydliadau gyda diddordeb yn y maes i gyfrannu ac yn caniatáu i weithgaredd newydd gael ei gomisiynu yn ystod oes ARFOR II

Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ac yn cael ei reoli'n rhanbarthol gan yr awdurdod arweiniol gyda mewnbwn yr holl siroedd.

### 3.13. Cryfhau hunaniaeth cymunedau ARFOR

Bydd y cynllun yn adeiladu ar waith blaenorol i hyrwyddo arfer da a'r defnydd o'r Gymraeg.  Bydd y gwaith yn hyrwyddo hunaniaeth cymunedau gyda dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg ac yn sbarduno teyrngarwch trigolion lleol drwy ledaenu negeseuon cadarnhaol am eu hardal a Gorllewin Cymru yn ei gyfanrwydd.

Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ac yn cael ei wireddu'n rhanbarthol drwy law comisiwn wedi ei reoli gan yr awdurdod arweiniol.

### 3.14. Dysgu o'r Rhaglen ARFOR

Rhinwedd allweddol o'r Rhaglen ARFOR yw sbarduno cydweithio a rhaeadru dysg ynglŷn â'r maes

Bydd y cynllun yn sicrhau fod monitro a gwerthuso canlyniadau ac ardrawiad ARFOR yn ganolog i'r Rhaglen ynghyd â sicrhau fod strwythurau i rannu'r gwersi o'r Rhaglen a'i weithgaredd yn cael eu sefydlu o'r cychwyn.

Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ac yn cael ei wireddu'n rhanbarthol drwy law comisiwn wedi ei reoli gan yr awdurdod arweiniol.

## Rheoli / gweinyddu ARFOR II

3.15. Bydd ail wedd y Rhaglen ARFOR yn parhau i gael ei arwain gan Fwrdd yn cynnwys Arweinyddion y pedair sir. Bydd y Bwrdd yn cael ei gefnogi gan Grŵp Swyddogion yn cynnwys swyddogion uwch yn cynrychioli'r pedair sir, ynghyd â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

3.16. Mae siroedd Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr eisoes wedi datgan dymuniad i Gyngor Gwynedd barhau i gydlynu / arwain y rhaglen ar ran y pedair sir.

3.17. Mae cytundeb cyfreithiol rhwng y siroedd eisoes wedi ei sefydlu ar gyfer gwedd gyntaf y Rhaglen ARFOR. Bydd y cytundeb presennol yn cael ei adolygu i sicrhau gwarchodaeth i fuddiannau Cyngor Gwynedd yng ngoleuni'r cynnydd yng nghyllideb ARFOR II a'r dymuniad i gomisiynu rhai gweithgareddau ar y cyd.

3.18. Yn yr un modd, gan adlewyrchu'r cynnydd yn gyllideb y Rhaglen a'r pwyslais cynyddol ar gydweithio rhanbarthol bwriedir sefydlu tîm rhanbarthol - drwy law Cyngor Gwynedd - i reoli'r Rhaglen ynghyd â sicrhau adnodd addas i gydlynu'r gwaith yn y siroedd unigol. Dymunir gyrru ymlaen i benodi Rheolwr i'r Rhaglen cyn gynted ag y bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau eu bod yn fodlon gyda'r bwriad ar gyfer ARFOR II.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1. Mae'r gweithgaredd arfaethedig ar gyfer ail wedd y Rhaglen ARFOR yn esblygiad o weithgaredd blaenorol y rhaglen gan roi sylw penodol i'r gwersi a ddysgwyd.

4.2. Cyngor Gwynedd sydd wedi ymgymryd â'r rôl 'awdurdod arweiniol' ar gyfer y Rhaglen ARFOR yn flaenorol a dymunir parhau gyda'r trefniant gan fanteisio ar yr arbeniged sydd eisoes yn bodoli yn y Cyngor.

4.3. Bydd angen symud yn gyflym i wireddu'r Rhaglen wedi'i Llywodraeth Cymru gytuno ar y cynnwys, i'r perwyl bydd angen sicrhau fod adnodd priodol i arwain ar waith cyn gynted â phosib.

4.4. Bydd gwaith i fanylu ar y trefniadau cyflawni a chreu strwythurau / gweithdrefnau priodol yn lleol ac y rhanbarthol yn parhau dros gyfnod yr haf.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. Bydd cyfarfod pellach rhwng Bwrdd ARFOR, Gweinidog Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd Phlaid Cymru yn yr wythnosau nesaf.

5.2. Bydd cynnig ffurfiol y pedair sir yn cael ei gyflwyno yn dilyn y drafodaeth.

5.3. Yn amodol ar dderbyn ymateb Llywodraeth Cymru, rhagwelir y bydd ARFOR II yn cychwyn gweithredu yn ystod tymor yr Hydref.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

*'Fel nodir yn yr adroddiad, bydd y cytundeb cyfreithiol a'r trefniadau llywodraethu rhwng y siroedd yn cael eu hadolygu yn sgil y datblygiadau yma a chyflwynir adroddiad pellach os bydd angen.'*

6.2. Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:

*'Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir. Gallaf gadarnhau'r wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad, a bydd yr Adran Gyllid yn cefnogi swyddogion Economi a Chymuned wrth weithredu'r cynllun hwn.'*

ARFOR Gwedd II (2022/23 – 2024/25)

# CYNNIG AMLINELLOL

## Rhesymeg

Yn Sir Gâr, Gwynedd, Ceredigion ac Ynys Môn ceir y mwyafrif llethol o'r cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'r cymunedau hyn yn allweddol i gynnal bywiogrwydd y Gymraeg a'i barhad yn iaith beunyddiol.

Mae heriau economaidd y bedair sir – megis cyflogau isel, tan-gyflogaeth a gweithlu sy'n crebachu - yn gyffredin i llawer o ardaloedd gwledig ac ymylol yng Nghymru a thu hwnt; ond mae ardrawiad yr heriau hyn ar y Gymraeg yn unigryw ac yn bellgyrhaeddol.

Mae ffyniant cadarnleoedd y Gymraeg yn amodol ar fwy na gwaith a thâl, ond gellir rhesymu fod anallu'r economi i gefnogi trigolion i gyflawni eu dyheadau - a cynnal llefydd llewyrchus - yn andwyol.

## Pwrpas

Cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyraethau economaidd fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.

## Amcanion strategol

1. **Creu cyfleoedd i pobl a teuluoedd ifanc (≤ 35 oed) aros neu i ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid** - gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy fentro neu ddatblygu gyrfa a sicrhau bywoliaeth sydd yn cyflawni eu dyheadau.
2. **Creu cymunedau mentrus o fewn y fro Gymraeg** - drwy gefnogi mentrau masnachol a chymunedol sy'n anelu i gadw a chynyddu cyfoeth lleol gan fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw eu hardaloedd.
3. **Uchafu budd gweithgaredd drwy gydweithio** - drwy sefydlu meddylfryd dysgu drwy wneud a gwella parhaus, dysgu o weithgaredd o fewn ardaloedd unigol ac yna ei ymestyn, ond gyda teilwra i amgylchiadau lleol.
4. **Cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg** - drwy gefnogi defnydd a gwelededd y Gymraeg, annog naws

am le a theyrngarwch lleol, ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyffredin ar draws yr rhanbarth.

### Egwyddorion gweithredu

- Cydweithio, cyd-gynllunio a rhannu gwersi.
- Cynyddu dealltwriaeth o'r broblem a gwella'n barhaus gan adeiladu ar yr hyn gyflawnwyd yn ystod gwedd gyntaf ARFOR.
- Sicrhau fod gwerthuso yn rhan integredig o'r rhaglen.
- Ychwanegu gwerth ac ategu gweithgareddau prif ffrwd (datblygu ieithyddol a datblygu economaidd) neu cyfarch blychau yn y darpariaeth.
- Canolbwyntio ymdrech ar nifer bach o themâu craidd fel bo modd mesur effaith ond parhau i dorri tir newydd a threialu syniadau.
- Gweithredu ar sail pedair sir gyda golwg ar wersi i ardaloedd eraill a'r sgôp i ymestyn ffiniau daearyddol yn y dyfodol.
- Cyfrannu'n gadarnhaol i themâu llorweddol; lleihau ôl troed carbon, sgiliau, arloesedd a'r defnydd o dechnoleg.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Gorffennaf 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Sioned E Williams, Pennaeth Adran Economi a Chymuned a**<br>**Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd** |
| **Rhif Cyswllt:** | **32547** |
| **Pwnc:** | **Y Gronfa Ffyniant Bro** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

a. I gefnogi'r bwriad o dargedu Cronfa Ffyniant Bro, Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer cynlluniau Bywiogi Bangor, Llewyrch o'r Llechi, a Coridor Gwyrdd Ardudwy;
b. Awdurdodi'r Pennaeth Cyllid ar y cyd a Phennaeth Economi a Chymuned a Phennaeth Amgylchedd i gytuno ar fanylion y ceisiadau, i arwyddo ceisiadau ac i arwyddo llythyrau cynnig, os yn llwyddiannus, ar gyfer cynlluniau Ffyniant Bro Gwynedd;
c. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Amgylchedd a'r Pennaeth Cyllid i arwyddo ceisiadau a llythyrau cynnig wrth dargedu pecynnau cyllidol llawn ar gyfer gwireddu y cynlluniau hyn.

---

**RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Mae tri cais sylweddol wedi eu paratoi gan yr Adran Economi a Chymuned ac Adran Amgylchedd. Gofynnir am yr hawl i gyflwyno'r ceisiadau hyn i Gronfa Codi'r Gwastad, Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Ar 23 o Fawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Prydain fanylion am ail rownd Cronfa Ffyniant Bro https://www.gov.uk/government/collections/new-levelling-up-and-community-investments#the-levelling-up-fund-round-2 . Mae'n un o becyn o gronfeydd sydd wedi eu lansio ganddynt yn sgil gadael Yr Undeb Ewropeaidd a mynediad at y Cronfeydd Strwythurol oedd ar gael fel Aelod Wladwriaethol.

1.2. Dros gyfnod 2021/22 - 2024/25 mae hyd at £4.8bn o gyllid cyfalaf ar gael gyda Llywodraeth y DU yn gwarantu isafswm o £240m (5%) i Gymru. Uchafswm ceisiadau yw £20m gyda phosibilrwydd i gynlluniau trafnidiaeth a diwylliannol fod hyd at £50m. Mae'n broses

ymgeisio gystadleuol drwy'r DU. Ni fu cais o becyn o gynlluniau adfywio a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd yn rownd 1 y gronfa yn 2021 yn llwyddiannus.

1.3. Nod y gronfa yw buddsoddi mewn cynlluniau isadeiledd lleol, gweledol ac o ansawdd yn y meysydd trafnidiaeth, adfywio a chanol trefi ynghyd a buddsoddiadau diwylliannol. Ceir pwyslais arbennig at ardaloedd ôl-ddiwydiannol, trefi difreintiedig a chymunedau arfordirol. Bydd y gronfa yn parhau eleni i fuddsoddi mewn prosiectau o dan y 3 themâu canlynol:

- Trafnidiaeth
- Adfywio Canol Tref
- Diwylliant

1.4. Mae modd i bob Awdurdod Lleol gyflwyno un cais Trafnidiaeth ac 1 cais Adfywio Canol Trefi neu Ddiwylliant i bob etholaeth. Mae pob cais unigol yn gallu cynnwys hyd at 3 ardal cod post gwahanol. Golygai hyn byddai Cyngor Gwynedd yn gallu cyflwyno 2 gais Adfywio neu Ddiwylliant yr un ac 1 cais Trafnidiaeth.

1.5. Un prif newid erbyn eleni yw bod Gwynedd wedi codi o gategori blaenoriaeth 3 i gategori blaenoriaeth 1. Mae hyn i'w groesawu ac yn debygol o gryfhau ceisiadau Gwynedd.

1.6. Yn unol â'r canllawiau, roedd ystyriaethau pellach yn gysylltiedig a'r math o geisiadau oedd modd eu cyflwyno megis aeddfedrwydd, gwerth, cyfnod cychwyn a cwblhau'r gwariant, niferoedd o safleoedd y gellir eu cynnwys mewn un cais ynghyd a chydariannu (o leiaf 10%).

1.7. Mae estyniad ar ddyddiad cau y Gronfa. Er hyn, disgwylir y bydd dyfarniad y Gronfa yn yr hydref. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd rownd 3 ar gyfer y gronfa, ond os bydd arian o'r gronfa heb ei ymrwymo tro hwn, bydd gwahoddiad i Awdurdodau Lleol gyflwyno ceisiadau pellach.

## 2. RHESYMEG A CHYFIANWHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

2.1. Yn dilyn derbyn adborth Llywodraeth Prydain ar gais 'Glannau' Cyngor Gwynedd ac yn unol a'r themâu a'r materion gweithredol yn gysylltiedig a'r Gronfa cynhaliwyd ymarferiad sgopio traws adrannol i edrych ar bosibiliadau ymarferol. Dylid nodi fod lefel y diddordeb a'r cysyniadau a drafodwyd yn eang ond i gydymffurfio a gofynion gweithredol y gronfa dim ond nifer fychan o gynlluniau oedd yn ymarferol i'w hystyried ar sail eu bod yn ddigon aeddfed, o fewn y gyllideb, yn gael gweithredu o fewn amserlen dynn ac yn ymateb yn uniongyrchol i'r meini prawf.

Cynllun Bywiogi Bangor

2.2. Mae Cynllun Bywiogi Bangor yn gynllun sydd yn ymateb i thema blaenoriaeth ***buddsoddi mewn adfywio canol trefi*** y Gronfa. Mae'n becyn gwerth oddeutu £40M i ganol dinas Bangor sydd yn cyplysu ymyraethau sydd yn gysylltiedig a iechyd a lles gyda ail-bwrpasu'r Stryd Fawr ac adfywio canol y ddinas. Y nod yw y bydd y pecyn hwn yn arwain at adfywiad economaidd, buddsoddiadau hir dymor a chreu cyflogaeth.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Datblygiad Canolfan Iechyd a Lles mewn safle strategol yng nghanol dinas Bangor;
- Gwelliannau amgylcheddol i Bae Hirael (yn gysylltiedig a'r gwaith amddiffyn yr arfordir) ynghyd a cysylltiadau teithio llesol rhwng Bae Hirael a Port Penrhyn a Chanol y Ddinas;
- Gwedd gyntaf o'r gwaith o sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ym Mangor yn un o adeiladau y Brifysgol ar Ffordd y Deon.

Ceir gwybodaeth ariannol bellach yn Atodiad 1. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i Gabinet er mwyn cyflwyno pecyn ariannol llawn ac ystyried cyfraniad ar ffurf benthyciad gan Cyngor Gwynedd.

Mae'r cynllun ym Mangor yn ymateb yn llawn i waith Partneriaeth Strategol Bangor a'r blaenoriaethau'r Strategaeth a Gweledigaeth Bangor (2015) a gomisiynwyd ganddynt. Cefnogir y cynllun hefyd gan Grŵp Arweinyddiaeth Bangor sydd wedi ei sefydlu rhwng Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor i edrych ar drosolwg buddsoddiadau sylweddol o fewn y Ddinas.

Disgwylir i'r cynllun gyfrannu tuag at allbynnau a chanlyniadau megis y rhai canlynol:

- Adfer ac ail-bwrpasu adeiladau gwag/segur yng nghanol y ddinas;
- Cynyddu nifer o ddefnyddwyr yng nghanol y ddinas;
- Creu a gwarchod cyflogaeth a cynyddu gwariant yng nghanol y ddinas;
- Gwelliannau i amgylchedd a mannau cyhoeddus o fewn y ddinas;
- Gwarchod yr arfordir;
- Creu a datblygu cysylltiadau teithiau llesol;

Cynllun Coridor Gwyrdd Ardudwy

2.3. Mae Cynllun Coridor Gwyrdd Ardudwy yn ymateb i thema blaenoriaeth ***buddsoddi mewn trafnidiaeth*** y Gronfa. Mae'n becyn gwerth oddeutu £40M sydd yn cynnwys adeiladu ffordd newydd i osgoi pentref Llanbedr, chreu mynediad newydd i'r maes awyr presennol yn ogystal â chyflwyno gwelliannau ehangach i'r ddarpariaeth cerdded a beicio, safleoedd bws a gwasanaeth gwefru ceir trydanol ar hyd coridor y A496 yn ardal Ardudwy.

Mae Atodiad 1 yn cynnig gwybodaeth bellach am y manylion ariannol. Bydd Cyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth efo Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i adnabod cronfeydd cydariannu a bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i gyflwyno'r pecyn llawn.

Disgwylir i'r cynllun gyfrannu tuag at allbynnau a chanlyniadau megis y canlynol:

- Uwchraddio y ddarpariaeth o lwybrau teithio llesol yn yr ardal;
- Gwella y mynediad i drafnidiaeth cyhoeddus (bysiau a threnau) yn yr ardal;
- Cynnig darpariaeth i ddefnyddwyr ceir trydan drwy yr ardal;
- Gwella diogelwch a rheolaeth traffig ym mhentref Llanbedr;
- Datblygu isadeiledd er mwyn uchafu ar botensial economaidd, i'r ardal gyfan, o Faes Awyr Llanbedr i'r dyfodol.

Llewyrch o'r Llechi

2.4. Mae cynllun Llewyrch o'r Llechi yn becyn gwerth oddeutu £27M o gynlluniau ar draws dyffrynnoedd llechi Gwynedd sydd yn ymateb i'r thema ***buddsoddi mewn diwylliant***.

Mae’n adnabod cyfleon i uchafu ar y buddion i’r gymuned leol a’r economi yn sgil dynodiad Safle Treftadaeth y Byd yn ôl yn 2021. Mae’n gynllun sydd yn cynnig cyfleoedd a chyflogaeth i’r ac yn cynnig datblygiadau sydd yn cyfrannu tuag at adfywio y cymunedau hyn.

Mae’r pecyn yn cynnwys:

- Hwb Dinorwig – pecyn o gynlluniau i uwchraddio darpariaeth yr Amgueddfa Lechi, Parc Padarn a chysylltiadau efo’r chwareli yn ardal Llanberis;
- Hwb Ogwen – pecyn o gynlluniau i uwchraddio adeilad yng nghanol tref Bethesda i wella’r cynnig diwylliannol a threftadaeth ynghyd a gwella’r cysylltiadau rhwng canol y dref a phrif atyniadau;
- Hwb Ffestiniog - pecyn o gynlluniau i uwchraddio adeiladau yng nghanol tref Blaenau Ffestiniog i wella’r cynnig diwylliannol a threftadaeth ynghyd a gwella’r cysylltiadau rhwng canol y dref a phrif atyniadau;

Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i Gabinet  a fydd yn cyflwyno manylion llawn y cynllun. Mae Atodiad 1 yn crynhoi’r manylion ariannol.

Disgwylir i’r cynllun gyfrannu tuag at allbynnau a chanlyniadau megis y rhai canlynol:

- Adfer ac ailbwrpasu adeiladau gwag/segur yng nghanol y trefi;
- Sicrhau cysondeb yn y dehongli a’r profiad diwylliannol yn yr ardal;
- Creu cyfleodd addysgol , iechyd a lles a chymunedol;
- Gwella ymwybyddiaeth o ddiwylliant llechi’r dyffrynnoedd;
- Creu cyfleon economaidd;
- Creu a gwarchod cyflogaeth a cynyddu gwariant cynaliadwy, drwy’r flwyddyn yn y ddyffrynnoedd;
- Gwelliannau i amgylchedd a mannau cyhoeddus o fewn y trefi.;
- Creu a datblygu cysylltiadau teithiau llesol;

2.5. Mae Asesiad Risg cyflawn wedi ei greu ar gyfer yr holl gynlluniau. Mae’r isod y crynhoi y risgiau sydd wedi eu hadnabod i’r Cyngor.

- Methu sicrhau gwariant yn y flwyddyn ariannol bresennol sydd yn un o ofynion y Gronfa;
- Methu gwario’r arian yn ei gyfanrwydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2023/24 sydd yn un o ofynion y Gronfa;
- Diffyg cydariannu ar gyfer y cynlluniau;
- Anawsterau yn ymwneud a materion tir;
- Anawsterau mewn derbyn y caniatadau statudol angenrheidiol;
- Problemau yn codi yn sgil cytundebau gyda trydydd parti i wireddu y cynllun.

2.6. Erbyn hyn, mae Ffyniant Bro yn un o’r cyfleon ariannu cyfalaf mwyaf sylweddol, sydd ar gael i Awdurdodau Lleol i ymgeisio ohono, er budd cymunedau Gwynedd. Mae Cyngor Gwynedd wedi adnabod pecynnau o gynlluniau sydd yn ymateb i'r themâu blaenoriaeth ac wedi sicrhau fod y cyfleon i Wynedd wedi eu uchafu. Mae Aelodau Seneddol y Sir yn gefnogol i'r cynlluniau.

2.7. Mae’r penderfyniad a geisir drwy’r adroddiad hwn yn galluogi swyddogion i symud ymlaen i sefydlu trefniadau rheoli prosiect manwl a phecynnau cyllidol cyflawn ar gyfer y

cynlluniau unigol uchod. Bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar fanylion y cynlluniau unigol.

Materion Cydraddoldeb

2.8. Bydd pob cynllun sydd yn gysylltiedig a Chronfa Ffyniant Bro yn sicrhau fod materion cydraddoldeb yn rhan greiddiol o'r cynllun. Bydd asesiad llawn yn cael ei wneud ar gyfer pob cynllun wrth iddynt gael eu datblygu.

2.9. Pan fo partner trydydd parti yn gweithredu'r cynllun bydd yr angen i gydymffurfio a materion cydraddoldeb a'r angen am asesiad llawn yn rhan o'r cytundeb cyfreithiol efo'r partner.

Materion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.10. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn adnabod saith nod llesiant. Mae'n gosod uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'r adroddiad hwn a'r gwaith yn gysylltiedig â'r tri Cynllun Ffyniant Bro yn ymateb i'r Nodau Llesiant hyn:

- Cymru Lewyrchus - Yng Ngwynedd mae'r economi yn fregus a'r busnesau yn nghanol ein trefi, y dyffrynnoedd llechi ac ardaloedd gwledig Meirionnydd, yn benodol, yn cyfrannu yn sylweddol tuag at economi'r sir ynghyd a chynnig trawstoriad o gyfleoedd cyflogaeth. Mae'r cynlluniau hyn yn cyfrannu yn bositif tuag at economi lewyrchus;
- Cymru Iachach - mae thema iechyd a lles yn thema gyffredin drwy'r holl geisiadau, o'r gwasanaethau a hyfforddiant iechyd uniongyrchol i ddarpariaeth isadeiledd pwrpasol i wella iechyd a lles trigolion Gwynedd;
- Cymru sy'n fwy cyfartal – mae'r cynlluniau Ffyniant Bro yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a darpariaethau i drawstoriad eang o'r boblogaeth, beth bynnag fo cefndir nag amgylchiadau'r unigolion;
- Cymru o Gymunedau Cydlynus - mae cymunedau bywiog a ffyniannus yn cynnig amrediad o wasanaethau a gwasanaethau mewn amgylchedd braf a diogel. Mae hyn yn allweddol i ddyfodol cymunedau ac yn greiddiol i'r cynlluniau hyn;
- Cymru a Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - mae canol trefi yn cyfrannu tuag at warchod ein diwylliant drwy ei phobl, atyniadau, a gwasanaethau ynghyd a'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r cais Llewyrch o'r Llechi yn adnabod pwysigrwydd diwylliannol Gwynedd;
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd eang - mae cynlluniau teithiau llesol a hamdden sydd yn rhan amlwg o'r holl gynlluniau yn cefnogi'r agenda lleihau carbon.
- Cymru Gydnerth - mae cymunedau Gwynedd yn chwarae rol allweddol wrth sefydlu strwythurau a chyfleoedd sydd yn gallu wynebu ac ymateb i heriau economaidd a chymunedol i'r dyfodol.

3. **CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Bydd y gwaith o ddatblygu y cynlluniau yn llawn yn parhau a disgwylir dyfarniad y Gronfa Ffyniant Bro yn ystod yr hydref.

4. **BARN SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

"Cyflwynir unrhyw sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb yn y cyfarfod."

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

"Bydd y penderfyniad a geisir yn caniatáu i'r Cyngor symud ymlaen i'r cam nesaf o wneud ceisiadau am arian o'r Gronfa Ffyniant Bro, a credaf fod yr hyn a geisir yn rhesymol ac ymarferol. Rwyf yn fodlon â chywirdeb yr amcangyfrifon ariannol sy'n ymddangos yn yr adroddiad.

Rwyf yn hyderus fod camau priodol yn eu lle o fewn y Cyngor i sicrhau defnydd priodol o'r arian a bydd y trefniadau fydd yn eu lle i reoli'r prosiectau amrywiol yn gadarn. Fodd bynnag, mae angen i'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r cydariannu fydd angen chwilio amdano ar gyfer y prosiectau hyn, ac mae posibilrwydd bydd rhaid i Cyngor Gwynedd ddarganfod yr arian cyfatebol mewn rhai achosion, fel ddisgrifir yn Atodiad 1, os na fydd ffynonellau eraill ar gael. Fel sydd wedi ei nodi yn yr atodiad hwnnw, bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn yr achosion hynny gyda manylion ariannol llawn."

**CYNLLUNIAU FFYNIANT BRO CYNGOR GWYNEDD 2022**
***GWYNEDD COUNCIL LEVELLING UP APPLICATIONS 2022***

**ATODIAD 1 /** ***APPENDIX 1*** : MANYLION ARIANNOL / *FINANCIAL DETAILS*

**CAIS BYWIOGI BANGOR APPLICATION**

| **Cynllun /** ***Project*** | **Corff Arweiniol /** ***Lead Body*** | **Partneriaid Gweithredol / Operational Partner** | **Gwerth /** ***Value*** | **Cais Ffyniant Bro /** ***Levelling Up Application*** | **Cydariannu /** ***Match Funding*** | **Ffynonellau Cydariannu /** ***Match Funding Source*** | **Ymrwymiad Cyngor Gwynedd /** ***Gwynedd Council committment*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Iechyd a Lles / *Health and Well Being Centre* | Cyngor Gwynedd / *Gwynedd Council* | Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru / *Betsi Cadwaladr Health Board, Welsh Government* | £29,232,282 | £15,232,282 | £14,000,000 | Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd / *Betsi Cadwaladr Health Board, Welsh Government, Gwynedd Council* | Ymrwymiad ar ffurf benthyciad i'w ystyried mewn adroddiad llawn ar y cynllun i Gabinet / *Commitment in the form of a loan to be considered in a full report on the project to Cabinet* |
| Gwelliannau Glannau Bae Hirael a chysylltiadau gwyrdd / *Bae Hirael Waterfront and Green Links* | Cyngor Gwynedd / *Gwynedd Council* | Dim yn berthnasol / *Not applicable* | £5,845,863 | £1,450,000 | £4,395,863 | Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd / *Welsh Government, Gwynedd Council* | Ymrwymiad eisoes wedi ei gadarnhau drwy Gynllun Asedau Cyngor Gwynedd fel rhan o ymrwymiadau ehangach gwarchod yr arfordir / *Commitment in place through Gwynedd Council Asset Plan as part of the wider coastal protection programme* |
| Ysgol Feddygol Gogledd Cymru (Gwedd 1) / *North Wales Medical School (Phase 1)* | Prifysgol Bangor / *Bangor University* | Dim yn berthnasol / *Not applicable* | £5,195,436 | £3,195,436 | £2,000,000 | Prifysgol Bangor / *Bangor University* | Dim yn berthnasol / *Not applicable* |
| ***Cyfanswm / Total*** | | | ***£40,273,518*** | ***£19,887,718*** | ***£20,395,863*** | | |



**CAIS CORIDOR GWYRDD ARDUDWY /** ***ARDUDWY GREEN CORRIDOR APPLICATION***

| **Cynllun /** ***Project*** | **Corff Arweiniol /** ***Lead Body*** | **Partneriaid Gweithredol / Operational Partner** | **Gwerth /** ***Value*** | **Cais Ffyniant Bro /** ***Levelling Up Application*** | **Cydariannu /** ***Match Funding*** | **Ffynonellau Cydariannu /** ***Match Funding Source*** | **Ymrwymiad Cyngor Gwynedd /** ***Gwynedd Council committment*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Coridor Gwyrdd Ardudwy / *Ardudwy Green Corridor* | Cyngor Gwynedd / *Gwynedd Council* | Dim yn berthnasol / *Not applicable* | £40,940,368 | £36,846,331 | £4,094,037 | Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd / *Welsh Government, Gwynedd Council* | Arian datblygol eisoes wedi ei ymrwymo o Gronfa Cydariannu Cyngor Gwynedd. Adroddiad pellach i'w gyflwyno i Gabinet i drafod manylion ariannol llawn / *Development funding already committed through Gwynedd Council's Match Funding Fund. Further report to be submitted to Cabinet to present full funding package* |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyfanswm / Total*** | | | ***£40,940,368*** | ***£36,846,331*** | ***£4,094,037*** | | |

**CAIS LLEWYRCH O'R LLECHI / *LLEWYRCH O'R LLECHI APPLICATION***

| **Cynllun / *Project*** | **Corff Arweiniol / *Lead Body*** | **Partneriaid Gweithredol / Operational Partner** | **Gwerth / *Value*** | **Cais Ffyniant Bro / *Levelling Up Application*** | **Cydariannu / *Match Funding*** | **Ffynonellau Cydariannu / *Match Funding Source*** | **Ymrwymiad Cyngor Gwynedd / *Gwynedd Council committment*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hwb Dinrowig | Cyngor Gwynedd / *Gwynedd Council* | Amgueddfa Cymru / *National Museum Wales* | £16,599,364 | £9,694,653 | £6,904,712 | Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru, Cyngor Gwynedd / *Welsh Government, Visit WalesGwynedd Council* | Cyfraniad Cyngor Gwynedd eisoes wedi ei ymrwymo o gyllideb Parciau Gwledig (Economi a Chymuned) / *Funding already committed from the Country Park budget in the Economy and Community Service* |
| Hwb Ogwen | Cyngor Gwynedd / *Gwynedd Council* | Partneriaeth Ogwen, Cwmni Tabernacl (Bethesda) Cyf | £4,838,403 | £4,344,153 | £494,250 | Partneriaeth Ogwen (arian y cwmni a grantiau), Cwmni Tabernacl (Bethesda) Cyf (arian y cwmni a grantiau), Llywodraeth Cymru / *Partneriaeth Ogwen (own funds and grants), Cwmni Tabernacl (Bethesda) Cyf (own funds and grants), Welsh Government* | Dim yn berthnasol / *Not applicable* |
| Hwb Ffestiniog | Cyngor Gwynedd / *Gwynedd Council* | Artunr Stiniog, Llywodraeth Cymru / *Antur Stiniog, Welsh Government* | £5,308,388 | £4,791,383 | £517,006 | Antur Stiniog (arian y cwmni a grantiau), Llywodraeth Cymru / *Antur Stiniog (own funds and grants), Welsh Government* | Dim yn berthnasol / *Not applicable* |
| Cyfanswm / *Total* | | | £26,746,155 | £18,830,189 | £7,915,968 | | |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Gorffennaf 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **Cyfeiriad e-bost:** | **awenmorwenaedwards@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Achos Dros Newid: Darparu Lleoliadau Nyrsio fel rhan o bartneriaeth sector gyhoeddus** |

**1 BETH YW'R PENDERFYNIAD A GEISIR?**

1.1 Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo'r achos dros newid a gofyn i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyflwyno Achos Busnes Amlinellol Strategol erbyn hydref 2022 ar greu datblygiad partneriaeth sector gyhoeddus ar safle(oedd) yng Ngwynedd, mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**2 CYFLWYNIAD**

2.1 **Cefndir**

2.1.1 Bydd aelodau'n ymwybodol bod Cyngor Gwynedd eisoes yn ddarparwr gofal preswyl ar gyfer ein trigolion. Rydym wedi gweld ei fod yn rhan bwysig o'n cyfrifoldeb fel Cyngor tuag at ein trigolion mwyaf bregus. O ran y ddarpariaeth breswyl i bobl hŷn, ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu 50% o'r ddarpariaeth gyfan, gyda'r sector annibynnol yn darparu'r gweddill.

2.1.2 Serch hynny, fel bydd aelodau'n ymwybodol, mae'r holl ddarpariaeth cartrefi nyrsio ar gyfer ein trigolion yn cael ei ddarparu'n llwyr gan y sector annibynnol. Y prif reswm am hyn yw nad yw wedi bod yn gyfreithiol bosib i Awdurdodau Lleol fynd ati i ddarparu gofal nyrsio. Rydym felly'n llwyr ddibynnol ar y farchnad allanol er mwyn darparu'r gofal nyrsio angenrheidiol hwn i'r boblogaeth. O ganlyniad, os yw nifer y lleoliadau sydd ar gael yn llai na'r hyn sydd ei angen ar unrhyw bwynt mewn amser, ni fyddai'n bosib i'r Cyngor ymateb gyda'i ddarpariaeth uniongyrchol ei hun. Gallai hyn greu oedi i unigolion cyn iddynt allu derbyn y gofal maent wedi cael asesiad ar ei gyfer; neu, gallai olygu bod unigolion yn derbyn lleoliad amgen a/neu pellach o'u cymuned na'r hyn y byddent wedi dymuno ei gael.

2.1.3 Fel Cyngor, rydym yn gweld bod nifer o fuddion o fod yn ddarparwr lleoliadau gofal preswyl, yn hytrach na chomisiynu'r sector annibynnol i ddarparu lleoliadau i gyd. Gan ein bod yn ddarparwr,

mae modd i ni fel Cyngor ymateb yn addas ac yn amserol i unrhyw newid yn y galw am wasanaethau.

2.1.4 Yn gyffredinol, tan yn ddiweddar, mae polisïau Llywodraeth Cymru, ynghyd â disgwyliadau arolygwyr (Arolygiaeth Gofal Cymru), wedi annog Awdurdodau Lleol i allanoli eu darpariaethau gofal i'r sector annibynnol. Y prif reswm am hyn yw oherwydd bod darparwyr annibynnol a phreifat yn gallu darparu'r gofal am gost llai nag unrhyw ddarpariaeth fewnol fel arfer, a'r farn oedd yn amlwg bod hyn yn fwy effeithiol ac effeithlon i'r pwrs cyhoeddus. Tybiwn mai'r prif reswm dros y gwahaniaeth yn y gost rhwng y ddarpariaeth fewnol a'r ddarpariaeth allanol fel arfer yw costau staffio uwch mewn darpariaeth fewnol ac, yn benodol, costau uwch pensiwn Llywodraeth Leol.

## 2.2 Y sefyllfa bresennol

2.2.1 Mae barn y Llywodraeth o ran yr angen i allanoli darpariaethau yn genedlaethol wedi newid yn sylweddol yn ddiweddar. Bydd aelodau'n gyfarwydd â'r Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth sydd yn nodi y budd o gael marchnad gofal mwy cytbwys, gan annog Awdurdodau Lleol i fod yn ystyried mewnoli'r ddarpariaeth er mwyn cael gwell sefydlogrwydd a rheolaeth dros wasanaethau hanfodol. Mae'n debyg bod y newid cyfeiriad hwn gan y Llywodraeth yn cadarnhau ein bod wedi bod yn ddoeth i beidio ag allanoli ein gwasanaethau gofal preswyl a gofal cartref dros y blynyddoedd. Gyda'r meysydd yma felly, rydym fel Cyngor yn eithaf agos ati gyda chydbwysedd y farchnad a argymhellir yn y Papur Gwyn uchod. Ond beth am y maes gofal nyrsio?

2.2.2 Yn ddamcaniaethol, dylai'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol perthnasol gydweithio'n strategol er mwyn osgoi'r sefyllfa lle nad oes digon o ddarpariaeth gofal nyrsio ar gael yn lleol. Hynny yw, cydweithio er mwyn creu'r amodau cywir i ddarparwyr preifat neu i ddarparwyr y trydydd sector fod yn barod ac yn awyddus i agor darpariaeth nyrsio yn ein cymunedau. Mewn ardaloedd poblog, lle mae'r model gofal yn un mwy cost effeithiol i'w ddarparu, mae'n debyg y gallai'r farchnad ymateb yn weddol dda heb fawr o ymyrraeth ac anogaeth gan gomisiynwyr, gan fod y model busnes yn fwy ffafriol. Mae'n fater gwahanol mewn ardaloedd mwy gwledig eu natur.

2.2.3 Fel sydd wedi'i dystiolaethu yng ngwaith yr Asesiad Anghenion Poblogaeth, a chanlyniad tebygol gwaith Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, ynghyd â'n profiad dydd i ddydd, erbyn hyn mae gennym brinder cynyddol o welyau nyrsio ar gyfer anghenion ein poblogaeth. Ymddengys y data mwyaf diweddar fod nifer cynyddol o'n trigolion mewn lleoliadau nyrsio y tu allan i Wynedd, a bydd nifer o'r rhain oherwydd bod prinder gwelyau yn eu cymuned. Mae'n dristwch i ni fel Cyngor na allwn sicrhau'r gofal nyrsio hwn yn agosach at gartrefi unigolion, a gwneud hynny'n amserol.

2.2.4 Yn wahanol i'r maes preswyl, mae'r ffaith nad ydym yn ddarparwyr gofal nyrsio yn ei gwneud yn amhosib i ni gamu i mewn yn rhwydd er mwyn ymateb i'r diffyg hwn. Rydym yn gorfod dibynnu'n llwyr ar y farchnad allanol i benderfynu ei fod yn gwneud synnwyr busnes iddynt gamu i mewn. Yn anffodus, y sefyllfa bresennol yw bod gennym ddiffyg darpariaeth nyrsio, gyda'r cwmnïau mwyaf sydd gennym yn mynnu ffioedd uwch na'r ffioedd safonol sydd yn cael eu gosod gan y Cyngor ar gyfer lleoliadau nyrsio.

## 2.3 Yr angen am newid

2.3.1 Gwelwn felly, y tu hwnt i'r newid mewn polisi a chyfeiriad cenedlaethol, bod y sefyllfa bresennol yn codi cwestiwn sylfaenol i ni fel Cyngor. Rydym yn deall ac yn derbyn y buddion o fod yn ddarparwr mewnol ar gyfer y maes preswyl a gofal cartref. A yw'r buddion hyn yn bodoli ar gyfer

y maes nyrsio ac a ddylem felly geisio camu i mewn i'r farchnad ar gyfer darparu gofal nyrsio fel Cyngor?

2.3.2 Bwriad yr adroddiad hwn yw:

- ceisio gosod amlinelliad o'r achos dros newid,
- ceisio gosod allan y risgiau a rhwystrau ynghlwm a'r newid arfaethedig,
- ceisio barn aelodau'r Cabinet ar y newid,
- ac i gael cytundeb i ddod ag achos busnes amlinellol strategol i'r Cabinet yn yr hydref.

## 3 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD – YR ACHOS DROS NEWID

3.1 Mae'n debyg y gallwn ddod i gasgliad ar y rhesymeg a'r cyfiawnhad dros argymell y penderfyniad drwy ystyried y prif fuddiannau canlynol:

a. Model Gofal Arloesol sydd yn cwrdd ag anghenion trigolion i'r dyfodol
b. Sefydlogi'r Farchnad Nyrsio
c. Osgoi risgiau ariannol

### 3.2 <u>Model Gofal Arloesol sydd yn cwrdd ag Anghenion y Dyfodol</u>

3.2.1 Fel Cyngor rydym yn falch ein bod yn ceisio'r modelau gorau ar gyfer darparu gwasanaethau i'n trigolion yn barhaus.

O ystyried y sefyllfa bresennol, a'r problemau ynghlwm ag:

- oediadau yn gadael ysbyty,
- gorfod defnyddio lleoliadau ymhell o gymuned unigolion,
- a'r angen i adael cartref gofal penodol er mwyn derbyn gofal nyrsio,

gwelwn yn sicr bod gennym le i ganfod modelau gofal gwell na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd.

3.2.2 Mae natur wledig Gwynedd hefyd yn ein gorfodi i ystyried modelau gofal sy'n ein galluogi ni i fod yn hyblyg ac yn ymatebol. Nid ydym am i bobl deithio'n bell at ddarpariaethau sy'n bell o'u cartref, ond yn hytrach rydym eisiau iddynt allu aros yn eu cynefin a derbyn gwasanaeth addas yno, neu mor agos â phosib. Er mwyn gwneud hyn, mae sicrhau bod gennym ddarpariaethau a modelau gofal arloesol sydd yn gallu ymateb i anghenion y dyfodol yn hyblyg ac amserol yn hanfodol i ni.

3.2.3 O ganlyniad, byddai gallu darparu'r holl ystod o wasanaethau gofal mor lleol ag y bo modd yn gam sylweddol ymlaen ar gyfer sicrhau'r gwasanaethau gorau i'n trigolion i'r dyfodol. Byddai gwneud hyn mewn ffordd integredig gyda'r Bwrdd Iechyd yn arloesol tu hwnt, ac yn ein rhoi ni ar flaen y gad o ran y newid hwn yn genedlaethol. Fel Cyngor rydym yn falch iawn o'r ffordd yr ydym yn gwthio'r ffiniau o ran darparu gwasanaethau o safon.

3.2.4 Ein gweledigaeth felly yw ein bod yn datblygu darpariaethau sydd mor lleol â phosib ac yn gallu darparu'r holl ystod o wasanaethau mae unigolion ei angen. Rydym yn gweld y symud i fod yn ddarparwr gofal nyrsio yn rhan hanfodol o'r weledigaeth hon, fel y gallwn wirioneddol berchnogi a deall pob rhan o siwrne'r bobl hyn wrth iddynt fod angen cefnogaeth.

3.2.5 Rydym hefyd yn awyddus i ddefnyddio'r cyfle hwn i fod yn ddarparwr gofal nyrsio er mwyn datblygu ein gweithlu ar draws y sector gyhoeddus, gan alluogi staff nyrsio a staff clinigol arall i gael y cyfle i weithio mewn darpariaeth o'r fath fel rhan o'u hyfforddiant a gyrfa.

### 3.3 Sefydlogi'r Farchnad

3.3.1 Drwy adael i'r ddarpariaeth hynod bwysig hwn gael ei ddarparu gan y sector annibynnol yn llwyr, mae risg i'r Cyngor ac i'r Bwrdd Iechyd petai y farchnad yn methu. Mae risg amlwg, fel sydd wedi'i amlygu eisoes, nad oes digon o ddarparwyr yn y farchnad sydd â diddordeb masnachu yng Ngwynedd. Mae risg hefyd y bydd y darparwyr yn gwrthod mynediadau i'r unigolion hyn, o leiaf yn y tymor byr, neu'n codi taliad ychwanegol (*top up*) ar deuluoedd.

3.3.2 Wrth ystyried y maes iechyd a gofal yn ei gyfanrwydd rydym yn aml yn cyfeirio ato fel "un system". Ar hyn o bryd, rydym yn llwyr ddibynnol ar y farchnad agored a'r sector annibynnol am ran allweddol o'r "system" hon. Os ydym am sicrhau gofal di-dor ac effeithiol i'n trigolion, rhaid i ni, ac i'r Bwrdd Iechyd, ystyried yn ofalus doethineb gadael un rhan o'r system i fod yn llwyr ddibynnol ar drydydd parti. Mae'r holl ddadleuon dros fod yn rhan o'r ddarpariaeth gofal nyrsio yn debyg iawn i'r dadleuon rydym wedi'u derbyn gyda gofal cartref a gofal preswyl ers blynyddoedd. Drwy fod yn ddarparwr mewnol gallwn geisio ychwanegu mwy o sefydlogrwydd i'r farchnad, gan hefyd fod yn hyblyg iawn mewn argyfyngau neu pan mae angen newid gofynion yn sydyn.

3.3.3 Yn ogystal, mae dadl gref dros fod yn ddarparwr mewnol gan bod hyn yn golygu ein bod yn deall materion darparwyr yn well. Rydym yn gallu bod yn bwynt cyfeirio hefyd o ran ymarfer a chynnig cefnogaeth lle bo angen i ddarparwyr, yn enwedig i'r darparwryr llai a'r rhai newydd i'r sector. Rydym hefyd mewn sefyllfa dda iawn i fod yn deall costau darparu gofal. Byddai cymharu'r ddwy gost yn ffordd dda iawn o weld a oes costau rhy isel neu rhy uchel yn y farchnad.

3.3.4 Wrth gwrs, mewn partneriaeth o'r fath, y ddadl yn y pen draw yw bod modd i'r Cyngor geisio diwallu anghenion cartrefi nyrsio ein trigolion yn well drwy fod yn rhan o'r farchnad. Heb fod yn rhan o gwbl o'r farchnad, mae gallu'r Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd i ymateb i fethiant yn y farchnad yn fychan iawn ac yn risg sylweddol i'r ddau gorff.

### 3.4 Osgoi Risgiau Ariannol

3.4.1 Un ystyriaeth fawr yw p'un a oes budd ariannol i ni fod yn camu i mewn i ddarparu gofal nyrsio, neu p'un a fyddai'r cam hwn yn costio yn fwy i ni fel Cyngor ac i'r Bwrdd Iechyd.

3.4.2 Mae'n deg nodi bod y gost o ddarparu ein gofal preswyl ein hunain, o'i gymharu â phrynu'r ddarpariaeth gan y sector annibynnol, yn ddrytach; fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf. Yn amlwg, fel sydd wedi'i nodi uchod, mae rhesymau eraill dros ein penderfyniad ni fel Cyngor i barhau i fod yn ddarparwr o fewn y maes.

3.4.3 Ar gyfer y maes preswyl a phreswyl EMI, mae'r gwahaniaeth yn y gost rhwng darparu ein hunain a'r ddarpariaeth allanol yn lleihau, fodd bynnag mae buddion eraill i ni fel Cyngor o fod yn rhan o'r ddarpariaeth.

3.4.4 O ran y maes nyrsio, mae'r gymhariaeth yn un anoddach i'w hamcanyfrif, gan nad ydym yn ddarparwr ar hyn o bryd.

3.4.5 Rydym yn amcangyfrif y byddai modd i ni fel Cyngor ddarparu lleoliad nyrsio am gost cymharol i'r ffi yr ydym yn ei osod i'r sector annibynnol eleni. Felly, byddai'r opsiwn o ddarparu'n fewnol yn cymharu'n debyg i ni fel Cyngor o'i gymharu â'r gost o brynu'r un nifer o leoliadau o'r sector annibynnol.

3.4.6 Mae'r rhagdybiaeth uchod yn seiliedig ar ddatblygiad o faint penodol, ac mae'n debyg y byddai datblygiadau llai yn llai cost effeithiol. Er hyn, rydym yn awyddus i edrych ar y posibilrwydd, mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd, i fod yn ceisio darparu gofal nyrsio yn ein cartrefi gofal preswyl mewnol.

## 4 YSTYRIAETHAU A RISGIAU YNGHLWM Â'R ACHOS DROS NEWID

4.1 Byddai cytuno i'r newid hwn yn golygu bod angen i'r Cyngor fod yn gwbl argyhoeddedig bod yr achos dros newid yn cynnig budd i'n trigolion, o ran gwella gwasanaethau, ond hefyd bod unrhyw risg ac ystyriaeth o sylwedd wedi eu lliniaru neu eu diddymu.

4.2 Cyn bwrw ymlaen i ddarparu gofal nyrsio yn fewnol mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, byddai angen i'r Cabinet fodloni ei hun bod y risgiau a'r ystyriaethau canlynol wedi derbyn sylw digonol:

a) ei fod yn gyfreithiol bosib i ni ddarparu gofal nyrsio
b) bod modd staffio'r ddarpariaeth o ran gweithlu a goruchwylio'r staff nyrsio yn briodol
c) bod lleoliadau a safleoedd ar gyfer datblygu ar gael i ni
ch) bod arian cyfalaf ar gael i ddatblygu'r safleoedd hyn
d) bod diddordeb mawr a chefnogaeth mewn egwyddor i'r newid gan y Llywodraeth
dd) Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gefnogol ar yr amod ein bod yn cadw o fewn deddfwriaeth

### 4.3 Ystyriaethau Cyfreithiol

4.3.2 Mae'r cwestiwn p'un a allai'r Cyngor ddarparu gofal nyrsio yn un creiddiol cyn ystyried unrhyw beth arall. Felly, cyn edrych ar unrhyw beth arall o ran yr achos dros newid, rhaid bod yn glir ar p'un a oes modd i ni ddarparu gofal nyrsio, neu p'un a oes modd newid y ddeddfwriaeth rhyw gymaint er mwyn ei ganiatáu.

4.3.2 Yn dilyn cais gan Brif Weithredwyr Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, bu i ni gomisiynu cwmni cyfreithiol Hugh James i ateb y cwestiwn 'A all Cyngor Gwynedd ddarparu "gofal nyrsio llawn" ei hun?'

4.3.3 Wedi derbyn y cyngor cyfrieithiol, rydym wedi derbyn cadarnhad bod y Cyngor yn gallu darparu gofal nyrsio gyda chaniatâd y Bwrdd Iechyd neu drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Felly ystyrir fod modd dan ddarpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 sefydlu trefn gydweithredol rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd fydd yn arwain at greu darpariaeth sydd yn cynnwys gofal nyrsio. Bydd angen datblygu trefniadau cydweithio addas a chadarn i gefnogi trefniadau o'r fath. Bydd y gwaith mwy manwl hwn yn rhan o ddatblygu'r Achos Busnes.

### 4.4 Gweithlu Digonol

4.4.1 Rhan allweddol o unrhyw ddarpariaeth yw sicrhau bod gennym weithlu addas a chymwysiedig o fewn y gwasanaethau hyn. Fel sydd eisoes wedi'i nodi, rydym yn falch iawn o'r rhan yr ydym wedi'i chwarae fel darparwr mewnol wrth sicrhau cyflogaeth dda a theg i nifer fawr o staff.

4.4.2 Fel Cyngor, rydym yn ystyried ein hunain i fod yn gyflogwr da, ac un o'n hamcanion ni yw sicrhau swyddi da o fewn y sir. Golyga hynny bod cynnig swyddi a thelerau da i bobl yn y maes gofal yn fater cadarnhaol ar lefel strategol o ran creu swyddi o ansawdd yn y sir, yn ogystal â chwrdd â gofynion maes gwaith cymdeithasol.

4.4.3 Gallai camu i mewn i ddarparu gofal nyrsio fod yn her i'r Cyngor o ran ceisio recriwtio a staffio'r fath ddarpariaeth. Mae prinder nyrsys yn amlwg mewn datganiadau yn y wasg, ac yn sicr mae cyfnod anodd y pandemig wedi ychwanegu her arall. Yn sicr byddai angen cynllunio'n fanwl ar gyfer y fath fenter, ond gwelwn bod cyfle yma i gydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod gennym staff nyrsio ar gael i weithio yn y cartrefi nyrsio. Mae bwriad edrych ar gyfleon secondio i nyrsys, ac yn wir trefn fyddai'n golygu bod staff nyrsio o fewn y Bwrdd Iechyd yn cwblhau cyfnod penodol yn y cartref fel rhan o'u swyddi. Mae modd i ni hefyd edrych ar gynlluniau "*grow your own*", cynlluniau bwrsari a noddi, yn ogystal â chynlluniau posib sy'n ceisio denu unigolion i ddychwelyd i Wynedd.

4.4.4 Mae'n debyg mai'r senario fyddai bod y gweithlu nyrsio yn cael eu secondio i gyflogaeth y Cyngor, ond gan barhau i gael eu goruchwylio gan staff clinigol y Bwrdd Iechyd. Byddai hyn yn caniatáu i lywodraethiant unrhyw faterion clinigol gael y trosolwg priodol gan uwch reolwyr clinigol y Bwrdd Iechyd drwy eu trefniadau archwilio hwy.

4.4.5 Mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o drafod opsiynau gyda'r prifysgolion lleol sy'n darparu cyrsiau nyrsio, a'r bwriad yw y byddwn yn gallu sicrhau bod y darpariaethau gofal nyrsio partneriaethol hyn yn rhan o gynlluniau gweithlu'r Bwrdd Iechyd.

4.4.6 Mae problemau recriwtio yn y maes gofal ehangach hefyd yn fater o bryder i'r Cyngor a bydd yr aelodau Cabinet eisoes yn ymwybodol o'r gwaith sydd yn mynd rhagddo i geisio ymateb i'r heriau hyn. Mae ceisio recriwtio staff nyrsio yn heriol iawn i'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal yng Ngwynedd. Drwy fod yn ddarparwr, mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd, gallwn geisio gwella argaeledd staff nyrsio o fewn cartrefi gofal, gan ymchwilio i'r modd y gallai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio staff nyrsio i weithio o fewn darpariaeth fewnol o'r fath fel rhan o gyfnod anwytho neu gyfnod hyfforddi, a hefyd fel rhan o gylchdro i staff nyrsio'r Bwrdd Iechyd. Efallai y gallwn edrych ar unrhyw ddarpariaeth o'r fath fel safle o ragoriaeth yn y maes hyfforddi a gofal i bobl hŷn, yn ogystal â bod yn lleoliad ar gyfer staff meddygol iechyd ar gyfer gwneud gwaith ymchwil ac ati.

4.4.7 Rydym wrth gwrs yn ceisio sicrhau darpariaethau iaith Gymraeg drwy unrhyw ddarparwr yn y maes gofal er mwyn cwrdd â gofynion Fframwaith Mwy Na Geiriau Llywodraeth Cymru, ond wrth gwrs yn bwysicach na hyn, oherwydd ein bod yn deall pwysigrwydd hyn i'n trigolion. Fodd bynnag mae'n deg dweud bod rhai darparwyr allanol wedi gweld cyflawni hyn yn broblemus gan iddynt orfod dibynnu ar staff o asiantaethau allanol. Fodd bynnag, gall darpariaeth fewnol y Cyngor sicrhau gwasanaethau dwyieithog yn fwy cyson a dibynadwy.

## 4.5 <u>Safleoedd Addas/Cyfleon i Ddatblygu</u>

4.5.1 Fel bydd aelodau'n ymwybodol, caeodd Cartref Gofal Penrhos yn 2020, ac mae'r safle wedi trosglwyddo i Gymdeithas Dai Clwyd Alyn.

4.5.1 Mae asesiad anghenion poblogaeth ac asesiad comisiynu'r Adran Oedolion a'r Bwrdd Iechyd yn nodi bod angen mwy o ddarpariaeth gofal nyrsio yn ardal Pen Llŷn a bod prinder o welyau nyrsio ar hyn o bryd. Adlewyrchir hyn wrth edrych ar y sefyllfa bresennol o ran nifer y bobl o'r ardal sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi sydd y tu hwnt i'r ardal leol, yn ogystal â nifer yr unigolion sydd angen cartref nyrsio sy'n parhau mewn lleoliad arall, megis ysbyty neu gartref preswyl.

4.5.2 Yn ogystal â datblygu o'r newydd ar safle penodol, megis safle Penrhos, gall yr achos dros newid hefyd gynnwys ychwanegu at gartrefi mewnol y Cyngor, neu wrth gwrs newid cofrestriad y gwelyau presennol i rai nyrsio. Gallai hyn fod yn opsiwn o ran sicrhau dyfodol y cartrefi presennol wrth i'r angen am welyau preswyl pur leihau, ond hefyd er mwyn ymateb i'r angen am welyau nyrsio mewn ardaloedd gwledig lle na fyddai'n addas na chost effeithiol bob tro i adeiladu o'r newydd.

### 4.6 Arian Cyfalaf ar gael i'r Cyngor ar gyfer y Datblygiad

4.6.1 Ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod, mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi Grantiau Cyfalaf er mwyn hybu integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac i gefnogi gwaith ar ail-fodelu'r sector gofal. Bydd y Gronfa Gyfalaf ar gyfer Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud cais am arian er mwyn ariannu elfen o'r datblygiad. Mae trafodaethau eisoes wedi dechrau gyda Llywodraeth Cymru ynglyn â chael mynediad at yr arian yn amserol.

4.6.2 Pe byddai datblygiad nyrsio'n cael ei ddatblygu ar safle Penrhos, gydag oddeutu 60 gwely ynddo, byddai'n costio oddeutu £9 i £10 miliwn. Byddai angen ymgymryd â gwaith costio manwl, ond y bwriad fyddai ceisio sicrhau arian grant cyfalaf yn y lle cyntaf, gan edrych i fenthyg yr arian sydd yn weddill. Felly, byddai angen i'r achos busnes gynnwys taliadau benthyca fel rhan o'r asesiad ariannol.

4.6.3 Bydd angen ystyried unrhyw oblygiadau refeniw fydd yn deillio o'r datblygiad. Bydd hyn yn rhan o'r achos busnes wrth symud ymlaen.

### 4.7 Cefnogaeth Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru

4.7.1 Fel sydd wedi'i nodi eisoes, mae barn a chyfeiriad y Llywodraeth wedi newid o ran darpariaethau sydd yn cael eu darparu gan Awdurdodau Lleol. Mae Papur Gwyn y Llywodraeth ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn nodi y dylem fod yn annog modelau arloesol a gweithio mewn partneriaeth i roi darpariaethau fel hyn yn eu lle. Rydym wedi defnyddio arian y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer trefniadau prosiect Safle Penrhos sydd yn dangos eu cefnogaeth ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r weledigaeth ac yn gefnogol o'r cysyniad. Mae'r grantiau cyfalaf sydd yn cael eu cynnig yn cefnogi'r weledigaeth yma.

4.7.2 Hyd yma, nid oes cais ffurfiol wedi'i gyflwyno i AGC i roi barn ffurfiol ar y manylion i ddarparu cartrefi nyrsio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, ond mae'r weledigaeth wedi ei hamlinellu i'r archwiliwr cyswllt, a'r prif fater y mae AGC yn ei ystyried yw cyfreithlondeb unrhyw ddarpariaeth a newid, yn ogystal â'i hyfywdra ariannol.

### 4.8 Cefnogaeth y Bwrdd Iechyd

4.8.1 Fel sydd wedi'i amlinellu o fewn y farn gyfreithiol, ni all y Cyngor fynd ati ar ei ben ei hun i ddarparu gofal nyrsio. Mae'n rhaid cael caniatâd y Bwrdd Iechyd neu bod y Cyngor yn gweithredu mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd.

4.8.2 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi cyfarfod â Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yn ogystal â Chyfarwyddwr Ardal Gorllewinol y Bwrdd Iechyd er mwyn trafod yr achos dros newid. Rydym wedi derbyn cefnogaeth mewn egwyddor i'r newid ac, yn ddibynnol wrth gwrs ar achos busnes hyfyw a chefnogaeth y Bwrdd Iechyd yn ffurfiol, mae'n ymddangos bod yr awydd i fwrw mlaen â'r datblygiad arloesol hwn gennym fel Cyngor ond hefyd fel Bwrdd Iechyd.

4.8.3 Dyma nododd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, Jo Whitehead am y weledigaeth a'r cynllun:

*Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus iawn i gefnogi partneriaeth sector cyhoeddus arloesol gyda Chyngor Gwynedd a fyddai'n darparu lleoliadau nyrsio ar safle Penrhos ger Pwllheli.*

*Mae bregusder presennol y farchnad darparwyr gofal yng ngogledd Cymru mewn perthynas â'r ddarpariaeth nyrsio, yn ogystal â gofal cartref, yn destun pryder parhaus i'r Bwrdd Iechyd. Mae nifer cynyddol o gartrefi gofal dan fygythiad o gau wrth eu bod yn methu ag ymdopi a chostau cynyddol a diffyg staff sydd, yn ei dro, yn effeithio ar allu ein hysbytai acíwt a chymunedol i ryddhau cleifion sy'n barod i adael. Mae hyn yn arwain at gleifion yn aros yn yr ysbyty am gyfnod hirach nag y maent ei angen, llif cleifion is ac arosiadau hir am ambiwlans. O ystyried y risgiau hyn, mae'n flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid fynd i'r afael â'r straen hwn ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar frys, gan edrych i geisio sefydlogi'r farchnad fregus hon.*

*Rydym eisoes yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd er mwyn edrych ar y posibilrwydd o ddarparu gofal nyrsio mewn partneriaeth sector cyhoeddus. Byddai datblygu model gofal nyrsio partneriaeth sector cyhoeddus cynaliadwy ar safle Penrhos ger Pwllheli yn gyfle gwych i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach. Wrth gwrs, un o'r prif risgiau gydag unrhyw gynnig newydd fydd staffio, ac felly rydym yn archwilio model gweithlu mwy hyblyg sy'n sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o safon gyda deilliannau sicr ar gyfer ein poblogaeth.*

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Pe byddai'r Cabinet yn cytuno bod achos dros newid ac yn cymeradwyo'r penderfyniad i fwrw ymlaen i gyflwyno Achos Busnes Amlinellol Strategol ar gyfer safle Penrhos, ynghyd ag unrhyw leoliad priodol arall, bwriedir gwneud hyn erbyn cyfarfod y Cabinet yn ystod hydref 2022.

5.2 Yn y cyfamser, byddai cost y datblygiad ar safle Penrhos, ynghyd â chostau adnewyddu neu ddatblygu cartrefi mewnol, yn cael eu cynnwys (heb ragfarn) ar restrau bidio grantiau perthnasol.

5.3 Byddai'r trefniadau ymgynghori perthnasol ar faterion cynllunio ar gyfer datblygiad Penrhos angen digwydd gan Gymdeithas Dai Clwyd Alyn fel perchnogion y safle yn unol â'r trefniadau arferol.

5.4 Byddai'r achos dros newid a'r bwriad yn cael eu trafod yn fwy ffurfiol gyda'r Arolygwyr (Arolygiaeth Gofal Cymru) a Gweinidogion y Llywodraeth er mwyn ceisio eu sêl bendith.

5.5 Yn ddarostyngiedig i benderfyniad y Cabinet yn yr hydref, ynghyd â chytundeb y Bwrdd Iechyd drwy eu trefniadau llywodraethu hwythau, byddai'r Cyngor yn bwrw ymlaen, ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, gyda datblygiad arloesol partneriaeth sector gyhoeddus ar safle Penrhos, gan anelu i ddechrau'r datblygiad cyn gynted â phosib, gan ddarparu amserlen fanwl i gyd-fynd â hynny.

## 6 BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Rwyf wedi cael mewnbwn i'r adroddiad yma a'r cynllun a gallaf gadarnhau fod y materion cyfreithiol a ystyrir yn yr adroddiad yn adlewyrchiad priodol o'r sefyllfa. Fel y nodir bydd angen gwaith manylach o amgylch y cysyniad wrth i'r achos busnes manwl gael ei ddatblygu.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Y penderfyniad a geisir yw symud ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol Strategol. Nid oes gennyf wrthwynebiad i hyn, ac rwyf yn fodlon fod yr wybodaeth ariannol a'r risgiau sydd wedi eu hamlygu yn rhesymol ac yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Bydd datblygu Achos Busnes Amlinellol erbyn hydref 2022 yn orchwyl sylweddol mewn amser byr, a gallaf sicrhau'r Cabinet bydd swyddogion yr Adran Gyllid ar gael i gyfrannu i'r gwaith yn ôl y gofyn.

**CABINET CYNGOR GWYNEDD**

**Adroddiad i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Gorffennaf 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Amgylchedd** |
| **Swyddog cyswllt:** | **Gareth Jones, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd** |
| **Pwnc:** | **Dyfodol y Gwasanaeth Cynllunio Polisi ar y cyd (Gwynedd ac Ynys Mon)** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Fod y Cabinet yn cytuno:

1) Estyniad i'r cytundeb cydweithio cyfredol ar gyfer darpariaeth y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar Cyd hyd at 31 Mawrth 2023;
2) Bod y cytundeb cydweithio ac felly y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dod i ben ar y 31 Mawrth 2023, a bod Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd yn cael ei greu ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd:
3) Bod y Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd yn unig:
4) Bod trefniadau ar gyfer cefnogi a gwneud penderfyniadau ar y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd a materion polisi cynllunio perthnasol yn cael eu creu ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd;
5) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd gytuno ar drefniadau cydweithio gydag Ynys Mon i sicrhau fod y Cyngor yn parhau i gwrdd a'r gofynion statudol (ac unrhyw waith cysylltiedig), sydd ei angen ar gyfer monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd;
6) Gan fod hwn yn fater o'r flaenoriaeth uchaf, gofynnir i'r Cabinet ragfarnu'r broses 'bidiau' flynyddol a chaniatáu 'bid' am £70,000 o gyllideb refeniw parhaol rŵan, er mwyn cyfarch y gost ychwanegol o fod yn sefydlu Gwasanaeth Polisi Cynllunio Gwynedd;

---

**RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Mae'r cytundeb cydweithio sydd mewn lle rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon, ar gyfer darparu Gwasanaeth Cynllunio Polisi Cynllunio ar y Cyd (GPCC), yn dod i ben ar y 31 Gorffennaf 2022, ac felly mae angen penderfyniad ynglŷn a darpariaeth y GPCC ar gyfer y dyfodol.

## 1. Cefndir

1.1. Sefydlwyd y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (GPCC) gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon ar 1 Mai 2011, ac yn dilyn hynny cytunwyd ar gytundeb cydweithio ar gyfer gweithrediad y GPCC oedd yn rhedeg tan 31 Rhagfyr 2017. Prif ddyletswydd y GPCC ar y pryd oedd paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer ardaloedd y ddau awdurdod cynllunio lleol.

1.2. Roedd y ddau awdurdod ar y pryd yn cytuno fod achos busnes cryf ar gyfer sefydlu'r trefniant cydweithio, a cafodd hynny ei dystiolaethu yn dilyn adolygiad o'r GPCC yn 2017, gwnaeth amlygu'r buddion cynllunio ac ariannol i'r ddau awdurdod oedd yn cynnwys:

- Creu gwasanaeth mwy gwydn gyda llawer o arbenigedd ar draws nifer o feysydd cynllunio.
- Cynllunio ar lefel fwy strategol ac integreiddio polisïau trawsffiniol.
- Cyfuno ymdrechion ar gyfer mynd i'r afael ar faterion lleol sydd yn bwysig i'r ddau awdurdod.
- Rhannu costau 50/50, ac felly gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r ddau awdurdod ac arbed costau i'r awdurdodau.
- Mynd i'r afael yn llawn a'r materion er mwyn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd yn gadarn.

1.3. Yn dilyn yr adolygiad o'r GPCC yn 2017, roedd y ddau awdurdod yn cytuno fod yna dal achos busnes cryf ar gyfer parhau gyda'r trefniant cydweithio, ac ym mis Mawrth 2017 cytunwyd i barhau gyda'r trefniant hyd at 31 Gorffennaf 2022.

1.4. Ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 31 Gorffennaf 2017, mae prif waith y GPCC wedi cynnwys monitro'r cynllun a paratoi adroddiadau monitro blynyddol, paratoi canllawiau cynllunio atodol, rhoi arweiniad polisi cynllunio i Wasanaethau Cynllunio'r ddau awdurdod, ymateb i ymgynghoriadau gan Llywodraeth Cymru a chychwyn ar y broses o adolygu'r cynllun. Ym mis Mawrth 2022, cyflawnwyd y cam cyntaf yn y broses adolygu pan gafwyd sêl bendith y Cynghorau Llawn, i gyhoeddi a chyflwyno'r Adroddiad Adolygu i Llywodraeth Cymru.

1.5. Y prif waith nesaf sydd ar y gweill i'r GPCC yw paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd, ac mae'r gwaith yma'n flaenoriaeth uchel i'r ddau Awdurdod. Mae Atodiad 1 yn cynnwys trosolwg o'r camau a'r broses o baratoi Cynllun Newydd.

## 2. Darpariaeth y Gwasanaeth Polisi Cynllunio i'r dyfodol

2.1 Gan fod y cytundeb cydweithio yn dod i ben diwedd Gorffennaf 2022, mae trafodaethau lefel uchel wedi bod rhwng swyddogion y ddau awdurdod dros y misoedd diwethaf ynglŷn a dyfodol y GPCC. Daethpwyd i gasgliad ar y cyd y dylid argymell i Gabinet Cyngor Gwynedd, ac i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Mon, i fwrw ymlaen gyda phroses i ddirwyn y trefniant cydweithio presennol i ben.

2.2 Mae'r hyn sydd yn cael ei argymell gan y ddau awdurdod wedi ei wneud gan roi ystyriaeth i'r flaenoriaeth uchel sydd yna i baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd, a'r hyn sydd wedi newid ers i'r trefniant cydweithio gael ei sefydlu yn 2011.

2.3 Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r ddau brif opsiwn oedd yn agored i'r awdurdodau ar gyfer darpariaeth Gwasanaeth Polisi Cynllunio i'r dyfodol, gan edrych ar beth fuasai'r opsiwn yn gynnwys, yn ogystal ac ystyriaeth o unrhyw fuddion a chyfleoedd, anfanteision a risgiau i Gwynedd yn sgil hynny. Mae'r isod felly'n cynnwys asesiad o'r ddau brif opsiwn a'r holl faterion sydd wedi eu hystyried:

**Opsiwn 1: Parhau gyda'r trefniant cydweithio cyfredol**

2.4 Buasai opsiwn 1 yn cynnwys:

- Cytundeb cydweithio newydd ar gyfer gweithrediad y GPCC am gyfnod o 4 mlynedd o leiaf.
- Cytundeb newydd ar gyfer darparu a chefnogi'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.
- Paratoi un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd newydd.

2.5 Buasai opsiwn 1 yn golygu y buasai angen penderfyniad debyg i'r un wnaethpwyd gan y ddau Awdurdod yn ôl yn 2011, cyn cychwyn y broses o baratoi y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'n dilyn felly y gall y buddion i'r ddau awdurdod sydd yn cael eu hamlinellu'n rhan 1.2 o'r adroddiad, hefyd fod yn berthnasol wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Newydd. Rhaid hefyd ystyried fod yna fanteision yn gysylltiedig a'r ffaith fod:

- Y Tim (gwasanaeth) o 8 o swyddogion parhaol eisoes wedi ei sefydlu ynghyd a'r holl weithdrefnau perthnasol, a gyda profiad eisoes o baratoi Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi ei fabwysiadu.
- Trefniadau llywodraethu wedi eu sefydlu ynghyd a threfniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Y costau'n cael eu rhannu rhwng y ddau awdurdod fydd yn arbed arian i'r ddau awdurdod.

2.6 Gan nodi'r manteision uchod, mae'n rhaid ar yr un pryd cydnabod fod y cyd-destun cynllunio'n genedlaethol, rhanbarthol ac yn lleol wedi newid gryn dipyn ers i'r ddau awdurdod gytuno i sefydlu trefniadau cydweithio yn 2011. Ar yr un pryd mae dyheadau'r ddau awdurdod erbyn hyn, yn dra wahanol i'r sefyllfa yn ôl yn 2011. Tra'n derbyn fod manteision yn deillio o barhau gyda'r trefniadau cydweithio cyfredol, gall yr anfanteision a'r risgiau posib gynnwys:

- Yr angen i barhau i adrodd i ddau awdurdod gyda'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd newydd a gwaith polisi cysylltiedig.
- Ydy paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd newydd, am gwrdd a gweledigaeth a dyheadau unigol y ddau awdurdod ac oes modd paratoi Cynllun cadarn fydd yn cyflawni hynny?
- Sefydlu'r Cyd Bwyllgor Corfforedig sydd gyda'r gofyn statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru, sydd yn haen newydd o bolisi cynllunio nad oedd yn bodoli pan grëwyd y GPPC yn 2011. Mae ansicrwydd ynglŷn a beth fydd effaith hyn ar Wasanaethau Polisi Cynllunio Lleol o ran adnoddau ac ati rwan ac i'r dymor, gyda hyn yn fater sydd rhaid ei ystyried gan yr awdurdodau'n unigol.

**Opsiwn 2: Dod a'r trefniant cydweithio i ben**

2.7 Dyma'r opsiwn mae'r ddau Awdurdod yn argymell i Gabinet Cyngor Gwynedd ac i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Mon. Buasai'r opsiwn yma'n cynnwys:

- Diddymu'r GPPC a chreu Gwasanaethau Polisi Cynllunio ar wahân ar gyfer y ddau awdurdod.
- Bod yr awdurdodau yn paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol Newydd ar wahân ar gyfer eu hardaloedd.
- Diddymu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a chael trefniadau ar wahân ar gyfer y ddau awdurdod, fydd yn bwydo mewn i, a gwneud penderfyniadau wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd a gwaith polisi cynllunio perthnasol.
- Parhau i gydweithio ar y gwaith sydd yn rhaid ei wneud i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

2.8 Mae'r manteision a'r cyfleoedd gydag opsiwn 2 yn cynnwys:

- Creu Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd sydd yn rhoi perchnogaeth cant y cant i Gwynedd ac yn canolbwyntio ar anghenion trigolion awdurdod cynllunio Gwynedd.
- Paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd sydd gyda gweledigaeth ar gyfer ardal awdurdod Cynllunio Gwynedd, a gyda polisïau cynllunio lleol sydd yn hwyluso hynny.
- Y mewnbwn gwleidyddol i'r broses o baratoi a gwneud penderfyniadau ar y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd, wedi ei gyfyngu i Aelodau Cyngor Gwynedd yn unig.
- Yr angen i adrodd i un awdurdod yn unig wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd a gwaith polisi cynllunio perthnasol.
- Cyfle i fanteisio ar arbenigedd y Gwasanaeth Polisi Cynllunio i arwain ar brosiectau (er enghraifft tai haf ac ail gartrefi), neu i gynnal gwaith ymchwil sydd yn bwysig i Wynedd.
- Cyfleoedd datblygol i staff ac i edrych ar strwythur Gwasanaeth Polisi Cynllunio sydd yn cwrdd ag anghenion Gwynedd.
- Cyfleoedd i ystyried y galw posib ar adnoddau staff y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Gwynedd, yn sgil y gwaith fydd yn mynd ymlaen i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y Gogledd Cymru.
- Cyfleoedd i gael mewnbwn a dylanwad Gwynedd ar y broses o baratoi y Cynllun Datblygu Strategol.
- Cyfleoedd i gynllunio ar gyfer y dyfodol yng Ngwynedd gan nodi y bydd gofynion y Llywodraeth o ran paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn newid ar ôl i'r Cynllun Datblygu Strategol gael ei fabwysiadu, gyda'r gofyn wedyn i awdurdodau cynllunio baratoi Cynllun Datblygu Lleol Cryno ("lite").
- Cyfleoedd i barhau i gydweithio gydag Ynys Mon ac awdurdodau eraill pan fod manteision yn deillio o hynny.

2.9 Gellir gweld o'r uchod fod gryn dipyn o newid wedi bod yn y cyd-destun polisi cynllunio ers 2011, yn enwedig ar lefel rhanbarthol gyda'r gofyn statudol am Gynlluniau Datblygu Strategol. Y prif gyfleoedd mae'r opsiwn yma yn ei gynnig yw rhoi perchnogaeth o Wasanaethau Polisi Cynllunio a Chynlluniau Datblygu Lleol Newydd i Gwynedd, fydd drwy hynny'n canolbwyntio ar gwrdd a gweledigaeth a dyheadau Gwynedd ac anghenion trigolion yr ardal. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfleoedd i geisio cynllunio ar gyfer anghenion Gwasanaeth Polisi Cynllunio Gwynedd ar gyfer y dyfodol, gan ystyried goblygiadau'r Cynllun Datblygu Strategol,

2.10 Mae angen hefyd ystyried yr anfanteision a'r risgiau posib fuasai'n deillio o ddod a'r trefniant cydweithio i ben a fuasai'n cynnwys:

**Creu Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Gwynedd**

2.11 Gan y bydd angen dilyn prosesau penodol i ddirwyn y GPCC i ben gan gynnwys trosglwyddo / recriwtio staff, bydd hyn yn oedi'r broses o gychwyn paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd am gyfnod o rhwng 6 i 12 mis, gan y bydd angen sefydlu'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd yn y lle cyntaf. Mae oedi hefyd yn cynyddu'r risg o beidio cael Cynllun newydd wedi ei fabwysiadu cyn diwedd 2026 (sef diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd), ac yn sgil hynny y risgiau o geisiadau am ddatblygiadau hapfasnachol.

2.12 Mae 8 swydd llawn amser yn y Gwasanaeth ar hyn o bryd, sydd yn cymharu gyda 12 pan sefydlwyd y GPCC yn 2011 (7 o Gwynedd a 5 o Ynys Mon). Rhagwelir y buasai angen isafswm o 6 cynllunydd parhaol (yn cynnwys Rheolwr) gydag 1 swyddog cefnogol dros dro, ar gyfer Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd i ardal awdurdod cynllunio Gwynedd. Buasai'r gost flynyddol ychwanegol parhaol i'r Cyngor oddeutu £70,000. Hefyd, buasai cost dros dro blynyddol am 3 mlynedd o tua £37,000, gan nodi fod hanner y cyllid yma mewn lle yn barod yn sgil bid refeniw un-tro llwyddiannus, a'r hanner arall yn cael ei gyllido allan o gronfa wrth gefn sydd yn cynnwys arian sydd wedi ei arbed drwy gydweithio. Mae'r sail i'r strwythur newydd a'r costau ychwanegol yn cynnwys:

- Gan gydnabod y maes gwaith a'r dyletswyddau cysylltiedig (gweler isod) mae'n hanfodol creu Gwasanaeth Cynllunio Polisi ar gyfer Gwynedd gyda Rheolwr Gwasanaeth.
- Yr angen i roi y cyfleoedd gorau i'r Cyngor recriwtio swyddogion cynllunio ar lefel briodol, er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd.
- Bydd prif waith y Gwasanaeth yn cynnwys paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd.
- Bydd rhaid ar yr un pryd ac ar gyfer y cyfnod at 2026, parhau i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (gydag Ynys Mon).
- Bydd angen mewnbwn y Gwasanaeth i'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth fydd yn digwydd ar yr un pryd.
- Bydd y Gwasanaeth yn debygol o fod yn parhau i arwain ar faterion tai haf ac ail gartrefi o safbwynt cynllunio, ac o bosib prosiectau eraill sydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

- Parhau i ddelio gyda materion cynllunio polisi cynllunio dydd i ddydd fel rhoi arweiniad polisi cynllunio i Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor, datblygwyr a'r cyhoedd, ac ymateb i ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru a dogfennau gan gyrff eraill.

2.13 Rhaid cydnabod felly y bydd mwy o gostau staff i'r Cyngor gyda'r opsiwn yma. Hefyd, rhaid cydnabod nad oes sicrwydd y bydd Gwynedd yn llwyddiannus wrth recriwtio staff i'r Gwasanaeth newydd, gan nodi y bydd Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd hefyd yn cael ei greu yn Ynys Mon. Y gwirionedd yw y bydd mwy o swyddi ar gael rhwng y ddau Wasanaeth newydd, na'r 8 swydd sydd yn y Gwasanaeth ar hyn o bryd. Ar yr un pryd hefyd, bydd y Cyd bwyllgor Corfforedig yn debygol o fod yn hysbysebu'r swyddi fydd eu hangen ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol. Felly, mae risg y gall anawsterau gyda llenwi swyddi effeithio ar ac oedi'r broses o gychwyn ac o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Hefyd, rhaid cofio fod darparu'r GPCC ers 2011 wedi rhannu'r costau staff 50/50 ac wedi arbed costau, a bod arbedion wedi eu gweithredu dros y blynyddoedd, gwnaeth gwtogi'r nifer o swyddi o 12 i 8.

**Creu Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd**

2.14 Mae costau unwaith ac am byth yn gysylltiedig a'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol, os yw hyn ar y cyd a'i peidio. Mae'r costau'n cynnwys comisiynu unrhyw waith sydd ei angen ar gyfer hel y sail tystiolaeth, a'r Archwiliad Cyhoeddus ar ddiwedd y broses, lle mae'r gost fwyaf. Bydd dal cyfleoedd i gomisiynu rhai darnau o waith ar y cyd (gydag Ynys Mon a neu gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac awdurdodau eraill) – ond mae'n debygol y bydd angen comisiynu gwaith sydd yn benodol i Gwynedd, a bydd rhaid i Wynedd dalu costau'r Archwiliad Cyhoeddus i gyd.

2.15 Gan mai Gwynedd fydd yn talu y costau i gyd ar gyfer y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol, ni fydd posib arbed costau fel sydd wedi bod yn bosib gyda'r trefniant cydweithio cyfredol. Fel amcan ddangosol yn unig, gall y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd yn unig gostio oddeutu £150, 000 yn fwy. Mae'n debyg fydd modd cyfrannu at gyfanswm costau'r broses allan o'r arbedion yn y gronfa wrth gefn sydd wedi eu cynilo drwy gydweithio dros y blynyddoedd diwethaf, ond bydd angen gwneud bid am arian refeniw "un tro" yn y dyfodol ar gyfer cyfarch yr holl gostau.

**Yr opsiwn sydd yn cael ei ffafrio**

2.16 Mae'r ddau awdurdod yn dilyn eu trafodaethau dros y misoedd diwethaf yn argymell cychwyn ar y broses o ddod a'r trefniadau cydweithio i ben, sef opsiwn 2 ac mae'r manteision i Gwynedd wedi eu gosod yn rhan 2.8 o'r adroddiad. O safbwynt y cyfleoedd i ganolbwyntio'n benodol ar weledigaeth a dyheadau Cyngor Gwynedd ac anghenion trigolion Gwynedd, yna dod a'r trefniadau cydweithio i ben yw'r opsiwn a fuasai'n cyflawni hynny orau ac felly sydd yn cael ei ffafrio. Er mwyn sicrhau amser digonol ar gyfer hwyluso trosglwyddiad llyfn o'r trefniadau cydweithio presennol, a symud i greu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar wahân, credir y bydd angen ymestyn y gytundeb cydweithio hyd at diwedd Mawrth 2023, a dod a'r trefniant cydweithio i ben wedi hynny.

2.17 Rhaid pwysleisio nad yw hyn yn unrhyw adlewyrchiad o waith y GPCC a'r gefnogaeth iddynt gan ddau Awdurdod ers 2011, gan gydnabod fod y GPPC yn sicr wedi cyflawni ei bwrpas ac wedi dod a buddion i'r ddau Awdurdod.

2.18 Wrth ddod i benderfyniad ar y mater yma bydd angen i'r Cabinet bwyso a mesur y manteision a'r cyfleoedd, yn erbyn yr anfanteision a'r risgiau sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad yn sgil dod a'r trefniant cydweithio i ben.

**3. Ymgynghori a'r camau nesaf**

3.1 Mae trafodaethau wedi eu cynnal yn Nhîm Rheoli'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd, yn ogystal a gydag uwch swyddogion eraill y ddau Awdurdod. Hefyd, mae cyfarfod wedi bod gyda staff y GPCC, i egluro'r sefyllfa a'r hyn sydd yn cael ei argymell ar gyfer y dyfodol, ac mae'r Tim Rheoli'n eu diweddaru yn ôl yr angen.

3.2 Mae Atodiad 2 i'r adroddiad yn cynnwys y camau a'r amserlen mae Tim Rheoli'r GPCC wedi eu cytuno ar gyfer y misoedd nesaf, ond bydd angen sêl bendith y Cabinet i weithredu ar rai o'r camau.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Cyflwynir unrhyw sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb yn y cyfarfod.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae ymestyn y trefniant presennol yn gam synhwyrol, fydd yn caniatáu i'r ddau gyngor baratoi ar gyfer trefniadau newydd o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Byddai penderfyniad y Cabinet i ragfarnu'r drefn bidio yn golygu na fydd modd pwyso a mesur y gofyn yma yn erbyn bidiau eraill am adnoddau cyfyngedig, ond mae'r mater hwn yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor a felly mae'r hyn a gynhigir yn ffordd resymol o weithredu. Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi gweithio gyda'r awdur ar yr wybodaeth ariannol a gallaf gadarnhau ei gywirdeb.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1: Y camau ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd**
**Atodiad 2: Y camau nesaf ar gyfer darparu Gwasanaethau Polisi Cynllunio ar wahân**

**Atodiad 1: Camau allweddol ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol**

| Cam Allweddol | | Amserlenni |
|---|---|---|
| **Diffiniol** | | |
| **Cam 1** | **Cytundeb Cyflawni**<br>Paratoi a chyflwyno | Hyd at bedair wythnos ar gyfer cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru<br>(Yn fyrrach fel arfer) |
| **Cam 2** | **Cyn adneuo**<br>Paratoi a chynnwys | Tua 1.5 mlynedd |
| **Cam 3** | **Strategaeth a Ffefrir**<br>Ymgynghoriad cyhoeddus | |
| **Cam 4** | **Cynllun adneuo**<br>Ymgynghoriad cyhoeddus | Tua blwyddyn |
| **Dangosol** | | **Amserlenni** |
| **Cam 5** | **Cyflwyno** | Tua 11 mis yn unol â Chanllawiau Gweithdrefnol yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Cam 6** | **Archwilio** | |
| **Cam 7** | **Adroddiad yr Arolygydd** | |
| **Cam 8** | **Mabwysiadu** | |
| | | **Cyfanswm amser paratoi'r cynllun tair blynedd a hanner**<br>(Yn ogystal ag un cyfnod llithriant o dri mis) |

**ATODIAD 2**

**CAMAU GWEITHREDU AR GYFER GWASANAETH POLISI CYNLLUNIO 2022/23**

**TIM RHEOLI'R GPCC WEDI EU CYTUNO AR Y 10 MEHEFIN (HYN YN DDAROSYNGEDIG I BENDERFYNIAD Y CABINET)**

| MATER | GWEITHREDIADAU AC ALLBYNNAU | ERBYN |
|---|---|---|
| **Cysylltu gyda Llywodraeth Cymru** | 1. Cyfarfod gyda swyddogion LlC – GJ i drefnu cyfarfod i'r TRh gyda Mark Newey a Candice Myers. | **Cyn diwedd Mehefin 2022** |
| **Penderfyniad ar y Gwasanaeth Polisi Cynllunio i'r dyfodol (cytundeb yn dod i ben diwedd Gorffennaf 2022)** | Cytunodd y TRh fod angen cyflwyno Adroddiadau i'r Cabinet (CG) a'r Pwyllgor Gwaith (YM) cyn diwedd Gorffennaf 2022 gydag argymhellion i gynnwys:<br><br>• Cytunodd y TRh yr angen i ymestyn y gytundeb at diwedd Mawrth 2023 er mwyn cael sefydlu trefniadau newydd a delio gyda materion staffio, gyda'r cytundeb i ddod ben wedi hynny.<br>• Trefniadau ar gyfer Llywodraethu i'r dyfodol gan y bydd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei ddiddymu.<br>• Paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar wahân<br>• Trefniant cydweithio i'r dyfodol<br>• Materion staffio.<br>(Nodir y bydd rhai o'r materion yma yn faterion i'r Awdurdodau'n unigol – ond os oes costau ychwanegol sydd yn debygol ochr CG – bydd angen adnabod rhain)<br><br>Cytunodd y TRh i gysoni'r adroddiadau cyn belled ac y bo modd gyda GJ i rannu drafft gyda CB a DJ. | **19 Gorffennaf 2022 – cyfarfodydd Cabinet (CG) a Pwyllgor Gwaith (YM)** |
| **Staff y GPCC a'r Gwasanaethau Polisi unigol (CG ac YM)** | 1. Diweddaru a chefnogi staff y Gwasanaeth. RJ i ddiweddaru'n ei chyfarfodydd tim – gyda'r TRh hefyd i ddiweddaru pan yn amserol.<br><br>2. Arweiniad gan Adnoddau Dynol (materion TUPE etc). CB i gadarnhau cyswllt adnoddau dynol YM a GJ i gadarnhau cyswllt CG.<br><br>3. Creu strwythurau staff Gwasanaethau Polisi newydd ar gyfer yr Awdurdodau unigol – yn ôl eu anghenion unigol, sefyllfa o ran cyllid, dyheadau unigol ac ati gan hefyd ystyried | **Parhaus**<br><br>**Cyn diwedd Mehefin 2022**<br><br>**Cyn diwedd Medi 2022** |

| | | |
|---|---|---|
| | gofynion ychwanegol SDP / CJC. Hyn i gynnwys SDd ac arfarnu (os yn angenrheidiol). Cytunodd y TRh i drefniadau'r awdurdodau redeg gyfochrog. GJ i yrru swydd ddisgrifiadau presennol i DJ cgabm<br><br>4. Ymgynghori ar y strwythurau newydd – cytunodd y TRh y dylid gwneud hynny ar y cyd gyda staff y Gwasanaeth – mewnbwn adnoddau dynnol ei angen.<br><br>5. Recriwtio staff i'r Strwythurau. | <br><br><br><br><br><br>**Hydref 2022**<br><br><br><br><br>**Cyn diwedd Mawrth 2023** |
| **Cyllid** | 1. CB a GJ i gadarnhau pwyntiau cyswllt ar gyfer materion cyllid<br>2. CG angen anfonebu YM ar gyfer 2022/23 – am y flwyddyn ar ôl y penderfyniad yn Gorffennaf 2022.<br>3. Angen trosglwyddo 50% o unrhyw gyllid yn y gronfa wrth gefn i YM a thacluso cyfrifon pan ddaw y gytundeb i ben<br>**4.** Y ddau Awdurdod angen ystyried sut i gyfarch unrhyw gostau cyllidol ychwanegol gall ddeillio o'u strwythurau staff newydd | **Cyn diwedd Mehefin 2022**<br><br>**Gorffennaf / Awst 2022**<br><br>**Ar ôl Mawrth 2023**<br><br><br>**I'r awdurdodau ystyried yn unigol.** |
| **Trefniadau llywodraethu ar gyfer GPCC hyd at diwedd y cytundeb cydweithio** | 1. Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd newydd wedi ei greu – cyfarfod ar y 17 Mehefin 2022.<br><br>• Cytunodd y TRh yr angen am sesiwn codi ymwybyddiaeth cyn y Pwyllgor<br>• Cymeradwyo cyfrifon – unig benderfyniad angen gan y Pwyllgor. | **17 Mehefin 2022** |
| **Rhaglen waith lefel uchel – tan diwedd y cytundeb cydweithio** | **1. <u>Cytundebau Cyflawni (Drafft)</u>**<br>Cytunodd y TRh y dymuniad gan y ddau Awdurdod i baratoi Cytundebau Cyflawni (drafft) er mwyn hwyluso'r trefniadau ar wahân sydd ar y gweill. Cytunwyd i beidio adrodd y Cytundebau i'r Panel / Pwyllgor ar y Cyd – gan mai materion i'r awdurdodau unigol eu hystyried fydd hyn. Bydd y CC ar ffurf drafft a bydd angen i'r Awdurdodau unigol lenwi fewn gwybodaeth o ran adnoddau ayyb.<br>**2. <u>Adroddiad Monitro Blynyddol</u>**<br>Gwaith yn **<u>angenrheidiol</u>** i gwblhau AMB 2021-2022. Cytunodd y TRh fod rhaid | <br><br><br>**Hyd at Mawrth 2023**<br><br><br><br><br><br><br><br><br>**Cyn diwedd Hydref 2022** |

| | | |
|---|---|---|
| | gwneud hyn a'i adrodd i'r Panel a'r Pwyllgor ar y Cyd cyn cyflwyno i LlC.<br><br>**Cytunodd y TRh hefyd ar y darnau gwaith isod:**<br><br>**3. Monitro Tai**<br>Gwaith yn **angenrheidio**l wedi cychwyn ar hyn yn barod 2021-2022. Gwybodaeth yn bwydo i'r AMB<br>**4. Ceisiadau Cynllunio**<br>Parhau efo rhoi mewnbwn ar ceisiadau cynllunio a cyngor cyn cais fel mae'r angen yn codi.<br>**5. Strategic Flood Conseqeuces Asessment ar y cyd efo Parc Cenedlaethol Eryri**<br>Gwaith wedi cychwyn ar hyn. Angen cyflwyno i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Tachwedd.<br>**6. Adolygiad Tir Cyflogaeth (Employment Land Review) – ar y cyd efo PCE.**<br>Hwn yn sail tystiolaeth pwysig ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae gwaith o baratoi briff wedi cychwyn efo trafodaeth yn parhau rhwng y 3 Awdurdod (Polisi Cynllunio a Dat Econ) . Mae gwneud gwaith ar y cyd yn synhwyrol am nifer o rhesymau yn cynnwys cost a deall yr angen ar draws yr is ranbarth – hyn wedi ei gytuno ar lefel swyddogion perthnasol.<br>7. Materion eraill sydd yn codi sydd yn flaenoriaethau i'r Awdurdodau (e.e. materion Tai Haf, ymgynghoriadau) | **Hyd at diwedd Mawrth 2023**<br><br>**Hyd at diwedd Mawrth 2023**<br><br>**Diwedd Tachwedd 2022**<br><br>**I'w gadarnhau**<br><br>**I'w gadarnhau** |
| **Fframwaith ar gyfer cydweithio ar ôl i'r cytundeb cydweithio ddod i ben** | 1. Angen cytundeb / dealltwriaeth anffurfiol rhwng ddau gyngor ar y gwaith fydd angen ei wneud gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a thu hwnt – gweler y rhaglenni gwaith posib isod. | **Cyn diwedd Mawrth 2023** |
| **Rhaglen waith ar ôl i'r gytundeb ddod i ben mewn cysylltiad a'r gofynion gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar Cyd hyd at 2026** | **Cytunodd y TRh fod y gwaith yma yn cynnwys:**<br><br>1. Adroddiad Monitro Blynyddol 2022-2023 ac yn flynyddol at 2026 (cyfnod y Cynllun) - pwy a sut fydd yn cael ei wneud gan nodi fod gweithdrefnau mewn lle yng Ngwynedd ar gyfer hyn eisoes.<br>2. Monitro Tai (gwaith yma yn hanfodol ar gyfer yr AMB) – mi fydd angen sefydlu ffordd o hel gwybodaeth y ddau awdurdod. Ar hyn o bryd defnyddio system allanol. | **1 i 4 yn barhaus hyd 2026** |

| | | |
|---|---|---|
| | 3. Ffigwr twf tai a hefyd ffigwr trothwy tai haf bydd angen i'r ddau awdurdod sefydlu ffordd o casglu'r wybodaeth yma. Mae'r gwaith yma yn hanfodol ar gyfer y gwaith Gwasanaethau Cynllunio'r ddau Awdurdod.<br>4. Darpariaeth o arweiniad cyson gyda gweithrediad polisïau cynllunio lle bo angen hynny yn sgil penderfyniad apêl neu lle bo newid ar lefel genedlaethol | |
| **Cyfleoedd cydweithio ychwanegol.** | **Cytunodd y TRh y gall hyn gynnwys:**<br><br>**Cynlluniau Datblygu Lleol newydd unigol**<br>1. Cyd-gomisiynu gwaith ymchwil / hel tystiolaeth lle bo manteision i'r ddau Awdurdod.<br>2. Posibilrwydd o wneud CCA ar y cyd<br><br>**Cynlluniau Strategol sydd yn effeithio ar y ddau Awdurdod (e.e. Wylfa, Grid Cenedlaethol)** | **Pan fod angen** |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Gorffennaf 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Wyn Williams - Pennaeth Adran yr Amgylchedd** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**1. CYFLWYNIAD YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; a lle mae'r mesurau perfformiad arni.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi eu trafod mewn cyfarfod rhyngof i, y Prif Weithredwr, Pennaeth a Dirprwy Bennaeth yr Adran.

1.3 Ers yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Rhagfyr, mae'r Adran wedi adolygu'r mesuryddion perfformiad a oedd yn eu lle ar gyfer 2021/22, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Eglurwyd hyn yn Adroddiad Blynyddol yr Adran a gellir bwrw golwg ar y perfformiad blaenorol ar gyfer y cyfnod o fis Rhagfyr 2021 hyd Mawrth 2022.

1.4 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda perfformiad yr adran, ac yn cydnabod yr heriau mae gwasanaethau wedi eu wynebu a'r gwaith o ddelio gydag ôl-groniad gwaith cyfnod y pandemig. Lle mae yna ôl-groniad gan y gwasanaethau, rydw i wedi gofyn iddynt amlygu hynny fel bod modd sicrhau fod cynlluniau manwl yn eu lle i fynd i'r afael â'r gwaith. Yn gyffredinol, rwy'n hyderus fod yr adran yn rhoi cynlluniau addas yn eu lle ar gyfer adfer y sefyllfa, a byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

**2. BLAENORIAETHAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023**

2.1 **Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur**

2.1.2 Ers i'r Cabinet fabwysiadu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ym mis Mawrth eleni mae cysylltiadau wedi eu datblygu gyda phartneriaid allanol (DEG/GwyrddNi, Partneriaeth Ogwen, Senedd Ieuenctid) er mwyn rhannu gwybodaeth am y Cynllun ac i ddatblygu trefniadau ymgysylltu ar y cyd. Rydym hefyd wedi bod yn cyfrannu at Raglen Cefnogi Trosglwyddiad ac Adferiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gan rannu gwybodaeth am ein gwaith o dan eu 4 prif thema – adeiladau, defnydd tir, symud a thrafnidiaeth, caffael.

2.1.3 Rydym yn parhau i ddatblygu'r rhaglen waith ar gyfer prosiectau'r Cynllun ar y cyd â swyddogion mewn amrywiol adrannau ac yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith o baratoi cynllun i gyllido'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur.

2.1.4 O ran y camau nesaf, mae trefniadau i'r Bwrdd Newid Hinsawdd ail-ddechrau cyfarfod er mwyn rhoi arweiniad i'r rhaglen waith. Yn ddibynnol ar gytuno gwariant, bydd y gwaith o gomisiynu rhaglenni – ee. hyfforddiant i staff ac aelodau, strategaeth fflyd yn gallu bwrw ymlaen.

2.2 **Capasiti Gwarchod y Cyhoedd**

Yn dilyn cynnal adolygiad yn 2021/22, cyflwynwyd bidiau ariannol llwyddiannus i gynyddu capasiti a chynllunio ar gyfer dilyniant i'r dyfodol yn y maes pwysig yma. Mae cyllid yn ei le i gyflwyno swyddi Arweinyddion Tîm o fewn y strwythur cyfredol. Yn ogystal, fel rhan o gynlluniau i sicrhau gwydnwch y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, mae bid 'un tro' wedi ei sicrhau i gyllido swyddi ar gyfer 3 hyfforddai am gyfnod o 3 blynedd yn y maes gyda'r bwriad o hysbysebu'r cyfleoedd yma yn fuan.

2.3 **Ail gartrefi**

Mae'r Adran Amgylchedd yn cyfrannu tuag at Flaenoriaeth Gwella 'Mynediad at gartrefi addas'.

Mae'r Adran wedi arwain ymateb y Cyngor i ymgynghoriadau penodol yn y maes cynllunio ac rydym yn parhau mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am y camau nesaf. Mae'r Adran yn cydlynu a chyfrannu at Grŵp trawsadrannol yn cynnwys Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion perthnasol sydd wedi ei sefydlu i hwyluso ymdrechion y Cyngor yn y maes allweddol yma.

2.4 **Rheolaeth Cartrefi Modur**

Mae'r Adran hefyd yn cyfrannu tuag at flaenoriaeth yn y maes Twristiaeth Gynaliadwy wrth gydweithio gyda'r Adran Economi a Chymuned ar brosiect 'Aros-fan' fydd yn peilota datblygu hyd at 6 safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros nos. Mae grant wedi ei sicrhau o gronfa Y Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru i helpu ariannu'r prosiect ar gyfer treialu'r llecynnau, gyda'r bwriad fod ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno er mwyn rhoi'r seilwaith perthnasol yn ei le erbyn cyn diwedd 2022/23.

**3. PERFFORMIAD**

Isod, rwy'n amlinellu'r prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr adran yn y cyfnod ers dechrau Ebrill 2022. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

**Gwasanaeth Cynllunio**

3.1 Mae'n galonogol gallu adrodd fod yna gynnydd positif yn **yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio.** Derbyniwyd cyfanswm o 215 o geisiadau yn Ebrill a Mai a gwelwyd fod yr amser i benderfynu ar gais wedi gostwng i 78 diwrnod o'i gymharu â'r cyfartaledd o 103 diwrnod y llynedd, gyda 71% o benderfyniadau o fewn yr amser statudol. Cydnabyddir fod y broses o glirio ôl-groniad ceisiadau yn parhau yn her, ac mae newidiadau dros-dro wedi eu cyflwyno i strwythur y tîm swyddogion cynllunio i greu swydd arweinydd tîm ychwanegol. Golyga hyn fod yr arweinyddion tîm yn gallu rhoi digon o gefnogaeth i'r swyddogion a helpu gyda chapasiti i ddelio gydag achosion mawr.

3.2 Mae'r nifer o ymholiadau a cheisiadau am gyngor ymlaen llaw mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn ei dderbyn yn parhau yn uchel ac yn cael effaith ar gapasiti swyddogion i ddelio gyda cheisiadau cynllunio a gwaith dydd i ddydd y gwasanaeth. Mae ymdrech i glirio'r ôl-groniad ar waith a bydd hyn yn parhau dros y misoedd nesaf.

3.3 Yn ystod y cyfnod o 01/04/22 i 31/05/22, derbyniodd yr Uned **Gorfodaeth Cynllunio** 45 o gwynion newydd yn ymwneud â thor-rheolaeth cynllunio, gydag 11 achos wedi eu cau. Mae'r nifer o achosion agored bellach yn 726 sy'n dangos cynnydd ac ôl-groniad blynyddol ac yn amlygu'r heriau o ddelio efo'r llwyth gwaith cyfredol. Mae cytundeb swyddog a benodwyd dros-dro y llynedd wedi ei ymestyn am flwyddyn ychwanegol a disgwylir y bydd hynny yn helpu perfformiad y tîm, a bydd gwaith yn digwydd dros y misoedd nesaf i fwrw golwg manwl er mwyn delio efo'r ôl-groniad o achosion.

**Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd**

3.4 Mae staff y Gwasanaeth yma yn darparu arweiniad polisi ar geisiadau cynllunio a cheisiadau cyn-cyflwyno ceisiadau. Mae'r mesurydd newydd yma yn dangos fod **91% o ymatebion y gwasanaeth Polisi Cynllunio** ar yr ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais wedi ei eu cyflwyno **o fewn 10 diwrnod ar gyfartaledd** ar gyfer y cyfnod. Mae'n werth nodi gall y manylder sydd ei angen er mwyn gallu ymateb i ymgynghoriadau amrywio'n sylweddol yn ddibynnol ar y cais a golyga hyn fod paratoi ymateb yn gallu cymryd mwy o amser i swyddog neu angen mewnbwn gan mwy nag un swyddog.

3.5 Mae'n gofyn statudol i baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) sydd yn adrodd ar berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref yn flynyddol. Mae gwaith wedi cychwn ar adroddiad 2021/22 wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth. Bydd y Gwasanaeth hefyd yn cychwyn gwaith ar baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig maes o law sydd wrth gwrs yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor.

**Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu**

3.6 Roedd **canran y ceisiadau Rheolaeth Adeiladu a benderfynir o fewn amseroedd statudol** (5 ac 8 wythnos yn ddibynnol ar natur y cais) **yn 91%** ar gyfer Ebrill a Mai 2022.

3.7 Mae angen newidiadau pellach i lif gwaith system gyfrifiadurol a ddefnyddir a hyfforddiant staff er mwyn gallu casglu'r holl wybodaeth o ran y nifer o geisiadau am wasanaeth ar faterion gorfodaeth. Ond gallwn adrodd fod y gwasanaeth wedi ymdrin â 14 achos yn ystod Ebrill a Mai - 8 o ran strwythurau peryglus a 6 ym maes gorfodaeth (gwaith anawdurdodedig).

3.8 Braf gallu adrodd fod **100% o geisiadau am wasanaeth cyffredinol (cais am gyngor/ymholiad) wedi eu cau** yn ystod y ddau fis dan sylw, gyda chyfartaledd o 4 diwrnod prosesu ceisiadau.

**Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd**

3.9 Ar ôl canolbwyntio ymdrechion i osgoi ymlediad Covid-19 yn ystod y pandemig, mae'r gwaith o sicrhau fod busnesau bwyd yn cyrraedd **safonau hylendid bwyd** wedi dwysau dros y misoedd diwethaf. Roedd 2,189 o fusnesau bwyd Gwynedd yn destun y drefn sgorio hylendid bwyd ar 31/5/22. O'r rhain, roedd 2,176 (99.41%) yn cyrraedd y safon boddhaol neu uwch ac 13 (0.59%) ddim yn cwrdd â'r safonau. Bydd pob un o'r 13 busnes wedi cael ail-ymweliad, ond nid oes modd cyflwyno sgôr o'r newydd oni bai eu bod yn gwneud cais am hynny neu'n ennill apêl yn erbyn y sgôr hylendid gwreiddiol.

3.10 Yn unol â Chynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd, mae pob eiddo categori risg A (Hylendid a Safonau) wedi derbyn archwiliad, a phob eiddo risg hylendid B heblaw am un wedi ei archwilio. Bydd swyddogion rŵan yn canolbwyntio ar archwilio eiddo tymhorol (ar agor yn ystod yr haf yn unig) risg hylendid categori C a D. Serch hynny, mae ôl-groniad o'r blynyddoedd blaenorol lle roedd staff yn canolbwyntio ar faes Covid-19 ac mae'r archwiliadau yma yn rhan o raglen waith y gwasanaeth.

3.11 Mae'r **Gwasanaeth Safonau Masnach** yn ymwneud â materion Iechyd a Lles Anifeiliaid ynghyd â Gwarchod Defnyddwyr. Mae nod blynyddol o archwilio 49 o sefydliadau risg uchel yn ystod 2022/23, ac er mai 3 archwiliad (6.12%) sydd wedi eu cwblhau hyd yma, rwy'n hyderus y bydd y gwasanaeth yn cwblhau'r gwaith gan fod y mwyafrif o archwiliadau yn cael eu cynnal yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf.

Mae'n dyst o arbenigedd y staff fod Gwasanaeth yn arwain a chydgordio rhaglen archwilio safonau hylendid bwyd anifeiliaid ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar draws y gogledd, ac mae'r gwaith yma yn bwrw ymlaen.

3.12 Derbyniodd **Safonau Masnach 171 o geisiadau am wasanaeth** yn ystod mis Ebrill a Mai – cyfuniad o geisiadau i'r maes lles anifeiliaid a gwarchod defnyddwyr. Mae'r mesurydd newydd yma yn dangos fod **137 (80%) o'r ceisiadau a dderbyniwyd wedi eu cau** yn y cyfnod dan sylw.

3.13 Fel yr adroddwyd yn Adroddiad Perfformiad y Cyngor 2021/22, gwelwyd cyfnod o salwch hirdymor yn y tîm **Trwyddedu**, a chyda cynnydd mewn ceisiadau cafwyd effaith ar yr amser yr oedd yn ei gymryd i benderfynu ceisiadau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Adran wedi cryfhau'r gefnogaeth weinyddol gan y tîm cefnogol a chychwyn defnyddio'r drefn gorfforaethol i gyflwyno ceisiadau am DBS ar-lein. Mae hyn wedi golygu fod yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau tacsi wedi gostwng erbyn diwedd mis Mai. Derbyniwyd 88 cais trwydded tacsi yn y cyfnod dan sylw, **gyda'r amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais am drwydded tacsi** yn **10 diwrnod**.

Ers canol Ebrill, mae trefn hunanwasanaeth wedi ei sefydlu ar gyflwyno ceisiadau trwydded tacsi yn electronig drwy wefan y Cyngor. Er y bydd yn cymryd amser i'r diwydiant arfer gyda'r newid, mae'r Gwasanaeth yn hyderus y bydd y cynnydd yn nefnydd y system newydd yn gwella'r amser y bydd yn ei gymryd i brosesu trwyddedau yn y dyfodol. Noder fod **77% o geisiadau tacsi ym mis Mai** wedi eu prosesu mewn **llai na 3 diwrnod**.

3.14 Mae cynnydd wedi bod yn nifer y **ceisiadau am wasanaeth** sy'n cael eu cyflwyno i'r tîm **Gwarchod y Cyhoedd (Llygredd a Thrwyddedu)**. O'r 689 cais a gyflwynwyd, mae 65% wedi eu cau. Mae'n werth nodi fod 36% o'r holl geisiadau am wasanaeth a dderbyniwyd sy'n ymwneud â materion gwarchod yr amgylchedd yn gwynion am sŵn. Mae cwynion o'r fath yn cymryd amser i'w hymchwilio gan fod angen casglu tystiolaeth dros gyfnod o amser er mwyn penderfynu sut i weithredu ar bwerau i ymdrin â niwsans statudol.

**Gwasanaeth Olrhain**

3.15 Mae'r gwasanaeth yma wedi gwneud cyfraniad allweddol i ddiogelu pobl Gwynedd ers dod yn weithredol ym Mehefin 2020 a hoffwn gydnabod fy ngwerthfawrogiad o waith y staff. Dros y misoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi parhau i weithredu gyda lefelau is wrth i'r gwaith olrhain ostwng yn sgil newidiadau rheoliadau Covid-19. Ers dechrau mis Gorffennaf, mae cyfrifoldeb am y maes yn cael ei ddarparu ar sail rhanbarthol dan arweiniad Cyngor Sir y Fflint. Er hyn, mae'n bwysig nodi y bydd unrhyw gynnydd sylweddol mewn achosion Covid-19 yng Ngwynedd yn y dyfodol yn gofyn am fewnbwn staff Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ac mae hyn yn fater fydd yn cael ei uchafu ar Gofrestr Risg yr Adran.

**Gwasanaethau Rheoli Rhwydwaith**

3.16 Mae 9 Swyddog Gorfodaeth Parcio yn gweithredu ar draws y sir dros 7 diwrnod yr wythnos bellach, gan gynnwys oriau hyblyg y tu hwnt i oriau arferol. Mae mesurydd newydd wedi ei gyflwyno sef yr **amser a gymerir i ymateb i gwynion am barcio anghyfreithlon**. Yn ystod y cyfnod dan sylw, derbyniwyd **25 cwyn**, gyda staff yn **ymweld pob safle dan sylw o fewn tridiau** i dderbyn y cais, gydag **ymweliad o fewn un diwrnod mewn 50% o'r achosion**. **Doedd dim modd gorfodi mewn 8% o'r achosion** am nad oedd cyflwr y cyfyngiadau yn cyrraedd y safon angenrheidiol, ac mae ceisiadau wedi eu trosglwyddo i Adran Briffyrdd y Cyngor ar gyfer ail baentio'r ffordd.

3.17 Mae'r mesurydd newydd arall ar gyfer y maes parcio yn ymwneud â'r **ganran o apeliadau a gyflwynwyd i'r beirniad annibynnol sydd wedi bod yn llwyddiannus**. Caiff dirwyon eu rhoddi i gerbydau sydd yn parcio yn groes i'r cyfyngiadau ar y stryd ac oddi ar y stryd (meysydd parcio). Mae'r gwasanaeth yn ymdrin â phawb mewn modd cyson, teg a thryloyw ac mae gan bob modurwr hawl i gyflwyno apêl petaent yn teimlo fod unrhyw annhegwch neu gamgymeriad wedi digwydd. Cyflwynwyd **373 o apeliadau yn ystod y cyfnod penodedig, gyda 73, sef 20% ohonynt yn cael eu dileu**. Ar wahân i sefyllfaoedd eithafol, mae'r mwyafrif o'r apeliadau llwyddiannus gan unigolion sydd heb arddangos tocynnau dilys am amryw o wahanol resymau e.e. y tocyn wedi syrthio o'r golwg. Caiff pob apêl ystyriaeth lawn a phetai tystiolaeth gadarn yn atgyfnerthu fod camgymeriad diffuant wedi digwydd, mae'r ddirwy yn cael ei dileu.

3.18 Ers mis Ebrill, mae mesurydd newydd hefyd wedi ei gyflwyno i'r maes Gwaith Stryd i fonitro'r **canran y gweithiau gan ymgymerwyr statudol sydd wedi mynd dros yr amserlen wreiddiol**. Mae gweithiau a gyflawnir ar ein strydoedd neu ffyrdd yn rhan o fywyd dydd i ddydd, ac er iddynt achosi anhwylustod i aelodau'r cyhoedd o bryd i'w gilydd, maent yn allweddol i ddarparu a chynnal gwasanaethau cyfleustodau a thrafnidiaeth. Mae archwilwyr stryd y gwasanaeth yn gyfrifol am gydlynu a monitro'r holl weithgareddau gan ymgymerwyr statudol neu gontractwyr ar rwydwaith ffyrdd cyhoeddus ac yn ymdrechu i osgoi sefyllfaoedd lle caiff ardaloedd eu haflonyddu am gyfnodau hir. Dengys y data ar gyfer Ebrill a Mai fod 574 gwaith gan ymgymerwyr (cwmnïau trydan, nwy, dŵr ayb), ac o'r rhain roedd **91% yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen wreiddiol**. Gall gweithiau or-redeg y tu hwnt i'r amserlen wreiddiol am

amrywiol resymau e.e. dod ar draws rhywbeth annisgwyl ar ôl cychwyn tyllu'r ffordd, oedi oherwydd problemau staffio, dibynnu ar gwmnïau eraill, methu cael gafael ar yr offer neu gyfarpar priodol.

3.19 Mae mesurydd newydd wedi ei gyflwyno i **fonitro'r nifer o geisiadau am wasanaeth i'r Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau sydd wedi eu cau o fewn amser penodol**. Y bwriad ydi y bydd systemau yn eu lle i hwyluso trefniadau allu adrodd yr wybodaeth yma yn y cyfarfod herio perfformiad nesaf.

**Gwasanaeth Cludiant a Diogelwch y Ffyrdd**

3.20 Mae mesurydd newydd wedi ei gyflwyno i'r gwasanaeth sef y **nifer o geisiadau am wasanaeth sy'n cael eu cau o fewn amser penodol**. Mae gwaith ar y gweill i sefydlu system i alluogi'r gwasanaeth i adrodd ar berfformiad yn y maes yma, gyda'r bwriad o adrodd ar berfformiad i'r cyfarfod herio perfformiad nesaf.

Ar hyn o bryd, nid oes swyddogion monitro penodol yn eu lle i allu adrodd ar **ganran y gwasanaethau bysiau sydd ar amser**.

Mae'r Adran yn cydweithio gyda darparwyr Cludiant Cyhoeddus yn ogystal â chyrff eraill i geisio ymateb i unrhyw bryder neu rwystr sy'n codi, er enghraifft, drwy drefnu gwasanaeth ar alw neu sefydlu gwasanaeth newydd. Yn amlwg, mae costau tanwydd wedi cynyddu yn sylweddol ac mae hyn yn her fawr i weithredwyr bysiau a chwmnïau tacsis i fod yn gynaliadwy yn ariannol.

**Gwasanaeth Cefn Gwlad**

3.21 Ers mis Ebrill mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i sefydlu system benodol fydd yn eu galluogi i fonitro perfformiad y **ceisiadau am wasanaeth sy'n cael sylw priodol o fewn amser penodol**. Mae hyn yn fesurydd newydd ac mae staff yn cychwyn ymgyfarwyddo a defnyddio'r drefn newydd gyda'r bwriad o gychwyn defnyddio'r system yn llawn i gofnodi galwadau am wasanaeth ym mis Gorffennaf.

Fel rhan o gynllunio gwaith y Gwasanaeth am y blynyddoedd i ddod, mae dogfennau strategol yn cael eu cwblhau, sef:

- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy – mae drafft o'r Cynllun wedi ei baratoi, mae ymgynghoriad ar agor tan 12 Medi, ac rydym yn awyddus i glywed barn pobl a sefydliadau Gwynedd am y cynnwys.
- Cynllun Adfer Natur – mae cynnydd da ar baratoi'r Cynllun, a'r cam nesaf fydd ymgysylltu gyda rhanddeiliaid. Mae ymadawiad aelod o staff wedi achosi rhywfaint o oedi rhagwelir y bydd y Cynllun wedi ei gwblhau yn ystod 2022.

Mae argaeledd grantiau ar gyfer meysydd gwaith y Gwasanaeth wedi cynyddu yn ystod 2022/23, a hyd at ganol Mehefin, roedd y Gwasanaeth wedi denu £1.6 miliwn o amrywiol ffynonellau i wella mynediad, prosiectau yn AHNE Llŷn, ynghyd ag oddeutu £700,000 tuag at brosiectau Llefydd Lleol i Natur. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu manteisio a gwneud y defnydd gorau o'r grantiau yma, cytunwyd i glustnodi cyllid i Benodi Swyddog prosiectau am flwyddyn drwy'r Gronfa Trawsnewid, a braf gallu adrodd fod swyddog profiadol wedi ei benodi ym mis Mai sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweinyddu a gweithredu rhaglenni grant.

**Gwasanaethau Busnes yr Adran**

3.22 Fel rhan o ymrwymiad yn y maes bodlonrwydd cwsmer, mesurau newydd wedi eu cyflwyno ers mis Ebrill ar gyfer perfformiad ymateb i geisiadau gan y cyhoedd gan dimau swyddfa gefn yr Adran. Yn y maes **pridiannau tir**, fe gymerodd **35 diwrnod ar**

**gyfartaledd i brosesu ceisiadau** yn Ebrill a Mai, gyda chyfanswm o 495 cais wedi ei gyflwyno dros y ddau fis. Dylid nodi fod sefyllfa'r gwasanaeth wedi bod yn heriol gyda chynnydd yn y ceisiadau ac ymholiadau chwiliadau tir sy'n adlewyrchu prysurdeb y farchnad dai.

3.23 Mae trefn hefyd ers mis Ebrill i fesur **canran y galwadau ffôn i grŵp Gwarchod y Cyhoedd sy'n derbyn ymateb,** gyda **51% yn cael eu hateb o fewn 30 eiliad, gyda'r canran ateb galwadau yn gwella i 78%.** Fel rhan o'r drefn galwadau, mae rhifau ffôn swyddogion Gwarchod y Cyhoedd yn trosglwyddo i grŵp canolog o rifau os nad yw'r swyddog yn ateb ar ôl 3 galwad. Byddwn yn parhau i gadw golwg ar y maes yma, ac os bydd yn helpu i wella perfformiad, mae'n bosib y byddai modd cyflwyno trefn debyg maes o law ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio.

**4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION**

4.1 Fe wnaeth yr Adran Amgylchedd danwario £191k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2021/22. Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol argymhellwyd cadw at y drefn arferol i ganiatáu i'r adran gadw (£100k) o'i danwariant mewn cronfa.

4.2 Mae gan yr adran elfen o gynllun arbedion ar gyfer 2022/23 yn ogystal â rhai cynlluniau ychwanegol sy'n parhau o flynyddoedd blaenorol oherwydd oediad, sy'n gyfanswm gwerth £113,120. Mae'r rhain ar hyn o bryd unai wedi eu gwireddu neu ar drac i'w gwireddu cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Amgylchedd.

---

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Gorffennaf, 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cyng. Berwyn Parry Jones** |
| **Swyddogion Cyswllt:** | **Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| | **Huw Williams, Pennaeth Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)** |
| **Rhifau Cyswllt:** | **32402 / 32426** |

**Pwnc:**

**ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD**

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

---

## Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

1.3 Ar y cyfan rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad y mesurau sydd wedi eu hadrodd arnynt. Mae cryn waith yn wynebu'r Adran er sicrhau y byddwn yn cyrraedd perfformiad ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru erbyn 2025. Rydym hefyd yn falch o adrodd ein bod wrthi'n sefydlu 5 Tîm Tacluso er mwyn gwella delwedd y Sir drwy fuddsoddi mewn harddu ein cymunedau.

**2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)**

2.1 Nodir isod cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaethau gwella'r Adran. Yn gyffredinol, teimlaf fod bob prosiect ar hyn o bryd yn mynd i'r cyfeiriad cywir yn erbyn yr addewidion yr ydym wedi eu gwneud yng Nghynllun y Cyngor. Mae'n bwysig nodi bod blaenoriaethau gwella'r adran yn rhai hir dymor sydd yn cyffwrdd elfennau pwysig iawn o'n gwasanaethau. Fodd bynnag, rhan bwysig o'r gwaith yw ymgysylltu â'r cymunedau er deall a chlywed beth sydd yn bwysig iddynt. Bydd y gwaith yma yn cyd-fynd â 'Cynllun Ymgysylltu Ardal Ni 2035'.

**<u>Cymunedau Glan a Thaclus</u>**

Roeddem yn llwyddiannus yn derbyn cefnogaeth unfrydol gan y Cabinet er mwyn sefydlu 5 Tîm Tacluso 'Ardal Ni'. Lansiwyd y prosiect yn Arfon ar ddechrau fis Mawrth. Cawsom adborth gwych gan aelodau'r cyhoedd ac mae bwrlwm nawr er sefydlu'r timau i fod yn weithredol ar draws Gwynedd.

Mae Swyddog Prosiect Tîm Tacluso 'Ardal Ni' yn ei le fydd yn cydweithio'n agos gyda holl fudd-ddeiliaid y prosiect, gan feithrin perthynas effeithiol a dylanwadol gyda grwpiau cymunedol ag aelodau etholedig er mwyn adnabod gwaith sydd angen ei dargedu er cyflawni cymunedau glan a thaclus.

Er mwyn gwireddu'r hyn addawyd o fewn ein hadroddiad bwriedir gweithredu'r isod:

**<u>Rhaglennu Gwaith y Timau</u>**

- Bydd cylchdeithiau'r Timau yn seiliedig ar yr ardaloedd adfywio/ardal ni.
- Er mwyn ymateb i faterion brys byddem yn sicrhau hyblygrwydd o fewn y rhaglen waith.
- Rydym yn rhagweld bydd y ceisiadau o wahanol leoliadau yn siapio'r rhaglen waith i'r dyfodol.
- Fel egwyddor, byddwn yn rhoi sylw teg i bob tref fawr, pentref mawr a phentref bach o fewn yr ardaloedd adfywio ble bydd y Timau yno am gyfnod o amser penodol yn ôl y galw.
- Byddwn felly yn gallu rhannu gyda'r aelodau lleol pryd fydd Tîm yn eu hardal ac felly'n gallu derbyn unrhyw geisiadau ganddynt.

**Y Gyfundrefn Gysylltu**

Mae sicrhau cyswllt modern, clir ac amserol yn holl bwysig, felly gwelir isod y gyfundrefn y credwn fydd yn gweithio orau:

- Fel y gwnaethom amlygu o fewn ein hadroddiad Cabinet, byddwn yn gwneud defnydd o dechnoleg fodern er mwyn derbyn ceisiadau am waith gan aelodau lleol.
- Rydym wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Tîm TG er mwyn datblygu system FFOS ble bydd gan Gynghorwyr a Chynghorau Cymuned fynediad i'r system FFOS er mwyn creu cais am waith.
- Trwy'r system yma bydd modd anfon neges yn syth i ddyfais symudol y gweithwyr a diweddaru unrhyw geisiadau.
- Bydd modd i'r aelodau nodi cais fel un arferol neu un brys.

**Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn weledol iawn gydag agweddau'r gwasanaeth yn cyffwrdd ar bob trigolyn trwy'r Sir. Gellir ychwanegu gwerth at waith yr Adran drwy gynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol; er enghraifft ymgyrchoedd atal mân sbwriel neu faw ci, neu ymgyrchoedd a chanllawiau i annog ail-ddefnyddio, ail bwrpas a lleihau gwastraff. Mae hefyd yn hynod bwysig fod trigolion yn hyderus yng ngwasanaethau'r Adran a bod eu pryderon ac ymholiadau yn cael eu ymdrin yn effeithiol.

Mae'r prosiect hwn wedi cychwyn yn ddiweddar gan ddechrau drwy adolygu ein trefniadau cyfathrebu cyfredol, sefydlwyd grŵp tasg gyda chynrychiolwyr trawsadrannol (tîm Galw Gwynedd, tîm y we a'r Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu Corfforaethol). Mae'r tîm wedi adnabod bod angen cryfhau ein ffrydiau cyfathrebu drwy ganolbwyntio yn benodol ar ddiweddaru cwsmeriaid ynglŷn â'i ymholiadau. Er mwyn gwireddu'r nod hwn bydd gwaith i ddatblygu'r map rhyngweithiol i'w osod yn gyhoeddus ar wefan y Cyngor. Y bwriad yw gosod gwahanol asedau'r adran ar fap ble bydd modd i gwsmeriaid weld statws yr ased ac adrodd ar unrhyw ddiffyg.

Budd i'r Cwsmer:

- Dull rhwydd o adnabod a dewis ased penodol problemus mewn haen ar fap.
- Gallu i glicio ar yr ased penodol os am adrodd problem.
- Gweld y drefnlen cynnal sy'n gysylltiedig â'r ased dan sylw.
- Gweld os yw'r broblem eisoes wedi ei hadrodd - â'r Cyngor yn ymwybodol o'r mater.
- Gallu penderfynu os oes wir angen parhau i adrodd am y broblem.
- Sicrhau fod modd i gwsmer cael diweddariad am statws y broblem.

Budd i'r Gwasanaeth:

- System ganolig i gadw gwybodaeth am drefnlenni a rhaglenni gwaith y gwasanaeth yn gywir, cyfredol a diogel.
- Osgoi sawl galwad am yr un broblem.
- Galluogi'r Gwasanaeth i ymateb yn effeithiol i'r ased cywir.
- Galluogi'r Gwasanaeth i weithio yn symudol gyda gwybodaeth byw yn cyflwyno i'w dyfais/tabled yn y cerbyd.


- Gwasanaeth yn gallu ymateb yn llawer cynt, er enghraifft fydd y Gwasanaeth yn gallu derbyn ceisiadau yn fyw wrth fynd rownd yn gwneud gwaith.
- Effeithlonrwydd gwasanaeth, yn sgil fydd un swyddog yn mynd i asesu pob ased unwaith.
- Gwybodaeth ar fap am alluogi'r Gwasanaeth i gynllunio cylch gwaith yn fwy Effeithlon.
- Cyfle i arbed disel yn ogystal.

**Prosiectau Eraill**

**<u>Rhaglen Newid Goleuadau Stryd i LED</u>**

Yn yr adroddiad diwethaf, nodais fod y gwaith o newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED yn parhau. Mae'r Gwasanaeth Goleuo yn gweithio ar amnewid goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED gyda threfniant o bylu yn ogystal. Mae'r gwaith yma'n parhau ac yr ydym yn y flwyddyn olaf o'r prosiect erbyn hyn ac yn falch o adrodd bod oddeutu 17,500 o lampau wedi eu newid gydag oddeutu 200 yn weddill. Yn ychwanegol i'r cynllun gwreiddiol rydym wedi mabwysiadu 300 o lampau ychwanegol gan ACGCC sydd yn rhan o'r gwaith dad-dryncio yr A487. Yn sgil y datblygiad yma, rhagwelir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r graff isod yn amlygu lleihad yn allyriadau CO2 (Goleuadau Stryd) o ganlyniad y prosiect:




**<u>Prosiect Adolygu Rheolaeth Fflyd y Cyngor</u>**

Un elfen o'r prosiect hwn yw rheoli defnydd o gerbydau'r Cyngor. Mae'r prosiect yma yn parhau i fod ar waith gyda threfn ymgynghori wedi cymeryd lle ers sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfraith gyflogaeth. Mae'r gwaith wedi cymeryd yn hirach na'r disgwyl ond yn agos i gyrraedd diweddglo.

Elfen bwysig arall o'r prosiect rheolaeth fflyd yw di-garboneiddio'r fflyd. Mae hyn yn cyd-fynd gyda 'Blaenoriaeth Gwella 8 Cynllun y Cyngor 2018-23 - Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd'. Yr ydym wedi ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol ddi-garbon sydd yn cynnwys edrych am ffyrdd arloesol.

Yr ydym wedi cynnal adolygiad o holl gerbydau'r Cyngor gyda chymorth Llywodraeth Cymru ac yn paratoi strategaeth fflyd fydd yn cael ei drafod yn y Bwrdd Hinsawdd yn fuan. Byddwn yn edrych ar gyfleon o ychwanegu at ein fflyd fechan o gerbydau trydan ynghyd ac uchafu pwyntiau gwefru o fewn ein depo a swyddfeydd ac mae grant o £300k wedi ei dderbyn ar gyfer yr elfen yma. Bydd y gwasanaeth casglu yn derbyn dau gerbyd casglu ysbwriel trydan a rhagwelwn bydd y rhain gyda ni erbyn yr Hydref.

**Prosiect Caeau Chwarae**

Mae meysydd chwarae yn bwysig i blant, rhieni a gofalwyr plant ond oherwydd bod offer chwarae'n ddrud ac arian yn hynod brin, mae eu cynnal mewn modd sy'n ddiogel i blant a phobl ifanc allu eu mwynhau yn heriol.

Yr ydym yn falch o adrodd bod y Gwasanaeth wedi llwyddo denu grant am arian gan Lywodraeth Cymru ac wedi llwyddo i osod cyfanswm o 14 cyfarpar newydd mewn ardaloedd difreintiedig ar draws Gwynedd. Fel rhan o waith cynnal yr Adran rydym hefyd yn y broses o newid 5 cyfarpar arall eleni.

Gwelir isod enghreifftiau o waith diweddaraf y Gwasanaeth:

- Cydweithio â Grŵp Cymunedol i uwchraddio cae chwarae Lon y Glyder a chynorthwyo gyda threfniadau er mwyn iddynt sefydlu gardd gymunedol er budd y gymuned.
- Cyflwyno cylchfan addas ar gyfer plant mewn cadair olwyn ym maes chwarae Trehwfa, Coed Mawr, Bangor.
- Cyflwyno ffrâm dringo amlbwrpas ym Mhorthmadog, Mynydd Llandygai a Bethel mewn partneriaeth â'r grwpiau cymunedol / cynghorydd lleol.

**Toiledau Cyhoeddus**

Yr ydym yn edrych ar ddwy elfen benodol o fewn y Gwasanaeth Toiledau Cyhoeddus:

- Edrych ar ymestyn/addasu ein hamseroedd agor.
- Gosod peiriannau talu modern sy'n derbyn cerdyn.

Yn dilyn llacio'r cyfyngiadau Covid fe welsom gynnydd mawr yn y niferoedd o dwristiaid yn ymweld â Gwynedd. Er sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau byddwn yn edrych ar sut allwn addasu amseroedd agor y toiledau yn ôl y galw ac unrhyw opsiynau perthnasol eraill.

Byddwn hefyd yn cynnal awdit o'r drefn codi tal ar ddefnydd rhai o'r toiledau sydd yn eu lle ar hyn o bryd gan gysidro gosod peiriannau talu modern sy'n derbyn taliad gyda cherdyn neu arian parod.

**3. PERFFORMIAD**

3.1 O ran mesurau'r Adran, 'rwyf yn eithaf hapus gyda'u perfformiad. Fodd bynnag, tynnaf eich sylw i'r prif faterion sydd yn codi.

3.2 **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu** - fel sydd wedi ei adrodd arno yn flaenorol, mae'n hanfodol ymdrin â gwastraff mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd. Mae Economi sy'n hybu ail-ddefnyddio ac ailgylchu gan leihau gwastraff (Economi Gylchol) yn hanfodol wrth i ni weithio at y nod yma. Mae yn ofyn statudol i'r Cyngor gyrraedd 70% erbyn diwedd Mawrth, 2025 a bydd angen datblygu strategaeth a chynllun gweithredu clir er cyrraedd y nod yma.

Un elfen fydd cyfleon o fewn y pennawd Economi Gylchol sydd am symud rhai prosiectau gam ymhellach, ond hefyd yn edrych a'r gyfleoedd newydd i ymateb i'r blaenoriaethau sydd wedi cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru sef:

- Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir a / neu symud gwastraff i fyny'r Hierarchaeth Gwastraff, yn enwedig o ran cynyddu'r gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio a'i atgyweirio;
- Rhagor o gynnydd mewn cyfraddau ailgylchu – gan gynnwys ar gyfer safleoedd annomestig;
- Lleihau allyriadau sy'n ymwneud â'r economi gylchol, gan gynnwys datgarboneiddio seilwaith gwastraff a gweithrediadau gwastraff a'r ffordd maent yn gwrthsefyll newid yn y hinsawdd;
- Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau a gweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig â'r economi gylchol yng Nghymru.

Mae'r tabl isod yn amlygu ein perfformiad ailgylchu fesul blwyddyn a fesul chwarter hyd at ddiwedd Mawrth, 2021/22.

| | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 2018/2019 | 65% | 62% | 62% | 62% | 62.31% |
| 2019/2020 | 64% | 65% | 66% | 64% | 64.74% |
| 2020/2021 | 67% | 69% | 63% | 62% | 65.87% |
| 2021/2022 | 69% | 61% | 62% | 65% | 64.17% |
| 2022/2023 | | | | | |
| 2023/2024 | | | | | |
| 2024/2025 | | | | | Rhaid bod ar 70% |

Rydym fel Adran yn darparu gwasanaeth casglu ailgylchu wedi ei ddidoli i drigolion Gwynedd sydd wedi ei sefydlu er mwyn sicrhau bod deunyddiau yn cael ei ailgylchu i'r safon uchaf. Mae'r tabl isod yn rhoi syniad o bwysau deunyddiau ailgylchu a gesglir o'r ffrwd gwastraff tai a'r broses ailgylchu:

| **Deunydd** | **Ebrill-Mawrth 2021/22** | **I ble mae'n mynd** | **Y broses ailgylchu** |
|---|---|---|---|
| Gwydr | 4,717.34t | Rydym yn gyrru'r gwydr a gesglir i gwmni ailgylchu Berryman yn Ne Kirby. | Mae Berryman yn arbenigo mewn dulliau newydd o ymdrin â gwydr er mwyn rhoi ail-fywyd i'r deunydd. Mae'r deunydd newydd yma'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu poteli/jariau newydd i gynhyrchion adeiladu, inswleiddio a llawer mwy. |
| Poteli Plastig | 1,092.08t | Jayplas Recycling.<br><br>(Mae gan y cwmni yma amryw o safleoedd ar draws y DU sydd yn arbenigo mewn ailgylchu gwahanol fathau o blastigion i'r safon uchaf). | Yma, caiff y poteli plastig eu hanfon trwy system brosesu er mwyn cynhyrchu 'PET Flakes' sydd yna'n cael eu gwerthu i gwmnïau sydd yn eu mowldio er mwyn creu pecynnau bwyd newydd. |
| Papur | 3,327.10t | Melin Bapuru Palm sydd wedi ei leoli ger King's Lynn. | Yma, caiff ein llwythi papur ei gyrru trwy beiriant papur newydd. Hwn yw'r peiriant mwyaf o'i fath yn y byd. Ar gyflymder o bron i 2,000m/munud mae ganddo'r gallu i gynhyrchu 400,000 tunnell fetrig o bapur newydd y flwyddyn. |
| Bwyd | 2,693.78t | Safle Treulio Anerobig GwyriAD yng Nghlynnog Fawr. | Mae GwyriAD - sy'n cael ei gynnal gan Biogen ar ran y Cyngor - yn ganolfan arbenigol sy'n troi gwastraff bwyd yn ynni trydan i'r grid cenedlaethol. Mae hefyd yn cynhyrchu gwrtaith ar gyfer tir amaethyddol. |
| Caniau Dur | Cyfanswm o 482.26t o ganiau dur/alwminiwm. | EMR<br><br>(European Metal Recycling). | Caiff ein caniau dur eu prosesu yn safle EMR ger Lerpwl. Yma, mae ein caniau yn cael eu torri yn fan drwy ddefnyddio 'mega shredder' sydd â'r pŵer i ailgylchu car bob 15 eiliad. |
| Caniau Alwminiwm | | Tandom Metallurgical Recycling. | Mae Tandom yn defnyddio llinell rwygo ar gyfer ailgylchu ein caniau alwminiwm. Trwy'r llinell rwygo yma caiff ein caniau eu torri lawr i gronynnau 50mm. Yna, caiff y dur ei wahanu trwy ddefnyddio magnet. |
| Gwastraff Gardd | 4,568.38t | Gwrtaith Gwynedd | Mae'r gwastraff gwyrdd sydd yn cael ei brosesu ar safle Gwrtaith Gwynedd ger Pwllheli yn cael ei droi yn gyson mewn gwynt compost. Mae rhan helaeth o'r deunydd wedi'i brosesu yn cael ei gompostio a'i ddefnyddio ar gaeau ffermwyr. |
| Gwastraff Gweddilliol | Domestig – 17,970.79t<br><br>Masnachol – 4,712.70t<br><br>Glanhau Strydoedd – 1,592.25t<br><br>Swmpus – 295.70t<br><br>Canolfannau Ailgylchu – 2,784.32t | Parc Adfer. | Mae ein gwastraff gweddilliol yn cael ei brosesu yn safle Parc Adfer ar Lannau Dyfrdwy. Mae'r safle yma yn gyfleuster gwres a phŵer sy'n cynhyrchu digon o egni i bweru mwy na 45,000 o gartrefi a busnesau yn y UD. Fe sefydlwyd y safle fel rhan o Bartneriaeth Cyhoeddus-Preifat gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru i wasanaethu pum awdurdod lleol sy'n rhan o Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. |

3.3 **Adolygiad Ffordd Gwynedd Gwasanaeth Gwastraff** - Fe wnaethom nodi yn yr adroddiad diwethaf bod llithriad wedi bod o ran cychwyn yr adolygiad Ffordd Gwynedd. Rydym yn falch o adrodd bod y gwaith yma bellach yn weithredol gyda 5 maes gwaith penodol wedi ei adnabod. Yn ogystal â hyn mae WRAP Cymru yn cynnal adolygiad sy’n canolbwyntio ar ein trefniadau casglu. Gobeithiwn rannu canfyddiadau’r arolygon yma yn ein hadroddiad nesaf.

3.4 **Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd** - Wedi adolygiad Ffordd Gwynedd o’r gwasanaeth, mae’r drefn newydd o weithio wedi ei roi yn ei le ers y 1af o Ebrill eleni. Da yw nodi bod y gwaith yma yn llwyddiant ac wedi cyfarch y drefn hanesyddol o weithio. Yr ydym hefyd yn y broses o ddiweddaru ein Cynllun Cynnal Asedau er adlewyrchu gofynion newydd y Cod Ymarfer sydd â phwyslais ar reoli risg. Yr ydym hefyd yn ail edrych ar ein trefn cynnal ymylon ffyrdd a threfn ymdrin â chwyn a bydd yn rhan o waith adolygiad ein Cynllun Cynnal Asedau priffyrdd.

3.5 **Gwasanaeth Glanhau Strydoedd** - Mae cryn bwysau ar y gwasanaeth hwn ers y cyfnod yr argyfwng lle gwelir mwy o fan ysbwriel, biniau yn llawn a phroblemau o faw ci i’w weld wedi cynyddu. Tra ein bod yn cadw ar ben y sefyllfa, ‘rwyf yn rhagweld y daw materion fel hyn i’r wyneb yn y gwaith ar y prosiect ‘Cymunedau Glan a Thaclus’. ‘Rwyf yn falch o adrodd hefyd y bu i ni allu cynnal ymgynghoriad a’r Orchymyn Cŵn sydd i’w gyflwyno ac mae llawer o ddeunydd da wedi ei gofnodi o’r ymgynghoriad hwn. Elfen arall o waith fydd yn rhan o’r gwasanaeth hwn fydd ‘Timau Cymunedau Glan a Thaclus’. Cafodd adroddiad ei gyflwyno gerbron y Cabinet ar y 30/11/21 yn amlinellu ein bwriad o sefydlu timau gwaith er mwyn gwella delwedd a harddu ein cymunedau o fewn y Sir. Rydym yn falch o adrodd bod ein penderfyniad wedi ei gefnogi yn unfrydol.

3.6 **Glanhau Stryd /Biniau Ailgylchu ar y Stryd** - Mae’r Adran yn edrych ar gyflwyno biniau ailgylchu man ysbwriel o fewn ein prif canolfannau, byddwn yn ariannu’r biniau yma drwy grant Trefi Taclus. Byddwn yn cydgordio negeseuon codi ymwybyddiaeth y cyhoedd i sicrhau eu bod yn cyflwyno deunyddiau gwaredu yn y biniau cywir.

Rydym yn awyddus i foderneiddio ein darpariaeth o finiau felly byddwn yn gosod a threialu biniau clyfar ar ein strydoedd. Mae’r biniau yma yn hynan-gywasgu’r sbwriel ac yn cael ei bweru gan ynni solar. Rydym wedi archebu 4 bin clyfar eleni er mwyn eu treialu. Os yn llwyddiannus ac yn derbyn grant ychwanegol er mwyn archebu rhagor ohonynt gall hyn arwain at arbedion o ran costau casglu gwastraff.

3.7 **Clwy yr Onnen** - Mae tîm bellach wedi'i sefydlu i ddelio â'r clwyf. Prif bwrpas y tîm yw cynnal archwiliadau o goed ynn ar dir a ffyrdd y Cyngor, asesu eu cyflwr â llunio rhaglen waith i ddelio â'r rhai sy'n peri risg diogelwch i’r cyhoedd. Yn ogystal, byddant yn cynnig cyngor i adrannau'r Cyngor a pherchnogion coed preifat mewn perthynas â'r clwyf ac yn paratoi pecynnau gwybodaeth ac adnoddau amrywiol ar wefan allanol y Cyngor er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd amdano.

Er y bydd y tîm yn gweithredu i bob pwrpas fel 'siop un stop', mewn perthynas â thiroedd a ffyrdd y Cyngor, ni fyddant yn cymryd drosodd cyfrifoldebau archwilio a thrin coed rheolaidd pob adran. Ni fyddant ychwaith yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf mewn perthynas â derbyn cwynion am goed diffygiol ar diroedd a ffyrdd y Cyngor. Disgwylir y bydd swyddogion yr adrannau perthnasol yn parhau yn y rôl hon a throsglwyddo unrhyw faterion i'r tîm ond ar ôl iddynt gwblhau eu harolygiadau cychwynnol.

Mae coed yn amsugno carbon ac yn ei storio wrth ryddhau ocsigen yn ôl i'r awyr. O ganlyniad, fe all ein rhaglen torri coed effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei darged o ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. I'r perwyl hwn, mae'r tîm yn gweithio'n agos iawn gyda'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn yr Adran Amgylchedd i edrych i mewn i ffyrdd o ddigolledu am hyn a cheisio cyfleon partneriaethu gydag awdurdodau a sefydliadau eraill i baratoi cynlluniau ar gyfer tyfu ac ailblannu coed sy'n cael eu torri.

3.8 **Achrediadau BSi** - Mae'r Adran wedi llwyddo gyda throsglwyddo o Achrediad 18001 (Bsi) a chyrraedd gofynion 45001 oedd yn ofynnol i'w gwblhau cyn yr Hydrefn eleni. Mae hyn yn golygu ein bod yn cwrdd â gofynion uchel o gyflwyno gwasanaeth gyda systemau rheoli a threfniadau Iechyd a Diogelwch sydd yn cael eu monitro gan Bsi ar gyfer yr achrediad.

Mae awdit yn cael ei gario allan ddwy waith y flwyddyn er sicrhau ein bod yn cadw at y gofyn a cheir hyn ei wneud ar wahanol feysydd o fewn ein 'scope'.

Yr ydym hefyd a'r Achrediadau canlynol sef:

- BSi 14001 - Amgylchedd
- BSi 9001 - Safon

Yr un yw'r drefn o ran awdit lle bydd yr archwiliwr Bsi yn ymweld ar Adran ddwy waith pob blwyddyn er cynnal archwiliad manwl o'n trefniadau.

## 4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

4.1 Roedd yr alldro refeniw terfynol ar gyfer yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn dangos gorwariant o £746k. Fodd bynnag, penderfyniad y Cabinet oedd bod yr Adran yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £746k i ddiddymu'r gorwariant yn llwyr, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol yn ymwneud â'r argyfwng eleni, fel bod modd i'r adran symud ymlaen i wynebu her 2022/23. Bydd adolygiad o sefyllfa ariannol 2022-23 yr Adran yn cael ei gynnal fel rhan o'r adolygiad refeniw ddiwedd Awst, ac adroddir i'r Cabinet ym mis Hydref 2022.

4.2 Mae'r gorwariant a'r problemau amlycaf i'w gweld unwaith eto eleni o fewn y Gwasanaeth Casglu Gwastraff, ac yn rhagweld heriau ariannol sylweddol dros y flwyddyn i ddod. Rydym wedi comisiynu WRAP Cymru i edrych yn fanwl ar y gwasanaeth hwn a darparu adroddiad gweithredol manwl yn rhestru arsylwadau, casgliadau ac argymhellion. Mae adolygiad Ffordd Gwynedd hefyd yn cael ei gynnal o fewn y Gwasanaeth hwn a fydd hefyd yn amlygu meysydd newid.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Bydd yr Adran yn rhoi blaenoriaeth i symud y prosiectau a amlygwyd yn eu blaen gan hefyd rhoi blaenoriaeth i leihau ffigwr gorwariant a nodwyd.

Gydag Adran sydd yn cyflwyno Gwasanaethau rheng flaen, byddwn yn parhau gyda'r nod i gyflwyno'r gwasanaeth gorau i drigolion Gwynedd.

# Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros YGC. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mesurau rwyf yn gyfrifol amdanynt, ac yn diolch i'r Adran am eu gwaith. Rwy'n fodlon â pherfformiad yr Adran yn gyllidol.

1.3 Yn sgil cyhoeddi Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (Gorffennaf 2020) rwyf yn edrych ymlaen at ddatblygu'r Strategaeth Leol. Mi fydd hyn yn gyfle i roi blaenoriaethau a mesurau priodol mewn lle i leihau risg llifogydd a gwneud cymunedau Gwynedd yn fwy diogel.

**2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023**

Nid yw'r Adran yn arwain ar unrhyw brosiectau yng Nghynllun y Cyngor 2018-23. Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar y Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd, gyda YGC yn arwain ar yr agwedd rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol sy'n ffurfio rhan bwysig o'r cynllun.

Isod gwelir gwybodaeth am brif agweddau'r gwaith yma, gan nodi bod risgiau 2.1 a 2.2 yn rhan sylfaenol o adnewyddu'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Lleol (Strategaeth Leol) sydd i gael ei gwblhau erbyn Hydref 2023. Mae Grŵp Cenedlaethol wedi ei ffurfio i lywio'r Strategaeth Leol. Mi fyddaf, gyda chytundeb y Cabinet, yn rhoi briff i'r Adran ar gynnwys y strategaeth er mwyn gosod yn glir blaenoriaethu ar faterion ein risgiau. Mi fydd y Strategaeth Leol yn bwydo i mewn i gynllun Newid Hinsawdd y Cyngor.

Mae'r risgiau sydd yn 2.1 a 2.2 wedi cael eu herio gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

2.1 **Risg o lifogydd mewndirol oherwydd effaith newid hinsawdd**

Mae fy Ngrŵp Prosiect Llifogydd rhwng adrannol wedi blaenoriaethu ardaloedd mewndirol drwy lenwi gwybodaeth i'r matrics blaenoriaethu dalgylchoedd.

Yn ogystal mae'r Adran yn cadeirio cyfarfodydd trawsadrannol i sicrhau ymwybyddiaeth o brosiectau llifogydd, ac i geisio ychwanegu elfennau adrannau eraill sydd yn uchafu gwerth i'r prosiectau hynny.

2.2 **Risg o lifogydd arfordirol oherwydd effaith newid hinsawdd**

Mae'r Adran wedi adnabod cymunedau bregus o ran risgiau o effaith stormydd, erydiad a llifogydd arfordirol. Mae fy Ngrŵp Prosiect Llifogydd rhwng adrannol wedi ffurfio matrics blaenoriaethu arfordirol. Bydd hyn yn adnabod cymunedau bregus fydd angen cefnogaeth.

2.3 **Effaith newid hinsawdd ar Fairbourne**

Mae'r ddogfen Fairbourne: Fframwaith i'r Dyfodol gyda 5 ffrwd gwaith sydd yn datblygu cynlluniau unigol - Cynllun Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM), Cynllun Pobl a'r Amgylchedd Adeiledig, Cynllun Rheoli'r Isadeiledd, Cynllun Cefnogi Busnesau a Chynllun Amgylchedd Naturiol. Mae Bwrdd Prosiect Fairbourne Symud Ymlaen yn cynnwys cyrff canlynol; Cyngor Cymuned Arthog (Cadeirio), Cynghorydd Lleol Gwynedd, Cyngor Gwynedd, Scottish Power, CNC, Llysgennad Cymunedol, Network Rail, Bwrdd Iechyd, Dŵr Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Mae cynnydd diweddar fel yr isod:

- Mae Rheolwr Prosiect dros dro mewn lle.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) nawr yn arwain ar Gynllun Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae CNC yn y broses o adolygu cyflwr eu hasedau a darparu Achos Strategaeth Amlinellol ar y ffordd ymlaen (SOC).
- Mae Gwynedd yn arwain ar y Cynllun Pobl a'r Amgylchedd Adeiledig drwy weithio yn draws adrannol. Mae'r gwaith cwblhau Asesiad Effaith ar Iechyd (Health Impact Assesment (HIA)) gyda'r gymuned wedi dechrau. Mae hyn yn mynd i roi gwybodaeth o'r gwir sefyllfa, ac ehangu ein gallu i gefnogi'r gymuned.

**3. PERFFORMIAD**

3.1 Mae'r flwyddyn yma'n parhau i fod yn un heriol. 'Rwyf yn hapus gyda pherfformiad yr Adran.

Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) yn gweithredu fel:

- Adran sy'n dod ag incwm sylweddol i'r Cyngor.
- Ymgymryd â swyddogaethau statudol yn y maes dŵr a rheoli llifogydd.

Nawr tynnaf eich sylw i brif faterion YGC gan ddechrau hefo'r ochr fasnachol.

3.2 **Gwaith Masnachol**

3.2.1 **Incwm a strwythur y gwaith masnachol** - Mae'r gwaith masnachol yn dod a sgiliau 4 Gwasanaeth at ei gilydd i ffurfio tîm prosiect. Mae prosiectau yn galw am arbenigaeth sawl maes gwaith, oherwydd bod prosiectau o ran eu natur yn wahanol, ac mae cynllun gweithredu yn cael ei darparu i bob prosiect. Hefyd y bwriad yw bod pob cynllun yn cael ei fesur o ran bodlonrwydd cwsmer.

Y pedwar gwasanaeth yw:

- Dŵr ac Amgylchedd
- Adeiladu ac Isadeiledd
- Busnes a Chyflawni Prosiectau
- Technegol

Mae oriau cynhyrchu ffi aelodau staff yn cael ei fesur ac mae'r cyfanswm misol yn cael ei gytuno hefo'r Trysorydd er mwyn mesur perfformiad y Gwasanaeth.

Mae'r flwyddyn yma yn un llai heriol gan fod rhaglen waith cadarn mewn lle, ond gall y balans o waith newid yn ystod y flwyddyn.

O ran mesurau cyllidol, 'rwyf yn hapus gyda'u perfformiad sydd yn bwysig o gofio bod rhan helaeth o swyddogion yr Adran yn gweithio ar waith curo ffi, sy'n dod ac incwm o dros £7.35 miliwn y flwyddyn i'r Cyngor. Fel mae'r strwythur staff yn cael ei ehangu, mi fydd y targed incwm yn codi.

Mae patrwm gwaith am chwarter un a dau yn dilyn yr un patrwm gwaith a llynedd. Prif gleientiaid mae'r Adran yn gweithio iddynt yn 2022/23 isod:

| | | |
|---|---|---|
| ACGCC | Adran Tai ac Eiddo | Adran Amgylchedd Trafnidiaeth a Gofal Stryd |
| Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Cyngor Sir Ceredigion | Llywodraeth Cymru |
| | Cyngor Sir Powys. | Griffiths |

3.2.2 Mae'r tîm amgylcheddol yn gweithio ar sawl cynllun. Maent yn cynnal sawl arolwg rhywogaethau gwarchodedig i sicrhau bod cynefinoedd naturiol yn cael eu gwarchod, ynghyd â darparu mesurau gwella amgylcheddol ar gyfer cynlluniau. Yn ogystal mae'r tîm yn manteisio ar gyfleoedd i ychwanegu elfennau sydd yn cynyddu bioamrywiaeth ar gynlluniau. Mae materion amgylcheddol a chynaliadwyedd yn dylanwadu ar bob math o ddatblygiadau. Mae diogelu cadwraeth a gwella'r amgylchedd yn holl bwysig ac yn nodweddion allweddol datblygu a gweithredu yn gynaliadwy.

3.2.3 Mae'r timau risg llifogydd ac amgylcheddol yn darparu cyfraniad sylweddol at ddatblygu prosiectau newydd i sicrhau nad oes unrhyw brosiectau yn cael effaith niweidiol ar ein hamgylchedd naturiol. Wrth weithio yn fwy agos â natur mae'r adran wedi datblygu cynllun sydd yn rheoli llifo yn fwy naturiol yn nalgylch y Winion. Mae'r cynllun yma wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda Pharc Cenedlaethol Eryri i blannu coed, planhigion a chreu pyllau dŵr yn y dalgylch.

3.2.4 Mae'r Adran yn falch iawn i gynnal a datblygu cyflogaeth leol drwy'r strwythur, sydd yn swyddi o safon. Oherwydd cyfleoedd yn y farchnad mae'r Adran wedi ychwanegu 9 swydd i'r strwythur llynedd, gyda chynllun i ychwanegu 11 swydd arall dros y flwyddyn yma.

3.2.5 Un her mae'r Adran yn ei wynebu yw oherwydd bod swyddogion profiadol yn ymddeol a'r twf ym maint yr Adran, bod angen fwy o swyddogion ar lefel arweinwyr timau ac uwch gyda cymwysterau proffesiynol. Mae cefnogaeth gref gan y tîm rheoli i swyddogion sydd gyda'r deheuad â'r gallu i ennill cymwysterau proffesiynol ac mae'r Adran yn cydweithio gyda chyrff addysgiadol a chyrff proffesiynol.

3.2.6 Mae'r Adran yn rhoi blaenoriaeth uchel i hyfforddi staff. Mae'r Adran yn arwain yn Rhanbarthol ar Gytundeb Hyfforddi Proffesiynol Rhanbarthol Gogledd Cymru ar waith peirianyddol drwy sefydliad ICE (Institution of Civil Engineers). Ar hyn o bryd mae 8 swyddog dan hyfforddiant. Mi fydd hyn yn galluogi'r swyddogion i ddatblygu eu sgiliau, a'u galluogi i weithio ar gynlluniau mwy heriol. Mae'r staff hefyd yn ymwybodol fod cymwysterau proffesiynol yn allweddol i ddenu a churo gwaith.

3.2.7 Mae cynllun olyniaeth yr Adran yn cynnwys pedwar arall o uwch swyddogion sydd yn astudio cymwysterau Diploma Lefel 7 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth Strategol gan gynnwys y pedwar Rheolwr Gwasanaeth.

3.3 **Ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd**

3.3.1 Mae Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu fel adran fasnachol a hefyd yn ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd. Mae'r Adran yn arbenigo mewn meysydd newid hinsawdd mewn perthynas â llifogydd ac erydiad arfordirol, yn enwedig gyda lefel môr yn codi. Mae'r adran yn monitro'r rhaglen waith yn fisol.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae'r Gwasanaeth Dŵr ac Amgylchedd yn ei rôl cleient yn rheoli cynlluniau atal llifogydd a fydd yn gostwng y risg i drigolion Gwynedd. Mae'r buddsoddiad i gyflawni mwy o brosiectau lliniaru llifogydd gan gynnwys Abermaw, Hirael, a Dalgylch Ogwen.

3.3.2 Mae rhaglen o gynlluniau mawr a bach ar draws y Sir i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd blaenorol. Mae'r adran yn gweithio ar y cyd gyda'r Adran Priffyrdd i gwblhau cynllun graddfa fach yn y flwyddyn ariannol bresennol, sydd yn lleihau risg i nifer o dai.

3.3.3 Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Adran i gynnal trafodaethau priodol gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cynghorau Cymuned ac eraill megis y sector breifat a'r trydydd sector.

3.3.4 Mae'r asedau i'w archwilio yn ystod y flwyddyn 2022/23, wedi dechrau. Mae hyn yn ein galluogi i wybod cyflwr ein hasedau a rhaglennu gwaith cynnal sydd ei angen. Mae gwaith atgyweirio asedau diffygiol wedi ei raglennu ac mae'r adran yn parhau i fonitro'r asedau yn y cyfamser.

3.3.5 Mae Prom y Gogledd, Abermaw wedi cael difrod a llifogydd o'r môr ers rhai blynyddoedd bellach. Mae'r tonnau yn torri dros y strwythur yn aml, gan ddifrodi'r ffordd a'r waliau cyfagos. Mae'r gwaith o lunio Achos Busnes Amlinellol (ABA) wedi ei gwblhau. Mae cost y cynllun nawr yn £23 miliwn. Bydd angen i'r Cyngor adnabod 15% o arian cyfatebol os am wireddu'r cynllun.

3.3.6 Mae ymchwilio i ddigwyddiadau o lifogydd yn ddyletswydd arnom o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Yn y flwyddyn ariannol 2022/23 roedd 23 o ddigwyddiadau lifogydd mewnol.

3.3.7 Mae gwaith cymeradwyo ceisiadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn parhau ac mae nifer o geisiadau yn cynyddu.

3.3.8 Mae cadw ein hasedau arfordirol yn saff i'r cyhoedd yn flaenoriaeth ac felly mae angen asesu risgiau o holl asedau arfordirol dan berchnogaeth y Cyngor. Mae'r adran angen ail gyflwyno cais achos busnes am arian i gyfarch y gwaith yma yn draws adrannol.

## 4 ACHREDIADAU

### 4.1 Achrediadau Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP)

Yn 2021 bu i'r adran dderbyn achrediad "Buddsoddwyr mewn Pobl" am y pedwerydd tro. Mi fydd yr adroddiad BMP â'r cynllun gweithredu yn plethu i mewn i gynllun busnes 2022/23 yr Adran.

### 4.2 Achrediadau BSi

Mae'r Adran wedi llwyddo gyda throsglwyddo o Achrediad 18001 (BSi) a chyrraedd gofynion 45001 oedd yn ofynnol i'w gwblhau. Mae hyn yn golygu ein bod yn cwrdd â gofynion uchel o gyflwyno gwasanaeth gyda systemau rheoli a threfniadau Iechyd a Diogelwch, sydd yn cael eu monitro gan BSi ar gyfer yr achrediad. Hefyd mae gan yr adran yr Achrediadau canlynol sef - BSi 14001 - Amgylchedd a BSi 9001 - Safon. Y drefn o ran archwiliad yw bod archwiliwr BSi yn ymweld â'r Adran ddwywaith y flwyddyn er mwyn cynnal archwiliad manwl o'n trefniadau.

Mae archwiliadau mewnol ar waith yr adran yn cael ei gwblhau gan yr Uned Busnes ac mae'r adran yn cydweithio gydag adran y Trysorydd i gwblhau archwiliadau penodol.

## 5. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

5.1 Ar ddiwedd mis 2 o'r flwyddyn gyllidol 2022-23, mae'r Adran yn amcangyfrif tanwariant o £18,655. Mae'r Adran wedi cyflawni eu cynlluniau arbedion effeithlonrwydd hanesyddol.

5.2 Mae'r Adran yn rhagweld cwrdd â'r targed elw eleni, drwy berfformiad o ansawdd. Mae proffil gwaith sydd wedi ei rhaglennu yn gyson gyda phroffiliau'r blynyddoedd blaenorol ac mae gwaith digonol ar gael gan ein cleientiaid am weddill y flwyddyn.

## 6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Parhau i weithredu a rheoli'r Adran gyda chydblethiad agosach rhwng y gofrestr prif risgiau, a'r gwaith dydd i ddydd gyda'r nod o uchafu perfformiad yr Adran.

## 7. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

'Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfaoedd ariannol yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd.